

DR. W. OWEN PUGHE.
(O'r Gwladgarwr).

Dr. W. OWEN PUGHE.

GAN

Y Parch. T. MORDAF PIERCE.



1914.

CAERNARFON, SWYDDFA CYMRU.

J. W. GREEN PUBLISHER

NEW YORK

RHAGAIR.

Y MAE'N debyg nad oes un ymysg cymhwynaswyr Cymru y dadleuir cymaint ynghylch natur a gwerth ei wasanaeth a'r Dr. William Owen Pughe. Deil rhai i edmygu popeth wnaeth, gan gofio ei gymeriad gostyngedig a rhadlon a boneddigaidd, a chan fesur ei lafur maith. Dengys rhai ereill, mewn dull chwyrn weithiau, ei fod wedi ffurfio ei ddamcaniaethau cyn gwybod ei ffeithiau, a'i fod yn plygu ac yn gwyro pethau at ei bwrpas ei hun. Yn ol rhai, dadlennodd gyfoeth ein hiaith a'n llenyddiaeth, yn ol ereill dysgodd i genedlaethau eiriau anffurfiol ac arddull gelfyddydol.

Onid yw y rhai ohonom sydd yn ceisio gwneud ychydig o ddaioni dros ein cenedl yn gofyn i ni ein hunain weithiau,—“Pa un a wna fwyaf, da ai drwg? Pa lwybrau ddanghosaf, rhai gwir ynte rhai cyfeiliorn?” Gwyn ei fyd y gŵr sy'n rhy brysur yn ei waith i fedru gofyn y fath gwestiynau. Un felly oedd William Owen Pughe; gwelodd ef y gwaith mawr

oedd o'i flaen, ac ymdaflodd iddo, heb ofyn a ddylai ymatal hyd nes y delai rhyw-un cymhwysach.

Os edrychir ar Dr. W. O. Pughe fel awdurdod safonol, yn dweyd y gair olaf ar darddiad ac ystyr ac arddull, yna gwna ddrwg. Ond os edrychir arno fel gweithiwr gonest, fel un wnaeth ei oreu yn y gwyll y gweithiai ynddo, y mae iddo le uchel iawn ymysg ein cymhwynaswyr. Nid efe sy'n rhoi ei air yn ddeddf, ni wnaeth edmygedd miloedd iddo golli gostyng-eiddrwydd ei ysbryd. Ni wna yr un athronydd na hanesydd, ac yn enwedig yr un geiriadurwr, waith terfynol hyd ddiwedd y byd. Nis gall y goreu o honynt ond naddu cerrig i rai sy'n dod ar eu holau.

Ymgwymerodd Mordaf a dangos beth yw lle Dr. W. O. Pughe yn hanes a meddwl ei genedl. Yr oedd yn bryd rhoddi'r gŵr mawr hwn yn ei le o flaen ei bobl ei hun.

OWEN M. EDWARDS.

CYNHWYSIAD.

	<i>T'ud.</i>
I. EI HANES	9
(1) Yn Llanfihangel y Pennant	11
(2) Yn Ardudwy	12
(3) Yn Llundain	15
(a) Y Gwyneddigion	16
(b) Y Southcotiaid	26
(c) Ei Deulu	28
(d) Ei Deitlau	30
(4) Yn Ninbych	30
(5) Ei Farwolaeth	32
II. EI WAITH	36
(1) Ei Lyfrau	37
(2) Ei Ysgrifau	57
(3) Ei Fwriadau	59
(4) Y Geiriadur	61
(5) Ei Gyfieithiadau	74
(6) Ei Feirniadaethau	88
III. EI ATHRYLITH	98

	<i>Tud.</i>
IV. E <small>Y</small> F <small>EIRN</small> IAID	132
i. Y Dosbarth Personol	134
ii. Y Dosbarth Llenyddol	149
iii. Y Dosbarth Ieithyddol	164





DR. W. OWEN PUGHE.

(1759—1835).

I.—EI HANES.

ER fod Dr Owen Pughe yn ei ddydd yn un o brif gymwynaswyr ein cenedl, eto ychydig mewn cymhar-iaeth o'i hanes sydd ar gael. Ceisir cryn-hoi ynghyd rai o brif ddigwyddiadau ei fywyd, a'u gosod mewn trefn hyd y gellir, gan fod hanes pob dyn i ryw raddau yn rhoddi ffurf ar ei alluoedd, ac yn rhoddi esboniad ar ei waith. Ar dyfiant bywyd fel bywyd cynydfawr Dr. Pughe yr oedd yr amseroedd a'r amgylchoedd yn rhwym o effeithio'n fawr iawn.

Mae'n wybyddus ddigon nad oes ne-mawr un o enwogion Cymru a chymaint

o amrywiaeth barn yn ei gylch. Ond dylid mesur ei faint nid yn unig wrth swm ac ansawdd y gwaith a wnaeth, ond hefyd wrth nodwedd yr oes yr oedd yn byw ynddi. Cydnabyddir ei fod ar y blaen fel un o hyrwyddwyr pennaf yr adfywiad llenyddol yng Nghymru yn niwedd y ddeunawfed ganrif, ac yn nechreu y ganrif ddilynol, a'i fod wedi gosod ei ddelw'n drwm ar lenorion y wlad yn gyffredinol, yn fwy felly na neb arall o'i gyfoedion enwog.

Bu raid iddo yntau ddioddef y penyd sy'n dod i ran pob diwygiwr, a gwnaeth hynny'n ddistaw a boneddigaidd. Cododd un dosbarth o lenorion i'w gablu, a'i wneud yn ddim ond ymhonnwr afresymol. Cododd dosbarth arall i'w foli, a'i wneud yn oracl anffaeledig. Mynnai y dosbarth cyntaf, gyda Robert Southey, ei gladdu mewn trybolfa leidiog; mynnai y dosbarth arall, gyda George Borrow, gladdu pob mawredd Cymreig ym medd Dr. Pughe. Rhwng y ddau eithaf hyn bu ei ddylanwad ar lenorion a llenyddiaeth Cymru yn deg a rhesymol. Mae'n wir fod iddo ei wendidau a'i gamgymeriadau amlwg fel i bob dyn mawr arall, eto y mae ein dyled ni fel Cymry iddo'n

anfesuro! am wasanaeth amhrisiadwy mewn cyfnod nodedig o bwysig, ond cyfnod prin ei fanteision a bach ei gefnogaeth.

(1). *Yn Llanfihangel y Pennant.*

Ganwyd Dr. Pughe Awst 7, 1759, mewn lle o'r enw Ty'n y Bryn, ym mhlwyf Llanfihangel y Pennant, yng nghantref Meirionnydd. Enw ei dad oedd John Owen, a galwyd y plentyn hynaf yn "William," ac fel "William Owen" yr adnabyddid Dr. Pughe am y rhan gyntaf a'r rhan fwyaf o'i oes. Pan y ganwyd William yr oedd bachgen bychan wyth mlwydd oed yn byw heb fod yn nepell o Dy'n y Bryn yn nghyfeiriad Towyn Meirionnydd, o'r enw "Dafydd." Cyn hir daeth y Dafydd hwn yn adnabyddus drwy'r wlad fel "Dafydd Ionawr," awdwr "Cywydd y Drindod." Yr oedd y ddau dad yn ddau amaethwr cefnog a pharchus, ond tra gwahanol i'w gilydd mewn meddwl a moes. Yr oedd y ddwy fam yn ddigon tebyg i'w gilydd, yn nodedig o lednais a chrefyddol. Meddianodd Dafydd natur ei fam a thipyn o natur ei dad. Meddianodd William

natur ei dad a thipyn o natur ei fam. Daeth Dafydd a William yn enwog, ond arall oedd gogoniant y naill, ac arall oedd gogoniant y llall. Ymhen chwarter canrif ar ol geni William, ac o fewn llai na chwarter milldir i Dy'n y Bryn, ganwyd geneth o'r enw Mary, a daeth hithau'n enwog fel "Mary Jones, y Feibl Gymdeithas." Mae'n sicr na chododd cymdogaeth Craig y Deryn na chynt na chwedyn ddim tri mor adnabyddus a'r tri hyn, —Dafydd Ionawr, Dr. Owen Pughe, a Mary Jones.

(2). *Yn Ardudwy.*

Rywbryd cyn y flwyddyn 1766 symudodd John Owen a'i deulu o Dy'n y Bryn i Egryn, ffermdy henafol yn Ardudwy, oddeutu tair milltir o'r Abermaw ar y ffordd yr elych i Harlech. Yr oedd Ardudwy y dwthyn hwnnw yn lle heb ei fath i fagu Cymro gwladgar fel William Owen, ac i greu nwyd ynddo am chwilota i ramantau'r hen oesoedd. Ar y naill law iddo cadwai'r môr gyfrinach Cantre'r Gwaelod, ar y llaw arall cadwai'r mynyddoedd olion yr hen Rufeiniaid; o'i flaen cadwai Twr Bronwen hanes ysgarmesoedd

yr hen Gymry, o'i gwmpas cadwai'r ardalwyr ddywediadau Edmund Prys, Elis Wyn, a Philipiaid Ardudwy; ac yn ei mynl cadwai teulu Cors y Gedol ei aden glyd dros bob tuedd lenyddol yn y wlad. Hefyd, yr oedd Egryn yn lle dyddorol dros ben, hen fynachlog wedi ei droi'n amaethdy golygus, a'i hanes yn ymgolli yn niwl y canrifoedd. Heblaw hyn oll, yr oedd John Owen, y tad, yn llawn o anianawd y fro, ac yn ddatganwr diail. Ar hirnos gaeaf a hirddydd haf ymgasglai gwyr Ardudwy ynghyd i Egryn i ymddifyrru yn hen gampau'r Cymry gynt trwy chware, chwedleua, a chanu tafod a thant. Oni chroniclir yr hanes ganddo ef ei hun yn rhagymadrodd y Geiriadur?

“Yr oedd y cyfryw arferion yng ngoror Meirion yn cael eu cynnal yn helaethach, mae'n debyg, nag yn yr un oror arall o'r Dywysogaeth; ac fel yr oedd yn naturiol dygwyd finnau i fyny yn y cyffelyb ddull, a hynny'n fwy am fod fy nhad yn un o'r cantorion pennaf yn y wlad; a thra yr oeddwn gartref byddwn yn cael odfa fynych i wrando nifer o gymdeithion oedd wedi ymgasglu i ymarfer eu medrusrwydd yn y gelfyddyd hon a'r cyffelyb, ac ymreddfodd y defodau cenedlaethol yma yn fy meddwl.”

Yn 1773, pan oedd y llanc yn bedair ar ddeg oed, cyhoeddwyd y llyfr a elwir “Gorchestion Beirdd Cymru,” gan Rhys

Jones (1713—1801), a bu y llyfr hwn yn gynnud amserol ar dân calon Gymreig y bachgen.

Yn fuan ar ol i'r teulu sefydlu yn Egryn agorwyd ysgol yn y gymydogoeth gan wr o sir Benfro o'r enw Henry Richards (1730—1813), tad y Parch. Thomas Richards, Abergwaen, ac Eben-ezer Richards, Tregaron. Ni chafodd yr athro hir ddyddiau yn Ardudwy gan i'r bobl ddeall ei fod yn perthyn i'r "sect newydd," a bu raid iddo ddychwelyd i'w fro cyn diwedd 1767. Mae'n ddigon tebyg mai dyma'r ysgol yr anfonwyd William Owen iddi pan yn saith oed, ac mai Henry Richards oedd y gwr a roddodd iddo grap i gychwyn ar yr iaith Saesneg, yn ogystal a dangos iddo fod mwy nag un ffordd ar siarad Cymraeg. Fodd bynnag, anfonwyd ef wedi hynny i'r Athrofa yn Altringham, ger Manceinion, ysgol ag y cyrchid iddi o bell ac agos y pryd hwnnw ar gyfrif ei chlod mewn dysg a moesau. Er fod greddf yr ieithyddwr yn ei natur, ac er iddo barhau yn fyfyrwr ar hyd ei oes; mae'n rhaid ei fod wedi cael addysg dda pan yn blentyn cyn y gallai gyrraedd y pinacl a gyrhaeddodd mewn gwahanol ieithoedd a gwybodau.

(3). *Yn Llundain.*

Ym mis Mai, 1776, pan yn 17 mlwydd oed, gadawodd ei gartref yn Egryn ac aeth i aros i Lundain, er mwyn perffeithio'i addysg a chychwyn ar waith bywyd. Yn y ddinas fawr yr oedd popeth yn newydd a dieithr iddo, yn arbenig yr iaith. "Eto," ebai ef ei hun, "mor gryfion oedd effeithiau arferion ieuentid ar fy meddwl o hyd, fel nad oedd dim a'm difyrriai yn fwy na llyfrau Cymraeg, a mynych y dygent y fath fyfyrddodau melus-brudd i'm meddwl nes oedd y rhan flaenorol o'm bywyd yn ymddangos fel rhyw hanfodiad arall." Bu fel pererin unig yn Llundain am chwe blynedd, a'i natur yn cael ei mwydo gan feddyliau dwys a hiraethus o'r fath, heb wybod fod neb arall yn y ddinas yn trafferthu meddwl dim am iaith na llenyddiaeth Cymru. Ond yn ddamweiniol tarawodd ar Robert Hughes, y bardd o'r Caint Bach ym Môn, a thrwyddo ef daeth i gymdeithas gwyr o gyffelyb ymgais, oedd wedi bod am flynyddau'n llafurio'n ddyfal gyda'r un pethau ag yntau. Yn 1782 ymofynodd am aelodaeth yng Nghymdeithas enwog y Gwyneddigion, ac yn 1783 der-

byniwyd ef yn "gyflawn aelod." Yr un noswaith derbyniwyd hefyd Edward Jones (*Bardd y Brenin*), a Mr Jeffreys, golygydd y "British Anthology." Bellach aeth Llundain yn fwy newydd a dyddorol nag erioed iddo, oblegid dechreuodd deimlo dylanwad y swyn cyfrin hwnnw sydd gan y Brif-ddinas ar lenorion yr oesau.

(a). *Y Gwyneddigion.*

Mae'n hysbys mai cyfnod y cymdeithasau llenorol oedd y cyfnod hwnnw yn Llundain. Ymgasglai beirdd a llenorion gwahanol genhedloedd at eu gilydd yn fynych i ymgomio a gwledda. Ceir syniad gwych am gyrddau'r Saeson, ac am y modd comfforddus yr hogent feddyliau eu gilydd, wedi ei ysgrifennu'n ddi-debyg gan Boswell yn ei lyfr diguro ar Dr. Johnson. Naturiol oedd i Gymry llengar gydgyfarfod yr un modd, ac i'r diben hwnnw ffurfiwyd y Cymdeithasau canlynol yn Llundain.

Cymdeithas y Cymrodorion a sefydlwyd yn 1751, ac a barhaodd yn flodeuog hyd 1787. I'r gymdeithas hon y perthynai Goronwy Owen, Morusiaid Môn,

Owain Myfyr, ac enwogion ereill. Nod o ragoriaeth yng ngoreugwyr y genedl oedd bod yn aelod o'r Cymrodorion. Yn y cyrddau cedwid yn gaeth at yr iaith Gymraeg, a threthid pob aelod i hanner gini'n flynyddol er galluogi'r gymdeithas i fod yn achles a chymorth i lafurwaith awduron Cymreig. Cyfarfyddai yr aelodau yng Ngwesty'r Half Moon, yn Cheapside, am rai blynyddau, ac wedi hynny yn y Queen's Head, St. Paul's Churchyard. Gan nad oedd y Gymdeithas hon yn rhoi lle i rai o nodweddion hoffus y Cymry, megis, canu penillion, &c., penderfynwyd, yn niwedd 1770, i gychwyn cymdeithas arall a'i galw

Y Gwyneddigion. — Yn Rhagfyr y flwyddyn honno trefnwyd i gychwyn yn rheolaidd gyda'r flwyddyn newydd (1771), a chaed dau ddwsin o enwau; yn eu plith ceir John Edwards (*Sion Ceiriog*), Robert Hughes o Fôn, Dr. D. Samuel, a'i gefnder Hugh Samuel, Robt. Williams, William Williams, Hugh Rowlands, &c. Nid oedd Y Myfyr yn bresenol, er mai ei syniad ef oedd y gymdeithas newydd, ac efe a ddewiswyd yn llywydd am 1771. Amcan mawr y gymdeithas hon hefyd oedd "noddi beirdd Cymru,

ac annog i fyfyrrio yr iaith Gymraeg yn fwy dyfal a manwl, yn ogystal a chasglu a chyhoeddi llenyddiaeth Gymreig hen a diweddar." Yn y gwaith hwn ni chododd ei rhagorach na chynt na chwedyn.

Cartrefai'r gymdeithas i ddechreu yn y "Goose and Gridiron," St. Paul's Churchyard; yna yn y "George and Vulture," Lombard street; wedi hynny yn y Crindy, sef y Bull's Head, Walbrook street. "A very creditable low house," ebe Iolo mewn tipyn o wawd, yn 1792. Dywed Leathart mai oddeutu 1798 y symudwyd i'r Crindy, ond y mae llythyr Iolo yn ddigon o sierwydd ei bod yno yn 1792. Yn 1806, mewn llythyr at Sion Lley, dywed Llwynrhudol,

"Cymdeithas y Gwyneddigion yn cael ei handwyo *trwy dyrcheidd-tra* Owen Myfyr yn nacau ymadael â'r Crindŷ, ac ereill yn gomedd myned yno oherwydd fod y tŷ yn rhy sal iddynt fyned iddo, &c."*

Fodd bynnag, yn y Crindy y cartrefwyd tra bu'r Myfyr yn fyw. Yn 1816 symudwyd i Arwydd y Sâch Gwlân — "The Woolpack," Cornhill. Yn 1831 aed i Westy "Owain Glyndwr," 163, Al-

* Adgof uwch Angof, tud. 86.

dersgate Street. Dyna symudiadau'r gymdeithas yn ystod y triugain mlynedd cyntaf o'i hanes.

Er mwyn tynnu'r gymdeithas o'r Crindy, ac er mwyn cael mwy o areithio a dadlu, a llai o ymgomio a chanu, sefydlwyd cymdeithas arall,

Y Cymreigyddion yn 1795. Glanygors a Llwynrhudol oedd y prif hyrwyddwyr, a deuddeg oedd rhifedi'r disgyblion yn y cyfarfod cyntaf. Prif amcan y Cymreigyddion oedd coleddu'r Gymraeg, Cymraeg llafar yn benodol. Yr oedd amryw o'r aelodau yn dal fel aelodau o'r Gwyneddigion hefyd. Yr oedd yr un berthynas rhwng y Cymreigyddion a'r Gwyneddigion, ag oedd rhwng y Gwyneddigion a'r Cymrodorion yn yr amser gynt. Cartrefai'r Cymreigyddion yng ngwesty'r "King's Head," Ludgate Hill, a gedwid yn barchus gan Glanygors Rhoddaï y goganfardd loches gysurus i'r gymdeithas, ac i lenorion Cymreig o bob math ar eu hymweliadau achlysurol a'r Brifddinas.

Er fod y Cymrodorion, y Gwyneddigion, a'r Cymreigyddion yn berthynasau agos, eto yr oedd pob un o honynt yn

hollol annibynol ar y lleill, a phob un yn meddu ei haelwyd ei hun.

Yn 1797 dechreuwyd cymdeithas wahanol, *Y Caradogion*, sef cangen o'r Gwyneddigion, ac yn cadw'i chyfarfoddydd yn yr un ystafell, ond nid ar yr un adeg. Amcan hon oedd diwyllio'r Cymry mewn siarad Saesneg, a chaniateid i Saeson ymuno. Yn y gymdeithas hon dechreuodd amryw siarad yn gyhoeddus am y waith gyntaf erioed a ddaeth ar ol hynny yn areithwyr adnabyddus, megis Sergeant Andrews, Adolphus, Horace Twiss, A.S., D. W. Harvey, A.S., ac ereill. Ni chafodd y gymdeithas oes faith iawn, gan waith yr awdurdodau gwladol yn ei drwgdybio, ac yn cymeryd gafael yn ei holl bapurau a'i llyfrau.

I'r Gwyneddigion y perthynai Dr. Pughe, a daeth yn fuan yn un o'r rhai enwocaf ymhlith enwogion y gymdeithas. Anrhydeddwyd ef gan y gymdeithas uwchlaw yr holl aelodau gyda'r eithriad o Owain Myfyr yn unig. Bu'n ysgrifenydd, ac yn drysorydd y gymdeithas, a bu'n llanw'r gadair lywyddol deirgwaith—braint na chafodd neb arall heblaw y Bardd Cloff ac Owain Myfyr. Bu'r Myfyr yn y gadair bumwaith. Nid cad-

air gyffredin oedd cadair y Gwyneddigion. Caed hi yn gymunrodd gan y Cymrodorion yn 1787, a hwythau wedi ei chael yn rhodd gan Syr Watkin Williams Wynn yn 1757. Cytras teilwng iddi oedd y "bwrdd crwn" mahogani yng nghanol yr ystafell. Yr oedd parlwr y Gwyneddigion yn ei gelfi yn deilwng o benaethiaid llên y Cymry.

Gwnaed gwaith anhygoel bron ganddynt mewn casglu, adysgrifennu, a chyhoeddi hen lenyddiaeth yr oesau boreol, a chadw'r hen fesurau barddol rhag mynd ar ddifancoll. Trwy y gymdeithas hon yn bennaf yr adnewyddwyd yr Eisteddfod gan ei gwneud yn effeithiolach nag erioed o'r blaen. Dyma y

"Llundeinwyr, gwyr rhagorol,
Noddai'n hiaith flynyddau'n ol;
Eu dwylaw hwy a'i daliodd—yn addas,
Pan oedd ym mron diffodd;
Chwalu'r gwyll tywyll a'i todd—yn fyddlon
Wnai y Gwyneddion enwog a'i noddodd."†

Ymhlith y rhagorolion hyn y bu Dr. Pughe am flynyddau. Yma y

"Llafuriodd, a'i holl fwriad—i goledd
A gweled perffeithiad
Hen brif-iaith, lanwaith, ei wlad,
Ei gwreiddyn, a'i gorweddiad."‡

† Caledfryn.

‡ Bardd Nantglyn.

Dyrnod drom i'r gymdeithas oedd marwolaeth Owen Jones (*Owain Myfyr*), F.A.S., yn 1814, a noson bruddaidd a dreuliwyd yn y cyfarfod cyntaf ar ol ei gladdu. Galarganodd Glan y Gors "*Alarnad Cymdeithas y Gwyneddigion am ei Thad*"—Mesur Trymder.

"The solemn Dirge, written by Mr. Jones, of Glan y Gors, Bard to the Gwyneddigion or North Wales Society, and sung by him at the first meeting of the Society, after the decease of Mr. Owen Jones. . . . The Dirge was received with tears of applause, while the Bard was evidently affected by his subject, and the mournful scene."||

Syllai darlun yr ymadawedig ar y delyn mewn galarwe ddu, a'r gymdeithas brudd yn ei sefyll yn gwrando Glanygors yn canu'r geiriau hyn,—

"Dyma drymder dyfnder dwys
 O burlwys barch,
 I'n poeni o rym ein pen erioed
 A roed yn 'r arch;
 Y mae ochneidiau moddau maith,
 A galar mwy am golofn iaith,
 A rhoddwr gwobr am y gwaith
 Barddoniaeth iawn!
 Pa fodd y lluniwn ddim gwellad
 Wrth ymgleddu iaith ein gwlad?
 Nid call ein tôn, Ow! colli ein Tad
 Ymddifad ddawn.

|| Cambrian Register, Vol. iii., p. 492—6.

“ Am ddeall llyfrau goreu gwr,
 A gweithiwr gwych
 I godi hen ysgrifen croen
 Neu bapur crych;
 E wŷr awduron radlon ri,
 Pa faint yn ffraeth, a wnaeth i ni,
 O'i fynd i'r gro mae arnom gri
 Mal cledi clwy.
 Ni ddaeth mewn modd tufewn i'n mur
 Drwy y bywyd un mor bur,
 Ni welwn cofiwn mawr ein cur
 Mo'r MYFYR mwy!

“ Ni chlywir heno bibell fain
 A'i sain mal swyn,
 Dwl yw'r fan lle dylai fod
 Y delyn fwyn;
 Nid oes mwynder, pwy a'i medd?
 Am dymor bach tu yma i'r bedd,
 Caiiff plant yr Awen lawen wledd
 Mewn annedd nef;
 Rhown ein tai bob rhai mewn rhôl
 Cyn mynd i ddalfa'r angau a'i ddôl,
 Ein galw a wna heb gilio yn ol,
 I'w galyn ef.”

Wedi colli'r Myfyr collwyd pob dyddordeb yn y Crindy, a chafodd y gymdeithas well cartref dan Arwydd y Sach Wlan. Enillodd lawer o aelodau newyddion, a daeth yn gryfach mewn rhif nag y bu erioed. Yn 1831 rhifai yr aelodau yn agos i ddau gant, ynghyda haner cant o Aelodau Anrhydeddus.

Yn y flwyddyn 1800 meddianwyd y gymdeithas â chwiw y ffugenwau, ac elai yr aelodau dan bob math o enwau wedi eu cymeryd oddiwrth eu cartrefi, lliw eu gwallt, neu ryw nodwedd arall a berthynai iddynt.

Crin oedd Evan Roberts gwr y Crindy.

Gwilym Idan—William Williams o Lanidan.

Meddyg Da—Dr. D. Samuel.

Huw Llangar—Hugh Samuel, cefnder y Meddyg Da.

Rhobin Ddu—Robert Hughes, o'r Caint Bach.

Sion Môn—John Lewis, brodor o Fôn.

Owen Môn a Cor y Cyrtie—Owen Jones, o Fôn.

Wil Môn—brawd doniol Owen Jones.

Huw Aber—Hugh Rowlands, un o ysgutorion ewylllys y Frenhines Charlotte.

Siarlyn Fardd—Edward Charles, o Glocaenog.

Crintach—Wheldon Jones.

Morcyn—Thomas Morris, a gladdwyd yn Wrexham.

Consul—Edward Jones, un celfydd ar chware.

Dafydd Wylt—David Davies, Soho, canwr penillion.

Alderman Pugh—oedd wr o Ddolgellau.

Sion Grythor—John Vaughan yr arlunydd.

Sion Goch—John Hughes, cyfreithiwr o Ddinbych.

Ned Môn—Edward Jones, Paris.

Sion Penlleyn—John Williams, capten yn y fyddin.

Gwilym Dawel—Dr. W. O. Pughe.

Oddeutu'r flwyddyn 1815 ymunodd Dr. Pughe, y Bardd Cloff, ac ychydig ereill o'r Gwyneddigion, â Chlwb Meibion Morven, cymdeithas oedd yn perthyn yn bennaf i wyr o Ucheldiroedd yr Alban, ac yn amcanu gwneud yr un peth i'r Albanwr ag a wnaï'r Gwyneddigion i'r Cymro. Cyn hir newidiodd y gymdeithas hon ei henw, ac ychydig ar ei ffurf. Galwyd hi "The Club of True Highlanders." Bu llawer o gyfathrach rhwng y Gwyneddigion a'r gymdeithas hon am flynyddoedd.

Yn 1820 adgyfodwyd Cymdeithas y Cymrodorion (*Royal Cambrian Institution*) gan rai o aelodau'r Gwyneddigion, sef Dr. Pughe, John Parry (*Bardd Alaw*);

John Humphreys Parry, bargyfreithiwr; Thos. Jones (*Bardd Cloff*), John Jones, (*Glanygors*); a Meredith Jones, yr unig un oedd yn fyw o hen Gymrodorion 1787. Rhoddwyd ailgychwyniad effeithiol i'r hen gymdeithas, a pharhaodd y Gwyneddigion i dalu'r pwyth yn anrhydeddus i'w hen fam ar ol ei dadebru yn 1820. Ond ynghanol yr holl gymdeithasau nid oedd hafal i'r Gwyneddigion yn ol barn Dr. Pughe.

(b). *Y Southcotiaid.*

Yn anffodus, yn nechreu y ganrif ddiweddaf, ymunodd Dr. Pughe a'r sect a elwid yn Southcotiaid, sef dilynwy'r Joanna Southcote, yr hon a honnai mai hi oedd "y wraig" y sonnir am dani yn llyfr y Datguddiad. Proffwydai mai hi oedd i fod yn fam yr Ail Siloh, neu y Siloh ar ei Ail-ddyfodiad. Cyhoeddai ei phroffwydoliaethau, a'i gweledigaethau, a derbynid hwy yn ffyddiog gan ei chanlynwyr a rifent ar un adeg dros gan' mil o eneidiau. Yn eu plith yr oedd amryw o weinidogion Eglwys Loegr, yn ogystal a gwyr cyfrifol ereill. Yn 1814 bu y broffwydes farw yn 60 mlwydd oed, er dir-

fawr siom i'w chanlynwyr. Yr oedd Dr. Pughe yn gredwr mawr yn y wraig hon fel y prawf ei lythyrau at Gwallter Mech-ain yn 1805, a daeth yn un o brif swyddogion ei heglwys. Efe a ddygai ei chen- adwriaethau dan drefn a dosbarth, ac o dan ei gyfarwyddyd ef y cerrid llawer o'r gwaith ymlaen. Rhoddodd ei holl ddy- lanwad o blaid y gred newydd, ryfedd hon, ac nid yw ei gaseion byth wedi peidio ceisio claddu ei goffa yn llwch ei grefydd.

Wedi'r cwbl nid oedd credo y Southcot-iaid mor "anuwiol" ag y myn rhai i ni gredu ei fod. Nid credu rhy fach yr oedd- ynt, ond credu gormod. Nid oeddynt am dynnu dim oddiwrth gredo'r Cristionogion yn gyffredin, ond yr oeddynt am ychwan-egu ato. Wrth geisio esbonio llyfr y Dat- guddiad aeth y sect hon, fel llawer sect arall, ar gyfeiliorn. Mae'n bosibl nad oedd neb yn twyllo'n fwriadol: pobl yn twyllo eu hunain oeddynt, wedi eu hud- denu gan brofiadau rhyfedd y "bro- ffwydes," a neb yn cael ei dwyllo'n fwy na hi ei hun.

Rhaid cofio y dichon credoau crefydd- ol un oes ymddangos yn blentynaid i oes arall mewn llawer modd, a bod rhai o'r dynion mwyaf a gonestaf y byd wedi bod

ar adegau mewn niwl a th'wllwch, ac wrth ymbalfalu am oleuni wedi gwneud camgymeriad dybryd. Dyna sy'n wir am Dr. Pughe. Yn hyn o beth aeth ei sêl yn "sêl heb wybodaeth," a'i ffydd yn "ffydd nid yn ol doethineb." Er iddo gael "ei fagu yngeiriau y ffydd ac athrawiaeth dda," eto, "ni adawodd heibio wrachiaidd chwedlau." Pan y bwriwn olwg dros nodweddion ei athrylith cawn weled nad oedd y llithriad hwn yn beth i ryfeddu'n fawr ato, a bod yr hyn oedd gryfder ynddo fel llenor wedi troi'n wendid ynddo fel crefyddwr,

"Thus shadow owes its birth to light."

(c). *Ei Deulu.*

Awst 9, 1790, pan yn 31 mlwydd oed, ymbriododd â Miss Sarah Elizabeth Harper (1771—1816): un o'r boneddigesau mwyaf llednais a charedig, ac un a lanwodd le mawr a phwysig yn ei fywyd am dros chwarter canrif. Dyrnod drom oedd ei cholli, a bu ol y ddyrnod arno am y gweddill o'i oes. "Aeth ei delyn hefyd yn alar, a'i organ fel llais rhai yn wlo." O'r briodas ganwyd mab a dwy ferch —

Aneurin yn 1792; Isabela yn 1794; ac Elen yn 1795. Dilynodd Aneurin gamre ei dad, a daeth yn ysgolor Cymreig o'r radd flaenaf. Efe gyfieithiodd i'r Saesneg "Gyfreithiau Hywel Dda"; a chyd-nabyddid ef yn feirniad llenyddol a cherddorol o'r dosbarth uchaf. Daeth yn aelod o'r Gwyneddigion yn 1827, a chofrestrir ei enw fel

"Aneurin Owen, Tan y Gyrt, Denbigh."

Bu farw'n 59 mlwydd oed.

Hydref 18, 1806, bu farw perthynas i Dr. Pughe, sef, y Parch. Rice Pughe (1730—1806), offeiriad Nantglyn, ger Dinbych, gan ei adael ef yn etifedd ei ystad yn Ninbych a Meirion. Dyma y rheswm, a dyma'r pryd, yr ychwanegwyd yr enw "Pughe" at yr enw "William Owen." Er nad oedd dim yn yr ewyllys yn gofyn am hyn, eto o barch i goffadwriaeth ei gâr a'i gymwynasydd dymunodd wisgo ei enw. O hynny allan, ac efe ar y pryd yn 47 mlwydd oed, adnabyddid ef fel "William Owen Pughe," ac felly yr adnabyddir ef hyd y dydd hwn.

(d). *Ei Deitlau.*

Mae'n debyg iddo gael ei wneud yn Aelod o'r Gymdeithas Hynafiaethol (*Fellow of the Antiquarian Society*) rywbryd oddeutu'r flwyddyn 1792, oblegid ceir ei enw ar wyneb ddalen y rhan gyntaf o'r Geiriadur, a gyhoeddwyd yn 1793, fel "WILLIAM OWEN, F.S.A."

Ymddengys mai oddeutu 1826, neu'n fuan ar ol cyhoeddi'r cyfieithiad "Coll Gwynfa," yr anrhegwyd ef a'r teitl o Ddoethor yn y Cyfreithiau Gwladol" (*Doctor of Civil Laws*), gan Brifysgol Rhydychen. Yr oedd yn Llywydd y Gwyneddigion yn 1820, a cheir ei enw a'i deitlau ar y cofnodlyfr yn nechreu'r flwyddyn honno fel hyn,—

WILLIAM OWEN PUGHE, LL.D., F.A.S.

Felly yr oedd yn wr triugain oed pan yr dechreuwyd ei alw'n "Dr. Pughe."

(4). *Yn Ninbych.*

Yn lled fuan ar ol meddiannu yr etifedd iaeth symudodd i fyw yn agos i Ddinbych, ond parhaodd i gadw ei gysylltiad a'r Brifddinas, a daliodd ei galon o

hyd yn wresog at ei hen gyfeillion llengar, ac yn arbennig at ei iaith a'i wlad. Cafodd fwy o hamdden yn Ninbych, ond gwelodd lawer mwy o brofedigaethau yno.

Trwy ei lafur a'i hynawsedd enillodd barch mawr yn ei wlad fabwsiedig, yn gymaint felly fel y penderfynwyd ei anrhydeddu ar goedd gwlad. Penodwyd Mawrth 14, 1834, i fod yn ddydd neilltuo i arddangos parch y wlad iddo mewn cyfarfod cyhoeddus yn nhref Dinbych. Cynhaliwyd cyfarfod brwdfrydig o dan lywyddiaeth John Copner Williams, Ysw., Henadur hynaf y Fwrdeisdref, ac islywyddiaeth Mri. Thomas Hughes a Thomas Gee. Cyfarchwyd y cyfarfod gan enwogion o bell ac agos, ac adroddodd Bardd Nantglyn ei brofiad ar yr achlysur mewn rhes o englynion yn dechreu fel hyn,—

“Gwyl a pharch, ac wele'i pherchen,—yw
I'n glyw Athraw Owen [gwledd
Pughe siriawl, top a seren,
A mur cylch y Gymraeg wen.”

Ac yn diweddu gyda'r llinellau canlynol,


“Tra bo Llynbren, Aled, Alwen,
A dwr Lliwen dan dro lleuad,
Caiff ei goffa hyd bo gyrfa
Byw iaith Walia mewn bytholiad.”

Bwriadwyd gwneud rhywbeth sylweddol yn gofarwydd o barch ei gyd-genedl a'i dyled iddo. Addawyd symiau mawrion tuagat wneud rhywbeth arhosol, ond llesteiriwyd y gwaith hwnnw gan farwolaeth Dr. Pughe y flwyddyn ddilynol, a'r tebyg yw na chasglwyd mo'r addewidion byth.


(5). *Ei Farwolaeth.*

Yn niwedd ei oes dioddefai oddiwrth afiechyd blin, ac er mwyn hybu ychydig ar ei nerth ymwelodd ag ardal ei enedig-aeth ym Meirionnydd. Elai yno'n fynych yn y blynyddau hynny, a chai lawer o leshad bob amser. Y tro hwn hefyd yr oedd awelon iachus y fro yn dweyd yn dda arno, a theimlai'n gryfach ddydd ar ol dydd. Fodd bynnag, Mehefin 3, 1835, aeth i'w ystafell wely dros nos yn siriol-ach nag arfer, ond bore drannoeth caed ef yn yr ystafell heb ddadwisgo, a'i ysbryd wedi ehedeg ymaith yn dawel Mae'n debyg iddo gael ei daro ag ergyd o'r parllys cyn mynd i orfwys y noson honno. Digwyddodd hyn, nid yn Noll-yddcau fel y nodir yn gyffredin, ond mewn lle cyfagos o'r enw y Cottage, ym





Ty'n y Bryn, Llafihangel y Pennant.
Lle ganwyd D. Owen Pughe



mhlwyf Tal y Llyn, ym Meirion. Tarawiadol iawn oedd iddo ddechreu a diweddu ei oes ramantus bron yn yr un fan, a diau na buasai ef ei hun yn dymuno dim amgen, oblegid yr oedd yn caru ei Feirion hoff â chariad angerddol.

Tybiodd llawer iddo gael ei gladdu hefyd ym Meirion, a chymeryd hynny'n ganiataol bron o'r cychwyn. Yn Eisteddfod y Bala, 1836, gwobrwyd galar-gan iddo o waith Gwalchmai, a chyhoeddwyd hi yn *Y Gwladgarwr*. Ceir ynddi linellau fel hyn,—

“Gwir achos i dristhau, Meirionnydd lwys,
Ac achos hefyd i lawenydd mawr
Yn awr sydd gennyf o roi'th *Buw* mewn
bedd,
Anrhydedd oedd i ti gael rhoedi bod
I'r fath odidawg un; a'i auraidd iwch
Yn ol derbynaiast i dy tynwes gled.
Trigolion Môn a wir ymfrostiant byth
Am eni Gronwy yn eu hynys werdd;
Ond llif eu dagrau mewn galarus siom
Wrth gofio'i anwyf lwch sy'n gorwedd draw
Ymhell anialfro wellt y llewin barth :—
Ond llawenhau a all dy feibion di
Trwy oesau byd,—cant ddangos bedd eu Puw.

* * *

Ond ni chaiff Meirion gadw'i lwch am byth.”

Ond er mor ddymunol fyddai synio fod llwch y Doethor, un o feibion glewaf y tir, yn cael ei gadw ym mynwes Meirion hyd ganiad yr utgorn diweddaf, eto nid yw hynny'n ffaith. Dygwyd ei gorff trwy Ddolgellau, y Bala, ac ar hyd Ddyffryn Clwyd, ac yng nghanol galar gwlad claddwyd ei weddillion ym mynwent eglwys henafol Nantglyn, sef y dyffryn prydfarth a ymegyr o dref Dinbych tua Mynydd Hiraethog. Caiff Cader Idris wyllo mangre geni a marw Dr. Pughe, ond Hiraethog fydd yn gwyllo "man fechan ei fedd."

Ar garreg ei fedd ym mynwent Nantglyn naddwyd y geiriau a ganlyn,—

Yman y gorwedd Corph
Gwilym Ywain o Veirion
A aned Awst 7, 1759.
Bu varw Mehevin 4, 1835.

Yman y gorwedd Corph
Aneurin
Unig vab Gwilym Ywain
Ganed Gorphenhav 20, 1792.
Bu varw Gorphenhav 18, 1851.

I'r fynwent er ei fonedd—er ei ddysg,
 Er ei ddawn a'i rinwedd;
 Er ei fawl! yn ei oer fedd
 "Aneurin" fwyn a orwedd.

Nodedig o syml a phriodol yw y cerfiad, heb na "Dr.," na "Phuw," nac un atodiad arall agos ato, ac eto mor urddasol yw y cyfan, nes y canodd Gwenffrwd mewn myfyr syn wrth y bedd,—

"Deffroai'n cynfeirdd a'n gwrolion glew
 I'w fryd nes cynnal rhyw gynhadledd gél
 A'n hen Daliesin neu Lywelyn Fawr;
 Ond ni chynroant ei fyfyrddod mwy,
 Mae ef mor dawel ag ynt hwythau'n awr."

Yr ochr arall i'r Eglwys y mae bedd Bardd Nantglyn, a gladdwyd ymhen chwe' mis ar ol ei gyfaill mynwesol, y Dr. William Owen Pughe.

II.—EI WAITH.

A NODD rhoi cyfrif llawn o lafur Dr. Pughe, gan fod llawer o'i waith llenyddol yn cael ei gyflawni o'r golwg, heb gyfrif o hono ond yn y dylanwad a gai ar y bobl o'i gylch, ac ar lyfrau yr oes, a'r oesau dilynol. Heblaw hynny, ysgrifennodd lawer i lyfrau a chylchgronau heb eu harwyddo mewn modd yn y byd, a phan y rhoddai ei enw wrth lyfr neu ysgrif nid yr un enw a ddefnyddiai bob amser. Deuir ar draws ei enw mewn llenyddiaeth Gymreig a Seisnig mewn llawer dull a llawer modd. Nid oedd ganddo unrhyw reol ar hyn, a llechai yng nghysgod pob ffurf ar ei enw ei hun. Dyma rai o'r ffurfiau,—“W. O.,” “William Owen,” “Wiliam Owen (*Idrison*),” “Gwilym,” “Gwilym Meirion,” “Gwilym Owen,” neu “Owain,” neu “Ywain,” “William Owen, F.A.S.,” “William Owen-Pughe, F.S.A.,” “Gwilym Owen Pughe,” neu “Puw,” “Owen-Pughe,” “Owain-Pughe, D.C.L., F.A.S.,” “Dr. Owen-Pughe,” “Dr. Owain Pughe,” “Dr. Pughe,” neu “Pugh,” neu

“ Puw,” “ Idrison,” “ Meirionnwr,” “ Egryn,” “ Gwynezur,” “ Un o Veirion,” &c., &c. Nid hawdd cael gafael ar yr un dyn o dan gynifer o enwau, ac anfantais fawr iddo yntau oedd eu gwisgomor ddireol. Bydd toreth o'i waith yn rhwym o fod o'r golwg hyd nes y cyfyd uwchfeirniadaeth yng Nghymru yn ddigon craff i adnabod ei ddelw ar ei lèn. Ar un adeg gelwid ef yn gyffredin “ Y Doethor Puw,” ac ymhlith llenorion Cymreig hyd heddyw y mae yr enw “ Pughe ” yn foel yn ddigon i ddynodi'r gwr amlenw hwn.

Bydd rhestr o'i brif weithiau yn gymorth i gael syniad gweddol am ei lafur enfawr, a cheisir eu trefnu yma yn ol fel y cyhoeddwyd hwynt. Wrth gwrs, manteisir ar lyfryddwyr fel Gwilym Lleyn, Gweirydd ap Rhys, Silvan Evans, Charles Ashton, ac ereill.

(1). *Ei Lyfrau.*

1788.

HISTORY OF WALES, in nine Books: with an appendix. By th Rev. William Warrington. Second Edition.

Yn niwedd yr argraffiad hwn cydnab-
yddir fod yr awdwr dan rwymau neilltuol

i Dr. Pughe am ddiwygio llythraeth y geiriau a'r enwau Cymreig, a hefyd am Barthlen o Gymru, ac Achau Tywysog Cymru.

1789.

BARDDONIAETH DAFYDD AP GWILYM. *O grynhoad Owen Jones a William Owen. 8 plwg.* [Pris 6/6].

Detholiad o drysorau ein Prif-fardd yw y llyfr hwn, ac nid yw y casgliad gwerthfawr yn cynnwys dim ond rhan o waith Dafydd. Mae'n dra amheus ai efe yw awdwr pob rhan o hono, gan fod ynddo ambell rigwm lled amddifad o olion athrylith Dafydd ap Gwilym.

1789.

COLLECTION OF POEMS, *published by William Owen.*

Dr. Pughe oedd y casglydd a'r cyhoeddydd. Yn y llyfr rhoddir cymhorth i'r Sais fwynhau firwyth awen y Cymro, a bron yr oll o hono wedi ei gyfieithu'n fedrus gan W. O.

1791.

AWDLAU AR DESTYNAU Y GWYNEDDIGION. 1789,
1790, 1791. *Gan Dafydd Ddu o'r Eryri.*

Gofelid am ddygiad y rhai hyn drwy'r wasg gan Dr. Pughe, a rhoddid cryn ryddid iddo ar y gwaith. Cafodd ef ac Owain Myfyr gennad Dafydd Ddu i "newid, helaethu, cwtogi, a diwygio y peth a weloch yn angenrheidiol," a hwynt-hwy oedd i farnu pa nifer i'w hargraffu, ac, yn ol "hen addewid," i ddwyn y draul.

Yr un modd gyda'r *Traethawd ar Ryddid*, gan Gwallter Mechain, a gyhoeddwyd yr un flwyddyn.

1792.

THE HEROIC ELEGIES AND OTHER PIECES OF
LLYWARCH HEN, *Prince of the Cambrian*
Britons. With a Literal Translation, by
William Owen. Y Gwir yn erbyn y Byd.

Rhagflaenir y gwaith hwn â byr goffiad o'r Bardd-Dywysog, yn nghyda sylwadau helaeth a dysgedig ar Farddas Prydain. Y mae delw athrylith Dr. Pughe ar y Rhagarweiniad drwyddo; ond y mae'n anodd gwybod i sicrwydd faint o'i waith

sydd ar y cyfieithiad oblegid yr oedd cyfieithiad rhagorol o weithiau Llywarch Hen ym meddiant Owain Myfyr er's blynyddau. Fel hyn yr ysgrifenna yn 1777,—

“ Efu yma ym mis Mehefin diweddaf yn ei ffordd o Rydychain i Ben Morfa yn Arfon y Parcheig Mr. Thomas, o'r Gest yn y wlad honno, er nad yw ond ieuangc y mae ym meddu digymar wybodaeth o'r Cynfeirdd, ac eraill ysgrifeniadau Cymreig, ef a gyfieithodd waith yr ardderchog Dywysog Ll. Hen yn llwybraidd dros ben ynghyd a nodau cywrain arnaw.”

Y gwaith hwn a chwenychai y Prydydd Hir ei weled yn 1779, a thafai beth amheuaeth ar ei ragoriaeth. Honnai ei fod yn deall yr iaith gystal a'r un Cymro yr oes honno, ond fod yng ngwaith Llywarch Hen lawer o eiriau nad oedd ef yn eu deall, er iddo weled gymaint o henwaith ond odid ag a welodd ungwr arall.

Y cyfieithydd oedd y Parch Richard Thomas, M.A. (1758—1780), ciwrad Rhuthyn, brawd i'r Parch. John Thomas, M.A. (1736—1769), prifathro ysgol Biwmaris, a mab i Thomas a Jane Rowland, Tuhwnt i'r Bwlch, Eifionnydd. Yr oedd y ddau frawd yn ddau ysgolor Cymreig o'r radd flaenaf, ac o'u hysgrifau hwy y

cafwyd llawer o ddefnydd y *Myfyrian Archaiology*.

Mae'n ddigon tebyg mai cywiro a threfnu yr hyn a wnaeth Mr Thomas oedd gorchwyl mwyaf Dr. Pughe yn y cyfieithiad. O leiaf aeth un i fewn i lafur y llall, ac nid hawdd penderfynu ymhle y diwedda'r naill ac y dechreuau'r llall. Fodd bynnag, ystyrir y cyfieithiad yn gryn orchest, ac yn ddatguddiad da ar iaith a meddwl yr hen feirdd.

1793—1803.

GEIRIADUR CYNMRAEG A SAESONEG. *A Welsh and English Dictionary: compiled from the Laws, History, Poetry, Bardism, Proverbs, and other monuments of the Knowledge and Learning of the Ancient Britons; with numerous and select quotations to elucidate the meaning of words. To which is prefixed A WELSH GRAMMAR. By William Owen, F.S.A.* Y GWIR YN ERBYN Y BYD. —London: 1793.

Dyna wynebdden y rhifyn cyntaf yn 1793, a bwriedid dwyn allan y rhifynau'n flynyddol, ond methwyd cadw'n fanwl at y bwriad hwnnw. Dywed Gwilym Lley,—"Ni chyhoeddwyd y gwaith nes y gorffenwyd argraffu y ddwy gyfrol

yn 1803." Dywed Charles Ashton, —
 "Daeth cyfran o hono allan yn 1793,
 ac ail ran yn 1799 ni chy-
 hoeddwyd ef nes y gorphenwyd ei argraffu
 yn ddwy gyfrol yn y flwyddyn 1803."
 Mae'n debyg mai ar dystiolaeth o'r fath
 y dywed y Parch. D. E. Jenkins na wel-
 odd Charles o'r Bala ddim o'r *Geiriadur*
 hyd nes y cyhoeddwyd ef yn 1803. Ond
 oddiwrth y ffeithiau canlynol ymddengys
 mai camgymeriad yw synio fel yna. Ar
 amlen y rhifyn cyntaf o *Eirlyfr* Pughe
 ceir a ganlyn,—

*"June 27: 1793. This day is published, by
 subscription, dedicated by permission to His
 Royal Highness the Prince of Wales, Part i.
 of a Welsh and English Dictionary; &c., &c."*

Hysbysid hefyd y byddai yr holl
 waith mewn chwech o rannau, ac i'w cael
 am chwe' swllt y rhan.

Yn nechreu 1794 cwynai Dafydd Elis,
 person Cricieth, iddo orfod talu 7s. 6c. am
 y rhan gyntaf o'r Geirlyfr, a hawliai gael
 1s. 6c. yn ol wrth dalu am yr Ail Ran. §

Daeth allan bedwar rhifyn o leiaf cyn
 diwedd 1799. Un prawf o hynny yw fod

§ Llythyr at Dafydd Ddu.

Dafydd Ddu Eryri yn ysgrifennu yn nechreu Ionawr, 1800,—

“ Mi a gefais yn anrheg y pedwerydd Rifyn o EIRLYFR Gwilym Owain, a'r Ail ran o'r CAMBRIAN REGISTER neu'r (*Cofiadur Cymreig*), at ba un yr ysgrifenaswn rai pethau yn Saesneg. Yr wyf yn disgwyl am ychwaneg o'r gwaith uchod.”¶

Daeth yr ail ran o'r *Cambrian Register* allan yn gynnar yn 1799, ac y mae'n ddigon tebyg fod y bedwaredd ran o'r *Geirlyfr* allan yn gynt na hynny.

Yng Ngorffennaf, 1793, ysgrifennodd Dr. Pughe at Charles o'r Bala yn ei hysbysu, am ei fod yn awyddus i wybod, fod y rhan gyntaf o'r *Geiriadur* allan o'r wasg ac i'w gael am chwe' swllt.** Byddai yn anhygoel i Mr Charles beidio manteisio ar y llyfr fel y deuai o'r wasg, ac yntau ei hun yn paratoi *Geiriadur*. Ceir digonedd o brofion fod y rhannau cyntaf o'r *Geiriadur Ysgrythyrol* yn codi treth drom ar rannau cyntaf o *Eiriadur Pughe*.

Yn 1832 dygwyd allan ail-argraffiad o'r llyfr mawr hwn o dan olygiaeth Dr.

¶ Adgof uwch Angof, tud. 20.

** Charles of Bala. Vol. iii., page 28.

Pughe gydag ychydig o newidiadau, a llawer o ychwanegiadau.

Yn 1857 cyhoeddodd Mr Gee argraffiad arall o dan olygiaeth Gweirydd ap Rhys. Yn anffodus ceisiodd y golygydd ei wella trwy ei newid a'i gymysgu â benthyciadau o Eiriadur Silvan Evans nes ei wneud yn gymharol ddiwerth i'r prwpas oedd iddo ar y cychwyn.

1793.

AWDYL AE DYMORAU Y VLWYZYN, *Testyn Cymdeithas y Gwynezigion i Eistezvod y Bala, 1793. Gan Richard Powell.*

Y mae yr awdl wedi ei hysgrifennu drwyddi yn ol llythraeth Dr. Pughe, ac wedi ei dwyn allan dan ei olygiaeth. Ei ddelw ef sydd ar y nodiadau.

1795—1818.

THE CAMBRIAN REGISTER. *Vol. i.—1795. Vol. ii.—1799, for the year 1796. Vol. iii.—1818.*

Bwriadwyd dwyn y gwaith hwn allan yn flynyddol o dan olygiaeth Dr. Pughe, ond tair cyfrol yn unig a gyhoeddwyd.

Ystyrir y cyfrolau hyn yn ystorfa werthfawr o hen gofion Cymreig. Yr oedd ym mwriad Mr. Isaac Foulkes (*Llyfrbryf*) gyhoeddi ail-argraffiad o honynt, a gwyddai ef yn dda pa fwyd a dalai am ei ail-dwymo. Ysgrifenyd y rhan fwyaf o'r tair cyfrol gan Dr. Pughe, a chynorthwyid ef gan rai o flaenion yr oes honno fel hynafiaethwyr a llenorion. Dienw yw y rhan fwyaf o'r ysgrifau.

1800.

CYNGHORION PRIODOR O GAREDIGION I DDEILIAID EI DYDDYNOD. 8 *plyg.* 136 o *dudalenau.*

Cyfeithiad Dr. Pughe o "Cardiganshire Landlord's Advise to his Tenants," gan Johnes yr Hafod. Boneddwr a'i holl fryd ar gael "daear newydd" oedd Mr. Johnes (1749—1816), ac ymdrechai gael cydweithrediad ei ddeiliaid a'i gymydogion. Dyna oedd diben y llyfr, ac ar ei gais y cyfeithwyd ef i iaith y brodorion. Yn 1807 llosgwyd yr Hafod gan beri yn agos i £70,000 o golled i'r perchennog. Ond ni lwfrhaodd hynny galon Mr Johnes.

Dywed Gwilym Lleyrn fod y cyfieithiad hwn “ yn hollol ddfudd i'r rhai y bwrriadwyd ef er eu lles, am fod Dr. Pughe wedi ei gyfieithu yn ei ddull ysgolheigaidd ei hun.”††

Ond mewn nodyn ar ol y sylw uchod dywed Silvan Evans—“ Nid ydoedd felly mewn un modd, er y gallai'r cyfieithiad mewn llawer man fod yn rhwyddach, ac yn fwy dealladwy.”

Yn y llyfr hwn gwnaed i ffwrdd a'r sillgoll yn gyfangwbl, ac o golli peth mor bwysig i wneud Cymraeg llafar yn hylithr, barnai Gwilym Lleyrn ei fod yn andwyol i Gymraeg llyfr hefyd. Dyma fel y dywed Dr. Pughe mewn llythyr at Gwallter Mechain,—

“ In Mr. Johnes's little tract on Agriculture, I have not used one elision in the whole book : but this is carrying it to an extent that I do not expect you will follow ; but in the vast variety of instances the improvement would be obvious by the reading being more solemn. To understand what I mean I have put down a few instances :—

†† Llyfryddiaeth y Cymry, tud. 726.

' Yna'r aeth—yna yr aeth.
 ' Pa le mae'r hwn—pa le y mae yr hwn.
 ' Trwy'r prophwyd—trwy y prophwyd.
 ' Felly'r 'sgrifenyd—felly yr ysgrifenyd.' ”

Credai ef mewn cadw oddiwrth y sillgoll hyd y gellid,—“ a thing that in polished writing is deemed unpardonable, being fit only for the common intercourse of business.”

1800.

GAN Y BRENIN. CYHOEDDIAD.

Un wynebddalen fawr yw y cyhoeddiad hwn. Annog i gynildeb gyda phob math o fyd yw ei amcan, a chymell y rhai a moddion ganddynt i gael pethau ereill at ymborth heblaw fyd. Chwiliwyd am y Cymro mwyaf ysgolheigaidd i gyfeithu'r Cyhoeddiad dros y brenin, ac ar Dr. Pughe y syrthiodd y coelbren.

1801.

CYHOEDDIADAU CYMDEITHAS Y GWYNEDDIGION
YN LLUNDAIN AM Y FLWYDDYN 1800.

Ymddengys fod holl gyhoeddiadau y Gwyneddigion o dan olygiaeth Dr. Pughe yn bennaf yn ystod y blynyddoedd hyn.

1801—1807.

THE MYVYRIAN ARCHAIOLOGY OF WALES, *Collected out of Ancient Manuscripts.*

Cyhoeddwyd y gwaith mawr a phwysig hwn mewn tair o gyfrolau wythplyg. Cynwysa'r gyfrol gyntaf 614 o dudalennau, yr ail gyfrol 640; a'r drydedd gyfrol 635, yr oll yn gwneud cyfanswm o 1,889 o dudalennau. Golygwyd y gwaith gan Owen Jones (*Myfyr*), Edward Williams (*Iolo Morganwg*), a William Owen (*Idrison*). Ymddengys mai'r prif olygydd oedd Dr. Pughe. Cynorthwywyd yn y casglu gan aelodau ereill o'r Gwyneddigion, a chaed meddiant o gasgliad gwerthfawr yr hen Gymrodorion. Dyma un o'r llyfrau mwyaf a gwerthfawrocaf a fedd y Cymry fel Cymry. Y mae yn cynnwys ysgrifau pwysicaf y genedl o'r bumed ganrif hyd ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg, a chostiodd ei gyhoeddi'n unig dros fil o bunnau i'r gwladgar Owain Myfyr. Dyma y golofn ardderchocaf i goffadwriaeth a haelioni Y Myfyr, yn ogystal ag i ddyfalwch Iolo ac Idrison. Wrth adolygu'r *ArchaioLOGY* dywed yr *Athenaeum*—"It was a work that might have been done by a king, an institution, or a society

of the noble and learned." Y mae byth er pan gyhoeddwyd ef wedi bod yn destun myfyrdod ac edmygedd pob llenor Celtig drwy Ewrop, ac wedi bod yn agoriad llygad i estroniaid ar ogoniant ein hiaith, ein llen, a'n hanes. Yn 1870 ail-argraffwyd ef gan Mr. Gee, gan fod y gwaith erbyn hynny wedi myned mor brin fel y gwerthai cyfargraff o honno am ddeuddeg neu dair punt ar ddeg. Dywed Ashton fod yr ail-argraffiad yn cael ei anurddo gan amryw o wallau argraffyddol, a chwyna'r Llyfrbryf fod ol tincera mewn rhai manau.

1802.

DYHEWYD Y CRISTION, yn *Ddwy Ran.* 8 *pligg.*
336 *tudalen.*

Adnabyddid y llyfr hwn cyn hynny fel "Llyfr y Resolution," a gyhoeddwyd y tro cyntaf yn 1632; a thebygol mai dyma'r pumed argraffiad, er mai'r pedwerydd a ddywedir. Dygid y draul o'i gyhoeddi gan "Gymro, un o ddinasyddion Llundain." Y Cymro hwn oedd Owain Myfyr, a golygydd yr argraffiad newydd oedd Dr. Pughe. Onid ol ei fwyell ef sydd ar y teitl Cymraeg?

1802.

ACCOUNT OF ANCIENT WELSH MANUSCRIPTS. *By*
William Owen, Esq., F.A.S.

Darllenwyd yr "Account" o flaen y Gymdeithas Hynafiaethol, Ionawr 18, 1802. Ceir cynnwys y papur yn yr *Archæology*. Y mae yn llyfryn pedwar plyg, deg tudalen.

1803.

A GRAMMAR OF THE WELSH LANGUAGE: *By*
William Owen, F.A.S.

Llyfr wythplyg, 132 o dudalennau.
Pris 7s. 6c.

Ceid hwn yn gysylltiedig a'r *Geiriadur* yn ogystal ag ar wahan iddo. Gramadeg nodedig o gywrain, ac yn cynnwys llawer o dybiau disail yr awdwr. Trwy fod llawer o fater wedi ei wasgu i ychydig o le yr oedd yn anodd i ddynion cyffredin wneud na thy na thwlc o honno. Cwyn-ai llenorion fel Dafydd Ddu Eryri ei fod yn rhy dywyll ac ysgolheigaidd iddynt hwy, ac nad oedd yn cyfarfod angen mawr y wlad ar y pryd. I gyfarfod y gwyn dygodd Bardd Nantglyn ei Ramadeg

allan yn 1808, yn fath o esboniad ar gywreinerwydd tywyll Gramadeg Pughe—esboniad heb honni bod yn esboniad.

1803.

THE CAMBRIAN BIOGRAPHY: OR HISTORICAL NOTICES OF CELEBRATED MEN AMONG THE ANCIENT BRITONS. *By William Owen, F.A.S. Llyfr 12 plyg. 345 tud. (7/b).*

Dyma Reuben tylwyth y llyfrau ar "Enwogion Cymru." Fel y gellid meddwl y mae yn gasgliad gwych, ac erbyn hyn yn un o'r llyfrau prinaf. Pan y cofir ei fod yn cerdded tir mawr, dilwybr, mae'n syndod iddo agor cynifer o bydewau dwfr yn yr anialwch. Nid oes neb wedi bod yn ymdaith y ffordd hon ar ol hynny heb fod yn falch o gael tynnu dwfr o ffynhonnau'r Doethor.

1803.

AWDLAU COFFADWRIAETH AM Y PARCHEDIG GORONWY OWAIN.

Dwy awdl o eiddo Gutyn Peris a Dewi Wyn ar destun y Gwyneddigion yn 1803. Gofelid am yr argraffwaith dros y gymdeithas gan Dr. Pughe, a gofelid am v

draul gan Llwynrhudol, trysorydd y gymdeithas.

1805.

BEIBLAU Y FEIBL GYMDEITHAS.

Ebrill 3, 1805, penodwyd ef i ofalu am brawflenni y Beibl Cymraeg, a derbyniodd yntau'r apwyntiad Mehefin 17, 1805, a llafuriodd yn ddyfal gyda'r gwaith am gyfnod lled hir. Cyhoeddwyd yr hanes, ynghyda llawer o'i ohebiaethau ynglyn a'r mater, yn yr ail a'r drydedd gyfrol o gofiant Charles o'r Bala gan y Parch D. E. Jenkins.

1805—1807.

Y GREAL : SEV CYNULLIAD O ORCHESTION EIN HYNAVIAID, A LLOFFION O AMRYW VAN-GOVION Y CYNOESOEDD, &c., &c. *Tan olygiad Cymdeithasau y Gwyneddigion a'r Cymreigyddion yn Llundain.*

Chwarterolyn wythplyg. Cyhoeddwyd un rhifyn ar ddeg o hono rhwng Mehefin 21, 1805, a Mehefin 21, 1807. Penododd y Gwyneddigion Dr Pughe a'r Bardd Cloff i'w olygu drostynt hwy, a phennododd y Cymreigyddion Glanygors, a H. Parry, brodor o Glynog yn Arfon, i

wneud y gwaith drostynt hwythau. Cyn hir aeth yn ffrwgwd rhyngddynt o barth yr orgraff. Dyma fel yr edrydd Glanygors yr hanes,—

“ I have no doubt that you have received the *Greal* long before now. . . . The word *No* and *Nog*, and *Na* and *Nag* are of a different meaning. *No*, &c., is used for the adverb *than* in the English language; and *Na* and *Nac* for the negative adverb *not* or *nor*. You will see that rule observed in the *Greal*.

Mae hi gwedi myned yn rhyfel gwyllt yma o achos y *Greal*. . . . Gan fod cymaint cwynion yn dyfod o amryw barthau o Gymru yn erbyn y cyfnewidiad [yn y llythrennau] danfonodd y Cymreigyddion at Mr. O. Jones i ofyn a oedd ef yn foddlon i argraffu yr ail rifyn yn yr un orgraff a'r Beibl, gan fod llais y wlad yn gyffredin can gystal a llais y gymdeithas honno yn erbyn y cyfnewidiad. Yntau a ddywedodd os nad oedd y Gymdeithas yn chwennych mynd ymlaen efo'r *Greal mal ac y dechreuwyd* y cynhaliat ef y gwaith ymlaen ar *ei draul ei hun*. Felly yr ydym ni wedi rhoddi y swydd i fyny rhagllaw. Mae gormod o hen bethau yn y *Greal* i fod yn dderbyniol gan y cyffredin nac i oleu ond ychydig ar eu dealldwriaeth.” ††

Ond arall yw barn Charles Ashton am y *Greal*,—

†† Glanygors—Cyfres y Fil. tud. 90.

“Gresyn na chawsid ailargraffiad o'r gyfrol hon. Os ceir gofaled y cyhoeddwr am gyhoeddi yr hyn a geir ar y cloriau, sef rhestr o linellau cyntaf o weithiau amryw o brif-feirdd y Canol Oesoedd. I'r hynafiaethydd gellir ystyried *Greal* Llundain yn un o'r Cylchgronau mwyaf dyddorol a gyhoeddwyd yn ein hiaith.”|||

1806.

GEIRIADUR CYMRAEG A SAESONEG: *An Abridgement of the Welsh and English Dictionary.* By William Owen, F.S.A.

Talfyriad o'r Geiriadur mawr oedd hwn, yn gwneud cyfrol 12 plyg: 403 o dudalennau. Cyhoeddwyd y Talfyriad i gyfarfod y galw gan rai na allent gyrraedd pris yr argraffiad mwyaf.

1807.

RHETOREG NEU RHEITHEG, *a ddechreuwyd gan y Mr. William Salesbury, A Anghwanegwyd ac Orphenwyd gan Mr. Henri Perri, 1580. Eglwyrn Fraethineb, &c., &c.*

Llyfr wythplyg: 96 o dudalennau, wedi ei olygu gan Dr. Pughe fel Atodiad i'r *Greal*. Yr oedd yr argraffiad cyntaf o'r llyfr hynod yma wedi rhedeg yn brin iawn, a'i bris o gyrraedd y cyffredin.

||| Hanes Llenyddiaeth Gymreig, tud. 420.

1808.

CADWEDIGAETH YR IAITH GYMRAEG, yn 111 rhan,
mewn Dull Cryno, Hylith, a Hygof.

Llyfr wythplyg: 87 o dudalennau, wedi ei argraffu mewn llythyrennau newydd a dieithr o ddyfeisiad "Gwilym Owain." Tybiai'n gryf mai dyma orgraff yr Hynafiaid, a bwriadai ddwyn allan lawer o lyfrau ereill yn yr un orgraff. Ar wahan i'r orgraff ryfedd yr oedd cynnwys y llyfr yn dra gwerthfawr. Dyna barodd i Mr Charles o'r Bala, yn yr un flwyddyn, gael argraffiad arall o hono mewn orgraff fwy dealladwy, a bu yn werslyfr yr Ysgol Sul am rai blynyddau. Dyma'r llyfr oedd gan Lewis Williams, Llanfachraeth, yn yr ysgolion; ac o'r llyfr "Hylith a Hygof" hwn y cafodd Morris Davies, Bangor, agoriad llygad ar y Gymraeg a'i gogoniant.

1819.

COLL GWYNFA: set cyfieithiad mydryddol i'r
Gymraeg o waith Seisnig Milton a elwir
"Paradise Lost."

Ymgymerodd Dr. Pughe a'r gwaith hwn er mwyn "ysgafnhau gorthrymder

meddyliau blinion'' yn ei alar ar ol colli ei briod. Dechreuodd ar y gwaith mawr ddydd Sadwrn, Mai 30, 1816, a gorffennodd ef nos Fawrth, Rhagfyr 22, 1816, mewn llai na saith mis o amser. Ymhen blynnyddau ar ol hyn yn 1865, caed cyfieithiad arall o'r gân fawreddog hon gan I. D. Ffraid, ac er fod gwaith Dr. Pughe wrth ei benelin ac adolygiad manwl Dr. Edwards wrth ei law, eto bu I. D. Ffraid wrth y gwaith '' ddydd a nos am dros ddeunaw mis.'' Heb y manteision gwnaeth Pughe yr orchest mewn ychydig gydag un ran o dair o'r amser.

1821.

EINTOES DYN, *sef cyfieithiad o draethawd Dodsley.*

Nid oes enw cyfieithydd wrtho ond y mae'r orgraff a'r gystrawen yn ddigon o sail dros ddweyd mai y cyfieithydd oedd Dr. Pughe.

1822.

HU GADARN: *sef Cywydd o dri chaniad, gan Idrison.*

Llyfr 12plyg, ar destun wrth fodd calon Dr. Pughe. Un o'i resymau yn

1805 yn erbyn "Molawd Ynys Prydain" gan Dewi Wyn oedd absenoldeb Hu Gadarn o'r awdl. Ystyriai Hu Gadarn yn un o brif gedyrn Ynys Prydain, ac nad oedd yn bosibl moli'r ynys yn iawn heb foli'r arwr hwn yn bennaf. Mae'n debyg mai Idrison a ysgrifennodd yr erthygl ar Hu Gadarn yn y Cambrian Register. Mewn llythyr at Ieuan Ddu o Lantawe, dywed ei fod yn troi'n fardd yn ei hen ddyddiau nid er mwyn ymgystadlu a'r beirdd trwyddedol, ond er mwyn cael cyfle i gyhoeddi ei nodiadau ar ei arwr.

1822.

CYVIEITHON O SAESONEG: *sef Cân arobryn Heber: Y Bardd; Awdl arddunol Gray; ac Amrywion.*

Y gân oedd "Palestina" o waith yr Esgob Heber. Yn yr amrywion ceir amryw ganeuon o waith Mrs Hemans wedi eu Cymreigio yn ol celf Dr. Pughe.

(2). *Ei Ysgrifau.*

Yn ystod ei oes lafurus cyfrannodd yn helaeth i'r cyfnodolion, ac yn arbennig i lyfrau Seisnig fel y rhai canlynol,—

Rees's Encyclopedia.
 Hoare's History of Wiltshire.
 Britton's Beauties of England and Wales.
 Campbell's Books on Wales.
 Gunn's Tracts.
 Meyrick's Cardiganshire.
 Coxe's Publications.
 Chalmer's Caledonia
 The Cambro-Briton.
 The Cambrian Quarterly.
 The Gentleman's Monthly Magazine.
 Transactions of the Cymmrodorion.
 Cambrian Popular Antiquities.
 Dictionary of Living Authors (1816), &c.,
 &c.

Yn y *Transactions* ceir ysgrif faith o'i eiddo a ystyrir yn dra gorchestol. Ei theitl yw,—“*An outline of the characteristics of the Welsh, and its utility in connection with other ancient Languages for developing the primitive speech of mankind.*” Am y traethawd hwn dywed un gwr cyfrifol (Ieuan Glan Geirionydd) yn y *Gwladgarwr* am 1836,—

“Pa mor anghymarol bynnag yr ystyrir teilyngdod Y GEIRIADUR, braidd na eiddigeddwn yn fwy i fod yn awdur o'r 'Nodweddiadau' [sef y traethawd dan sylw] nag o'r GEIRIADUR ei hun, canys y mae'r blaenaf yn llwyr orchestwaith o ran dilynrydd ymadrodd, eglurdeb cyfansoddiad, a grymusder ymresymiad; ac yn amlwg brofi helaethrwydd gwybodaeth ieith-

yddol yr awdur, a'i ryfeddol ddiwydrwydd yn chwilio i wreiddioliaeth, ymdaeniad, a chyffelybrwydd amrywiol ieithoedd heblaw yr eiddo ef ei hun, megis, Hebraeg, Arabaeg, Persiaeg, Groeg, Lladin, Almanae, &c."

Y mae y fath dystiolaeth yn gref, ac yn ymddangos yn eithafol; ond ysgrifenydd hi gan wr oedd yn arfer mesur ei eiriau'n ofalus, ac un a gydnabyddid fel

"Y diwall hynod Feirniad a Llenydd."

Cadarnhawyd y dystiolaeth hon mewn cyfeiriadau a wnaed at yr ysgrif gan amryw o lenorion o fri ymhlith y Saeson a chenhedloedd ereill.

(3). *Ei Furiadau.*

Er cymaint o waith a wnaeth yr oedd yn bwriadu gwneud llawer mwy. Trefnodd i ddwyn allan *Eirlyfr Saesneg a Chymraeg*, tebyg i'r Talfyriad o'r Geiriadur Mawr Cymraeg a Saesneg. Ar ddiwedd argraffiad 1806 o'r Geiriadur ceir yr hysbysiad canlynol,—

"London, 1st December, 1805. *Speedily will be published, the counter part of this work, or an English and Welsh Dictionary; the same price and size as this work. By William Owen, F.S.A.*"

Nid oes wybod faint o'r gwaith hwn a baratowyd, ond ni chyhoeddwyd mo hono. Yn 1850 cyhoeddwyd Geirlyfr Caerfallwch ar yr un llinellau, a bwriad ac addewid Pughe. Hefyd, llafuriodd yn ddyfal gyda'r *Mabinogion*. Gwnaeth gyfieithiad llythyrennol o honynt i'r Saesneg, a chyhoeddwyd rhannau yn y *Cambrian Register*. Bwriadodd gael argraffiad cyflawn mewn orgraff henafol o'r *Mabinogion*, yn cyfateb i'w syniad ef am "Arddygraff o berffaith gyfundrefn Gymreig." I'r diben hwn darparwyd llythrennau priodol, ac aed i draul fawr. Rhoddwyd prawf ar rai o'r llythrennau newyddion yn y llyfr "Cadwedigaeth yr Iaith Gymraeg" (1808): ond gan na chafodd y llyfr hwnnw mo'r derbyniad a ddisgwyliid yn ei wisg newydd a dieithr gohiriwyd yr anturiaeth o gyhoeddi'r *Mabinogion*.

Heblaw hynny, bwriadodd gyhoeddi amryw gyfrolau ychwanegol o'r *Archaeology*—"Hynafiant y Cymry," chwedl yntau, a threfnodd y defnyddiau i'r wasg. Ond yn 1814 bu farw Owain Myfyr, a lles-teiriwyd y gwaith. Y mae y llawysgrifau a gostiodd i'r Myfyr dros dair mil o bun-

nau, a llafur dirfawr i Pughe, yn gorwedd yn bentwr yn yr Amgueddfa Brydeinig

(4). *Y Geiriadur.*

Ei gampwaith, mae'n ddiâu, yw y Geiriadur. Dan yr amgylchiadau y mae hwn yn un o'r gorchestion mwyaf yn hanes llenyddiaeth unrhyw genedl. Dywed Gwallter Mechain am dano,—

"His Dictionary will be a lasting monument of his penetration, ingenuity, and perseverance. Like Dr. Johnson, he waded through a task ten times more difficult, and, like him, Alone." §§

Cymerodd y gwaith hwn y rhan fwyaf a'r rhan oreu o'i oes i'w gyflawni. Dechreuodd ar y gwaith o gasglu defnyddiau ato yn y flwyddyn 1785, pan yn 26 mlwydd oed, a gorffennodd ei gasglu yn y flwyddyn 1803, pan yn 44 mlwydd oed, wedi mwy na deunaw mlynedd o ddyfalwch di-ildio. Hawdd credu mai'n llawen iawn yr ysgrifennodd ar ddiwedd yr ail gyfrol,—

"*Read the last proof, June, 21, 1803. Alban Hevin.*"

§§ Charles of Bala, Vol. ii., p. 606.

Daliodd i gasglu ar ol hynny hefyd, a phan y galwyd am ail argraffiad yn 1832 yr oedd ganddo rai miloedd o eiriau i'w hychwanegu ato. Mewn gwirionedd gellir dweyd i'r Geiriadur fod yn faes iddo am 47 o flynyddoedd, sef o 1785 hyd 1832.

Pan yn cychwyn cyhoeddi'r llyfr addawai y byddai'n cynnwys tuag ugain mil o eiriau yn ychwaneg nag un geirlyfr o'r fath a gyhoeddwyd yn flaenorol. Ond fel yr elai ymlaen chwyddai y gwaith dan ei ddwyllaw, fel erbyn ei orffen yr oedd yn cynnwys yn agos i gan' mil o eiriau, bron gymaint arall a'r Geiriaduron Seisnig cyffredin. Wrth ei roddi ochr yn ochr a'r geiriaduron mwyaf saif fel hyn,—

Geiriadur Dr. Pughe=100,000 o eiriau.

Geiriadur Dr. Webster o'r America=70,000 o eiriau.

Geiriadur Dr. Johnson (Todd)=58,000 o eiriau.

Heblaw geiriau y mae ynddo dros 12,000 o ddyfyniadau wedi eu dethol yn ofalus o lôn y Cymry dros wyneb y canrifoedd, a'r rhai hynny wedi eu cyfieithu'n fedrus er dangos ystyr y Gymraeg mewn gwahanol forteisiau. Cydnabyddir fod Geirlyfrau Johnson a Web-

ster yn gamp-weithiau yr oes honno, ond dylid cofio fod y tir wedi ei fraenaru idd-ynt hwy gan eirlyfrwyr ereill o nod, a bod digonedd o ddefnyddiau ganddynt wrth law mewn llyfrau tebyg. Ond am Pughe yr oedd yn rhaid iddo glirio tir cymharol newydd a dieithr, a llawer iawn o hono'n hollol ddisathr o'r blaen. Dyma restr gyflawn, yn ol Ashton, o'r geirlyfrau oedd eisoes ym meddiant y Cymry,—

“Cymraeg a Saesneg—William Salesbury, 1547.

Cymraeg a Saesneg—Thomas Jones, 1688, 1760, 1777.

Cymraeg a Saesneg—Thomas Richards, 1753, 1759.

Saesneg a Chymraeg—Sion Rhydderch, 1725, 1731, 1737.

Saesneg a Chymraeg—William Evans, 1771.

Saesneg a Chymraeg—John Walters, 1794.

Saesneg a Chymraeg—William Richards, 1798.

Saesneg a Chymraeg—Thomas Jones, 1800.

Lladin-Cymraeg : Cymraeg-Lladin — John Davies, 1632.”


Ystyrir Geiriadur Richards, 1753, 1759, yn un o'r rhai goreu a helaethaf yn yr iaith, ond ni chynwysai dros 15,000 o eiriau. Yr oedd rhifyn cyntaf Geiriadur Pughe yn fwy o faint na holl eiriadur


Richards gyda'i gilydd, er na chyrhaeddai y rhifyn hwnnw ond i'r bedwaredd tudalen yn C. Ychydig mewn cymhariaeth o gynorthwy a roddai'r geiriaduron iddo. Aeth i chwilota hen lawysgrifau llychlyd, anawdd eu cael ac anhawddach eu darllen; ac wedi chwilio am oriau hwyrach mai'r orchest fwyaf fyddai cael hyd i *un* gair yn unig. Dyna dreth drom pob geiriadurwr o dan amgylchiadau cyffredin, a rhaid fod y dreth yn llawer trymach o dan amgylchiadau anghyffredin fel yn achos Pughe. Ond trwy ddyfalwch llwyddodd tuhwnt i bob disgwyliad i ddatguddio trysorau ieithyddol y Gymraeg. Nodedig o hapus yw englynion bore oes Ceiriog,—

“Pan ydoedd niwloedd y nos—ar iaith hen
Frythoniaid yn aros;
'Cyfod, Puw,' ebai Duw, 'dos
I ddwyn eu hiaith o ddunos.’

“Ac yna goleuni cannaid—a roed
Ar iaith ein hynafiaid;
A'u llên oedd fel gem mewn llaid,
Hwn a'i dygai'n fendigaid.”

Yn y *Gwyddoniadur* tystir fod y Geiriadur “yn un o'r gorchestion mwyaf dihafal a gyflawnwyd gan unrhyw awdwr,





Eglwys Llanfihangel y Pennant.



mewn unrhyw iaith." Ni raid rhyfeddu i Fardd Nantglyn ddweyd,—

" Os bywlaw'n Nichols Baili—Eiriadur,
A Sheridan oeil-fri,
Johnson ben,—mae'n Owen ni
Ar y gwyr yn rhagori."

Wrth ddethol geiriau i'r Geiriadur nid oedd am i'r un gair estronol fod yn un o'r etholedigion. Felly ni cheir yn y ddau argraffiad cyntaf lawer o eiriau digon cyffredin fel *abl, esiAMPL, ffafr, gras, hymn, moment, talent, sobr, &c.* Cychwynai'r detholiad gyda'r gwreidd-eiriau, ac os nad oedd y gair yn tyfu'n naturiol o'r gwraidd, nid oedd le iddo yn y casgliad. Ni roddodd ystyriaeth i berthynas ieithoedd, nac i ddylanwad y naill iaith ar y llall, ond seiliodd ei drefniant yn gyfangwbl ar y gwreidd-eiriau, a chan mai dychmygol oedd y gwreiddiau eu hunain i raddau mawr, yr oedd ei drefniant ieithyddol fel ty wedi ei adeiladu ar y tywod. Mae'n deg dweyd nad oedd ieitheg gymhariaethol (*comparative philology*) wedi cael fawr o sylw y dyddiau hynny. I oes ddiweddarach y perthyn gwaith ysgolheigion fel Prichard (1785—1848), Grimm (1785—1863), a Bopp

(1791—1867) a barodd gymaint o chwyldroad yn hanes ieitheg.

Am Dr. Pughe dywed Ashton,—“ Ni chafodd Cymru er dyddiau Dr. Davies o Fallwyd, ieithyddwr mwy cyfarwydd. Yr oedd y naill fel y llall yn sylfaenwr ei gyfundrefn ei hun, ac ni chododd neb teilwng i gystadlu a hwynt fel geiriadurwyr hyd amser y Canon Silvan Evans. Perthynna'r tri i gyfnodau gwahanol, ac y mae i bob un o honynt wahanol gyfundrefn orgraffyddol.” Credai Pughe fod yn perthyn i'r Gymraeg “y duedd o ymfurfio yn iaith wahanredol ar egwyddorion cyson a rheolaidd,” ac ymdrechodd i ddod o hyd i'r egwyddorion cyson hynny yn y Geiriadur yn ogystal ag mewn llyfrau ereill o'i eiddo. Dyna'r pam y deuir o hyd i ambell air estronol fel “eglwys” yn ei Eiriadur. Ceisiodd ddangos y rheswm iddynt gymeryd y ffurfiau arbenig sydd iddynt yn y Gymraeg. Iddo ef yr oedd dwyn gair i ffurf wahanol yn gyson ag egwyddorion iaith, yn gymaint peth a chreu gair o ddim. Anwybyddodd y mabwysiadu, a phwysleisiodd y creu.

Yn yr argraffiad cyntaf o'r Geiriadur, ymwrthododd a rhai o'r llythrennau dwbl

gan arfer rhai ereill yn eu lle, sef, ç yn lle ch, z yn lle dd, v yn lle f, ac f yn lle ff. Nid peth newydd oedd ceisio gwella'r egwyddor fel hyn. Gwnaed peth tebyg gan wyr fel W. Salesbury, Ed. Llwyd, Dr. G. Roberts, Roger Smith, Dr. J. D. Rhys, Dr. D. Powell, ac ereill yn eu tro. Yr oedd cais Edward Llwyd yn 1707 yn llawer mwy chwyldroadol.

Yn wyneb hyn nid oedd cais Pughe ond bychan a rhesymol, a gresyn mawr na fabwysiadwyd ei gynllun syml. Credai ef y dylid gwneud llawer yn ychwaneg er mwyn symleiddio'r iaith a'i chael yn fwy tebyg i'w ffurf gyntefig. Yng Nghoelbren y Beirdd nid oes llythrennau dwbl yn anffurfio'r wyddor o gwbl; ac nid oedd y prif lenorion o flaen Pughe yn gallu dygymod a hwynt. Ond pan y gwnaeth ef gais i'w gwella codwyd gwaedd uwch adwaedd yn ei erbyn, a bu raid iddo yn yr ailargraffiad o'r Geiriadur (1832) ddychwelyd at yr hen ffurfiau dwbl, anolygus. Dyry ei reswm dros hynny yn ei ragymadrodd,—

“The Publisher has the sole interest there in; therefore, that he may suit the taste of the public in general, he is permitted to revert to

the vulgar orthography of our language, as the most likely means, according to his opinion, of avoiding loss by the undertaking."

Bu raid i rai o'i ddisgyblion ffyddlon-af wneud yr un peth am yr un rheswm. Dyma ddywed Caerfallwch yn ei ragymadrodd i'r *Analysis*,—

"My intention was to adopt Dr. Pughe's orthography, which I consider an improvement, but finding the current opinion against me, it was reluctantly relinquished."

Aeth arfer gwlad yn drech na'r Doeth-or yn hyn o beth, a rhoddodd yntau ffordd i'r teimlad, serch ei fod ef ac ereill yn barnu fod y teimlad yn codi oddiar ragfarn amryfus. Y mae y fath beth yn bod a rhagfarn yn codi o hir ymarfer a pheth. Felly yn yr achos hwn. Yr oedd y werin wedi cynefino cymaint a'r ffurfiau arferol nes tybio nas gellid newid heb niwed.

Gwnaed yr un peth gan Dr. John Davies yn ei Ramadeg, sef ymwrthod a'r trefniant diwygiedig yn ei ddyddiau ef am y rhesymau canlynol,—

"Nid yw yr holl lythrennau, y rhoddaswn gynllun o honynt, wrth fodd pawb, ac y mae

rhai wedi cymeryd trafferth i gyfansoddi llythrennau newydd. Ond gorchwyl ofer ydoedd y cwbl; canys y cyfryw ydyw natur dynolryw fel yr hoffa ddilyn y dull cyfredin o ysgrifennu a darllen yn hytrach na chael ei thynnu'n feunyddiol i ddilyn dyfais newydd hwn ac arall."

Gwyddai Dr. Davies fod arfer gwlad yn ystyfnig, ac am hynny glynodd wrth yr hen lythrennau; yn bennaf am mai dyna geid yn y Beibl Cymraeg. Ond beiddiodd Dr Pughe fynd yn erbyn yr arfer, er iddo yn anewyllysgar orfod ymstwg iddi yn y diwedd.

Heblaw ceisio diarddel rhai o'r cydseiniaid dwbl, ceisiodd hefyd ymwrthod a dyblu cydseiniaid ond pan y byddai gwraidd y gair yn gofyn am hynny. Yn anffodus yr oedd ei eirdarddiaeth yn amheus, ac mewn llawer o engreiffitiau yn gyfeiliornus, fel mai anodd iawn oedd cadw rheol fel hyn yn ddianaf. Fodd bynag, yr oedd ei ymdrech am unoliaeth yr orgraff yn glodwiw, ac yn ddechreuad cyfnod pwysig yng nghamre'r Gymraeg.

Dywed Dr. John Davies o Fallwyd, am Eiriadur Salesbury, iddo ychwanegu chwant dynion yn hytrach na'i ddigoni. Nid dyn bach, na llyfr dinod, allai wneud hynny; ac nid peth dibwys yw codi awydd

angerddol mewn dyn am ychwaneg. Gellir dweyd i ymdrech Dr. Pughe gyda'r orgraff wneud peth felly yng Nghymru. Bu'n foddion i greu aflonyddwch mawr ym meddwl y wlad am ddiwygio'r orgraff, a'i chael yn fwy syml ac unfurf. Y mae hanes yr ymdrechion i wneud hynny, ar ol marwolaeth Dr Pughe, yn deilwng o sylw, ac yn gryn lawer o glod i'r Doethor am aflonyddu mynwent yr iaith nes peri fod bywyd newydd yn ystwyrian byth ar wyneb y dyffryn.

Yn 1840 penodwyd pwyllgor gan Gymdeithas Gymreigyddol y Fenni i sefydlu llythreniaeth y Gymraeg. Gwneid y pwyllgor i fyny o'r rhai canlynol,—Tegid, Caledfryn, Caerfallwch, Aneurin Owen, a Samuel Evans. Ni chyfarfu y pwyllgor hwn byth, ond bu'r penodiad yn symbyliad effeithiol i beri i Tegid gyhoeddi ei syniadau teg ar y mater, i Gaerfallwch gyhoeddi ei *Analysis*, i Galedfryn gyhoeddi ei Ramadeg, ac i Samuel Evans gyhoeddi ei Omerydd.

Yn Eisteddfod Madog, yn y flwyddyn 1851, yr oedd pwnc yr orgraff yn un llosgol. Gohiriwyd penderfynu dim arno hyd Eisteddfod Dolgellau yn 1852. Gohiriwyd yr Eisteddfod honno hyd 1853, a bu

raid ei rhoddi i fyny o ddiffyg cefnogaeth. Gwnaed ymdrechion ar ol hynny eilwaith ac eilwaith gan bwyllgorau a phersonau unigol, ond methiant teg fu pob cais. Yn Eisteddfod Bangor, yn 1891, cyfarfu llu o athrawon at y gorchwyl, yn cynnwys Rhys, Williams, Powell, Lloyd, Rowlands, Roberts, Jones, Edwards, Owen, Evans, ac ereill. Yn 1893, fel ffrwyth myfyr y pwyllgor hwn, dygwyd allan y *Welsh Orthography*, o dan olygiaeth ysgrifennydd y pwyllgor, yr Athro J. Morris Jones. Yn 1905 ail-argraffwyd y llyfr gydag ychydig o wallau. Dyma'r cais mwyaf effeithiol i sefydlu'r orgraff er dyddiau Pughe, a rhoddodd lawer o dawlwch meddwl i lenorion Cymreig. Cymhellwyd amryw welliantau a'u tuedd oll i symleiddio'r orgraff, a'i chael yn fwy unfurf a phendant. Gwnaed gwahaniaeth clir rhwng *ff* ac *ph*, gan gymell i beidio dyblu'r un gydsain heblaw *n* ac *r*, ac i beidio eu dyblu hwythau ond ar ol acen fer geuad yn unig; ynghyda llawer o welliannau diamheuol ereill. Un gwendid yn y trefniant hwn oedd anwybyddu y gwahaniaeth amlwg rhwng De a Gogledd Cymru yn acennu. Ceir acen ferr y Gogledd yn acen hir yn y De mewn

llawer iawn o eiriau tra chyffredin, ac nid bob amser y gellir penderfynu pa un o'r ddwy acen yw'r oreu. Heblaw hynny rhoddodd y trefniant gyfle i ambell lenor, o ddig neu o rodres, bentyrru'r *n* a'r *r* yn niwedd geiriau unsill, ac ymhob man arall os ceid dim ond y dim lleiaf o esgus, nes gwneud i'r iaith ymddangos fel petai am fyw neu farw ar bwys dwy lythyren fach. Naturiol oedd i ddsbarth arall o lenorion fynd yn rhagfarnllyd, a chashaw chwiw y dyblu â chas cyflawn, gan ofni nad oedd unffurfiaeth yn bosibl heb wneud i ffwrdd a dyblu pob cydsain ond y cydseiniaid oedd yn ddyblyg eisoes. Ynghanol aflonyddwch fel yna y cyhoeddwyd Gramadeg Uwchraddol yr Athro J. Morris Jones, gan beri'r wawr ymwasgaru eto ar y mynyddoedd. Fel y gellid meddwl y mae gwahaniaeth mawr iawn rhwng Gramadeg 1803 a Gramadeg 1913. Ond, a chymeryd yr holl amgylchiadau i ystyriaeth, nid hawdd dweyd pa un o'r ddau yw y greadigaeth fwyaf. Un peth a ymddengys yn lled glir, ni buasai llafur a llwyddiant yr Athro yn nechreu y ganrif hon yn beth tebygol oni bai am lafur a llwyddiant y Doethor yn nechreu y ganrif o'r blaen. Mewn rhyw fodd anunion-

gyrchol yr oedd un yn rhagredegydd y llall. Bellach y mae breuddwyd Dr. Pughe bron a chael ei sylweddoli, nid yn hollol yn y modd a ddisgwyliai, ond yn sicr yn yr amcan mawr a ddymunai. Yn un o'i lythyrau at Gwallter Mechain dywed nad oedd ef yn honni bod yn awdurdod ar y Gymraeg, ond y codai rhywun cyn hir i ddatrys llawer o'r clymau oedd yn ddryswch iddynt hwy y pryd hwnnw. Heddyw gallai yr hen wron ddweyd yng ngeiriau Byron,—

“ A change came o'er the spirit of my dream.
 Within an antique oratory stood
 The one of whom I spake;—he was alone,
 And pale, and pacing to and fro : anon
 He sate him down, and seized a pen, and
 traced
 Words which I could not guess of.”

Os bydd dylanwad yr Athro ar y ganrif bresennol yn gyfartal i ddylanwad y Doethor ar y ganrif ddiweddaf bydd yr orgraff wedi ei sefydlu'n ddiymdroi, a'r Gymraeg yn lanach ac yn loewach nag y bu erioed. Y mae pobpeth yn ffafriol i hynny; a bu gan Pughe ran fawr ym mharotol'r tir i dderbyn yr had a hauir gan ysgolheigion yn ein dyddiau ni.

(5). *Ei Gyfieithiadau.*

Heblaw fod cyfieithiadau Dr Pughe yn profi ei allu a'i fedr i drosi meddwl o un iaith i iaith arall, y mae ei ddyfyniadau yn y *Geiriadur* yn profi hefyd eangder ei wybodaeth yn hen lenyddiaeth y Cymry. Tybiwyd unwaith fod Charles o'r Bala yn nodedig o gyfarwydd yng ngweithiau yr hen awduron Cymreig am ei fod yn gallu dyfynnu'n rhigl. Ond erbyn hyn y mae'n ddigon gwybyddus nad oedd Charles yn ei Eiriadur Ysgrythyrol yn gwneyd dim ond benthycu o Eiriadur Pughe cyn belled ag yr oedd toreth y dyfyniadau'n mynd. Cyrhaeddodd amryw ereill ar ol Charles safle uchel yn y peth hwn, pan nad oeddynt mewn gwirionedd ond yn ceisio sefyll ar ysgwyddau Pughe. Bu ef yn pori'n ddistaw, ac yn ymbesgi'n dawel, ar ddolydd llenyddol sydd heb eu darganfod eto gan lawer ysgolor Cymreig. Y mae ei filoedd dyfyniadau yn brawf o hynny. Yn y detholiad daw ei chwaeth uchel i'r golwg, yn ogystal a'i allu i weled rhwng cysylltiadau llurig brawddeg gymhleth. Gwelai hen air oedd wedi bod yn ymguddio am ganrifoedd yn ei fortais gelfydd, a dygai ef

i'r golwg gan wisgo'r synwyr mewn iaith arall heb ddarnio'r fortais. Gorchest go fawr oedd cadw neilltuolion iaith wrth gyfieithu pethau mân i'r diben o egluro gair, a rhaid oedd gwneud hynny neu byddai'r dyfyniadau'n ddiwerth. Bwr-iodd Gweirydd ap Rhys y tlysau hyn allan wrth y cannoedd yn y trydydd argraffiad o'r Geiriadur, nes gwneud y llyfr yn gymharol ddiwerth fel llawlyfr i hen lenyddiaeth y Cymry.

Dyma engraifftiau o'i ffordd o gyfieithu,—

Ef a ddaw i ddwyn yr einwch,
Ef a i dwg, ac nyw diolwch.

—LL. P. MOCH.

He will come to take your possession, he will take it, and he will not return thanks.

Cryd ar hen angyu ys dir.—GWIREB.

A fever on the aged is certain death.

A fo da gan Dduw ys dir.—GWIREB.

What seemeth good to God is certain.

Nid gwahawdd glwth i fwth fydd.

—D. AP GWLYM.

It will not be the invitation of a glutton to his cabin.

Clwm eiddil moch ellwng.—GWIREB.

A weak knot will soon loosen.

N1 thrawai gnith ar ewin
Na bai lais gwell na blas gwin.

—T. ALED i Delynor.

He would not strike a touch with his nail but a sound was produced sweeter than the taste of wine.

Cenyn cenid aer;
Aer feirchiawg,
Aer edenawg.—ANEURIN.

With us was there not a battle, a harnessed battle, a battle of the bier.

Lle bo'r gamfa ferra fach
Llymsi fyddaf yn llamsach.

—I. BRYDYDD HIR.

Where there is the lowest and smallest stile, I shall be clumsy in hobbling over.

Fel y gellid meddwl ceir ambell lithriad yma ac acw, ac ambell waith priodolir i'r hen feirdd, a'r hen hanesion, rai o

ddywediadau'r Beibl. Y syndod yw fod gwaith mor fawr yn waith mor lân oddiwrth frychau amlwg.

Gwahanol yw "Coll Gwynfa" fel cyfieithiad. Un peth oedd cyfieithu er mwyn egluro gair neu eiriau, ond peth arall oedd cyfieithu er mwyn trosglwyddo'r meddwl yn ddianaf o un iaith i iaith arall. Gwyr pawb mai gorchest fawr oedd troi campwaith Milton i'r Gymraeg, a pheri i'r hen iaith gerdded yn ddi-asgloff o dan y fath faich. Cydnabyddir Milton yn un o brif feirdd y byd, os nad, ar rai cyfrifon, y pennaf o honynt i gyd; a'r syniad mwyaf cyffredin yw mai'r *Paradise Lost* yw prif gamp y bardd. Ceir syniad da am y cyfieithiad yn y teitl—"Coll Gwynfa." Amhosibl i ddwy iaith mor wahanol i'w gilydd roddi gwell dau air i gyfleu yr un syniad mor deg; a diau nas gallai neb wella ar Pughe yn hyn o beth. Mewn rhyw fodd meddianwyd ef ag ysbrydiaeth y bardd i raddau mawr iawn, a throsglwyddodd ei feddyliau beiddgar, yn ogystal a'i gyffyrddiadau tyner, i'r Gymraeg heb golli yn y symudiad ond y nesaf peth i ddim o'u mawredd a'u bywyd.

Cyn dechreu cyfieithu yr oedd wedi mynd trwy dreialon lawer, nes ymgylfaddasu o ran ysbryd at waith o'r fath. Yr oedd wedi colli ei gyfaill anwylaf ym marwolaeth Owain Myfyr: yr oedd wedi colli un o'i obeithion mwyaf ym marwolaeth Susannah Southcote; ac yr oedd wedi colli anwyl yd ei galon ym marwolaeth ei briod hoff. Yr oedd ei ffydd, ei obaith, a'i gariad wedi eu hysgytio i'r gwraidd, ac yntau mewn cywair i fynd i gyfrinach cân fel "Coll Gwynfa." Dywed ef ei hun mai "dan orthrymder meddyliau blinion" yr ymgymherodd a'r gwaith, a themlir wrth ddarllen y cyfieithiad fod rhyw gymdeithasiad meddwl ac ysbryd rhwng y cyfieithydd a'r awdwr.

Pan y cofir, ys dywed Dr. Lewis Edwards, "na chanwyd erioed ar destun mwy teilwng; ac na chenir eto, tu yma i dragwyddoldeb, yn fwy teilwng o'r testun," anturiaeth fawr oedd ceisio Cymreigio'r fath arwrgerdd ddihafal. Am waith y cyfieithydd dywed Dr. Lewis Edwards,—

"Pa glod bynnag sydd yn deilwng i *gyfieithydd* medrus, yr ydym yn ewyllyegar yn ei roddi i Dr. Pughe. Nid peth hawdd oedd Cymreigio y fath lyfr a 'Choll Gwynfa,' ac

nid canmoliaeth gyfredin yw dywedyd ei fod wedi cyflawni y gorchwyl, gan mwyaf, heb wneuthur cam a meddyliau mawrion Milton . . . ar y cyfan nis gwyddom am un cyfieithiad mwy gorchestol na 'Coll Gwynfa' gan Dr. Pughe. Gellid meddwl mai yn lled debyg i hyn, er nad yn hollol yr un fath, y buasai y gwaith yn dod o law Milton ei hun pe buasai yn ei ysgrifennu yn yr iaith Gymraeg. Nid yw bywyd a grym y gwaith gwreiddiol wedi eu colli wrth ei drawsblannu."*

Pan y cofir mai Dr. Lewis Edwards, yr ysgolor a'r beirniad gwych, sy'n ysgrifennu fel yna, nid oes angen canmoliaeth well gan awdurdod uwch i unrhyw gyfieithiad. Ar yr un pryd rhaid cydnabod nad yw'r adolygydd galluog yn canmol fawr ar ei Gymraeg. Yn ol ei farn ef "y mae ei gystrawen yn anghymreigaidd." "Ond," ebai, "dylem ychwanegu nad yw y gwahaniaeth gymaint mewn gwirionedd ag yr ymddengys ar yr olwg gyntaf. Na lwfrhaed y Cymro anghyfarwydd; ac fe ddaw cyn hir yn alluog i'w ddarllen gyda rhwyddineb a hyfrydwch." Ar ol geiriau fel hyn hawdd dweyd "Amen." Ymddengys Cymraeg Dr. Pughe yn ddieithr a chlogyrnog ond gyd-

* Y Traethodau Llenyddol, tud. 50—71.

ag ychydig o ymarfer daw yn raenus, ac yn nodedig o gryf ac urddasol. Aeth llawer wrth ei "ddarllen gyda rhwyddineb a hyfrydwch" i dybio, ac hyd yn oed i daeru, fod y cyfieithiad yn well na'r gwreiddiol!

Ymddengys y gwaith yn glogyrnog, yn un peth, am na ddefnyddir yr un sillgoll o'r dechreu i'r diwedd. Dyma ddywedir yn y Rhagfynegiad,—

"Tybiwn mai iaith groew, lawn, a chywair, yw un o anhebgorion barddoni, gan hŷny ymwadais â phob tōriad geiriau, trwy gollu llythyrēnau, yn llwyr trwy yr holl waith; a hōnaf nad galluadwy yw hyn mewn un iaith arall ond y Gymraeg; a chan fod iddi ragori felly, syniais mai iawn oedd imi ei amlygu."

Heblaw hynny, yr oedd y mesur diodl yn nyddiau Pughe yn newydd-beth ym marddoniaeth y Cymry, a bron nad yw, fel Gwilym Hiraethog ar ei ol, yn ofni cael ei gablu fel ail Wrtheyrn am feiddio dwyn y Rhonwen hon—y gerdd ddiawdl—i fysg pendefigion y mesurau Cymreig. Fel hyn yr ymddiheura,—

"Nid llai newydd chwaith y bernir dull y mydryddiaeth, yr hwn sy gyfunawl a mydr y ganiad Seisonig drwyddo, heb nac odl na chying-

hanedd ynddo, dau o anhebgorion awenyddion Cymru, ysywaeth, yn ol ymsyniad cyffredin yn y diweddar oesoedd; ac o berthynas imi fal hyn osodi yn eu plith gares mewn gwisg anad nabyddus a dyeithr, yr ofnaf yn benaf y berwa pair eu digofaint trosodd, ac y chwennychant osyd lwyr wadu ei thras. . . . Symaf o blaid imi lyfasu ceisiaw dwyn ar arfer y mydr-iaeth hwn, os barnir mai newydd yw, ei fod er hynny o wir ansawdd y 24 o gysefin fydrau beirdd Ynys Prydain, sef gorchan y gyhydedd wen: ac ei fod o gynneddf a hywedda mor wïw yn y Gymraeg ag mewn un iaith arall."

Anfantais go fawr oedd canu yn y mesur hwn yn y Gymraeg am ei fod yn fesur mor ddieithr ac yn taro'r Cymro fel mesur penrydd a direol. Yr oedd yn cydweddu'n well a'r Saesneg, ac yn llawer haws diweddu'r llinellau yn seinber, gan gadw mwy o gyfuniad o felodedd a grym drwyddynt. Y mae y mesur yn ffafryn y Sais ers canrifoedd, ond nid yw hyd heddyw wedi cwbl ennill serch y Cymro. "Cors Fochno" y galwai Talhaearn y mesur hwn—gwastadedd dibendraw, a phob rhigol ar y gwastad yn ddigon penllipa.

Fodd bynnag, llwyddodd Pughe i wneud y goreu o'r mesur yn y Gymraeg. Ei brif fai yw diweddu'r llinellau'n wan,

gyda geiriau megis—o, a, ar, ac, yn, &c., yr hyn a ystyrir erbyn heddyw yn drosedd lled fawr. Nid yw Milton byth yn gwneud hynny. Ond ar wahan i ychydig o fanion o'r fath y mae rhyw nerth a grym mawreddus yn y llinellau gan y cyfieithydd, a phob corfan yn plygu'n urddasol a naturiol o dan faich o feddwl na bu yn y mesurau Cymreig ei hafal erioed o'r blaen. Priodol y canodd Bardd Nantglyn am ei orchest,—

“ Milton a'i droellion didra—dolenawg
 Dilynodd ei hedfa;
 Darfu, trwy ymddyrchu'n dda
 Gall ganfod ei 'Goll Gwynfa.' ”

Ymhen yn agos i hanner can mlynedd ar ol hyn y caed cyfieithiad y Parch. John Evans (*I. D. Ffraid*) (1814—1875) Mae'n syn fod llenor mor gyfarwydd ag I. D. Ffraid wedi ysgrifennu rhagymadrodd maith i gân Milton gyda chyfeiriad arbennig at ei gyfieithiad ei hun, heb gymaint a chrybwyll enw Dr. Pughe, na chydabod dim o'r cymorth a gafodd yng ngwaith y Doethor. Mae'n ddigon gwybyddus, er hynny, nad oes odid i un tudalen gan Ffraid heb olion dylanwad Pughe arni; ac eto hyd y gwelsom, ni

chrybwyllir fod y fath gyfieithiad a'r eiddo Pughe mewn bod. Ceir cannoedd o linellau gan Ffraid wedi eu cymeryd bron air am air o waith Pughe, megis,—

Milton: "O'er bog, o'r steep, through strait,
rough, dense or rare."

Pughe: "Tros gors, tros allt, trwy gul,
garw, dwys neu daen."

Ffraid: "Dros gors, dros allt, drwy gul,
garw, dwys, neu daen."

Milton: "Things by their names I call,
though yet unnamed."

Pughe: "Galwaf bethau wrth eu henwau, er
na enwid eto hwynt."

Ffraid: "Galwaf bethau wrth eu henwau er
na enwyd etto hwynt."

Milton: . . . hope never comes,
That comes to all, but torture without end."

Pughe: ". . . gobaith mwy nis daw,
A ddaw i bawb; ond nych heb arno dawl."

Ffraid: ". . . gobaith byth
Ni ddaw, a ddaw i bawb ond poen heb dawl."

Milton: "O then at last relent. Is there no
place

Left for repentance, none for pardon left?"

Pughe: "Ynte, O ymfeddalâa:
Ai nid oes lle i edifeirwch, i faddeuant
ddim!"

Ffraid: "O, ynte, meddalha: ai nid oes le
i edifeirwch, i faddeuant le?"

Milton: "boasting I could subdue the Omnipotent."

Pughe: "firostiauw y gorfyddwn Ner pob nerth."

Ffraid: "bostio y gorchfygwn Ner pob nerth."

Milton: "As man ere long, and this new world shall know."

Pughe: "Fal cyn hir y gwybydd dyn, a hwn y newydd fyd."

Ffraid: "Fel cyn hir y gwybydd dyn, a'r byd hardd newydd hwn."

Milton: "Now came still evening on, and twilight grey . . ."

Pughe: "Dynesai weithion araul hwyr, a llwyd gyflychwyr . . ."

Ffraid: "Dynesai weithion dawel hwyr, a llwyd gyflychwyr . . ."

Milton: "Fled not in silence . . . confusion worse confounded."

Pughe: "Ni thawel ffoai . . . tra thwrf tarf terfysg."

Ffraid: "Ni thawel ffoai . . . a tharf a therfysg trwyd."

Dengys yr ychydig engreiffitiau uchod, a channoedd o rai tebyg, mor ddibynol oedd Ffraid ar Pughe; a'r peth lleiaf ellid ddisgwyl fuasai iddo gydnabod ei flaenor-ydd gyda gwaith mor bwysig, petai dim ond ei enwi fel un oedd wedi cerdded y

maes cyn bod Ffraid ond bachgen dwy-flwydd oed. Mae'n ddigon tebyg fod rhesymau digonol am y distawrwydd, ond erbyn hyn ymddengys yn chwithig heb-ddynt.

Fel y gellid disgwyl, y mae gwaith Ffraid ar y cyfan yn fwy dealladwy i'r cyffredin. Y mae ei linellau yn ystwythach, a thrwy fod yn llai clogyrnog, y maent yn wastadach, ac yn diweddu'n fwy unol a gofynion y mesur diodl. Mewn rhai manau y mae yn ffyddlonach i'r gwreiddiol, a'r meddwl yn gliriach, ac yn haws i'w ddilyn. Gwendid mawr y gwaith hwn yw aralleirio'n ormodol, a thrwy hynny ddwyn rhai pethau i mewn na ddylid eu dwyn; a gadael rhai pethau allan na ddylid eu gadael. Tuedda Pughe i wasgu'r meddwl i ychydig eiriau nes ei dywyllu: tuedda Ffraid i roddi mwy o ryddid iddo nes ei wanhau. Y mae gan Ffraid lawer mwy o eiriau llanw nag sydd gan Pughe, a phrin y mae gwaith y cyntaf mor urddasol a gwaith y diweddaf. Dywed Dr Edwards,—“Nid oes un gair afreidiol ym Milton, mwy na chwyr afreidiol mewn crwybr; nac un frawddeg ychwaith heb fod yn llawn o fêl.” Yr agosaf at wneud yr un peth yn y cyfieithiad

sy'n teilyngu y clod uchaf, ac yn y peth hwn credwn yn sicr fod Pughe ar y blaen. Rhagora Ffraid mewn rhai pethau ereill, ond nid yn y peth hwn. "Gwyddom," ebai Dr. Edwards, "fod rhai yn barnu y byddai yn dda ei ail-gyfieithu o iaith Dr. Pughe i Gymraeg gyffredin, ac nis gallwn lai nag addef, pe buasai hyn wedi ei wneuthur ganddo ef ei hun, na fuasai gennym ni y gwrthwynebiad lleiaf." Gwelodd Dr Edwards y gwaith wedi ei ail-gyfieithu, ond ni ddywed yn bendant fod y newydd yn well na'r hen, er fod y fantol yn ochri weithiau at hynny. Y syndod yw na buasai'r gwahaniaeth yn llawer mwy pan gofiwn yr amgylchiadau. Yn 1816 nid oedd y Gymraeg wedi arfer llefaru yn y modd hwn; erbyn 1865 yr oedd wedi cael yn agos i hanner canrif i ddysgu. Amcan y gwaith yn 1816 oedd "toli gorthrymder," a gwnaed ef mewn ychydig fisoedd; ond amcan arall oedd mewn golwg yn 1865. Ond er cael cymaint deirgwaith o amser, a thros fil o linellau yn ychwaneg o le, eto ni ragorwyd nemawr ddim yn y pethau pwysicaf mewn cyfieithiad.

Dywed Dr. Edwards yn ei adolygiad, "Ni ddigwyddodd i ni erioed gyfarfod a

neb fedrai hysbysu pa le y cafodd yr athraw hybarch ei Gymraeg." Prin yw'r wybodaeth hon, ond bu'r frawddeg yn foddion i godi tybiau pur gryfion. Credai Dr. Silvan Evans iddo gael ei eiriadaeth yn bennaf oddiwrth Rowland Jones, Brom Hall, Abererch, awdwr y llyfrau gwreiddiol a ganlyn,—

"The origin of Language and Nations" (1764).

"General Grammar to an Universal Language" (1768).

"Philosophy of Words, and Plan for an Universal Language" (1769).

"The Circles of Gomer" (1771).

"The 10 Triads" (1773).

Ganwyd Rowland Jones (1722—1774) yn Llanbedrog, Lley, a bu farw yn Llundain. Ceir erthygl yn y *Brython* (1858) yn ymdrin a rhai o'i lyfrau, ac yn egluro'r posibilrwydd iddynt ddylanwadu'n lled drwm ar Dr. Pughe. Hawdd credu fod swyn hudol iddo ef mewn awdwr a chymaint o adanedd i'w ddychymyg, ac iddo adeiladu llawer o'i drefniant ei hun ar sail rhai o awgrymiadau llyfrau Rowland Jones.

(6). *Ei Feirniadaethau.*

Ar hyd ei oes gwnaeth wasanaeth pwysig fel Beirniad. Beirniadaethau yw y rhan fwyaf o'i ysgrifau llafurfawr, a beirniadu oedd ei waith yn fynych yn Llundain, ac yn yr eisteddfodau yng Nghymru. Enillodd safle anrhydeddus yn y swydd hon. Mae'n ddiâu iddo wneud camgymeriadau anfwriadol wrth gloriannu beirdd a llenorion hen a diweddar, ond ganddo ef y ccdwyd safon beirniadaeth hyd yn oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Y pryd hwnnw nid oedd yr un orsedd barn ar ei thraed ymhlith llenorion Cymreig, a phe codid un nid oedd neb a feiddiai eistedd arni rhag ofn cael ei labyddio. Ystyrrid y neb a fwriai farn anffafriol ar waith un o'r beirdd yn "elyn" iddo, boed y farn yn gam neu gymwys. Y mae y llyfr "Adgof uwch Anghof," gan Myrddin Fardd, yn ddadleniad ar gyflwr isel beirniadaeth yr oes honno. Ond cododd Dr. Pughe, ac ychydig o rai tebyg iddo, gan beri cyfnewidiad trwyadl, a bu raid iddo ddiodesd ei boenydio o'r herwydd. Mae'n werth gwylbod beth oedd syniad rhai o arweinwyr yr oes honno am dano fel beirniad.

Dyma eiriau gwr pwyllus a dysgedig fel Charles o'r Bala,—

“Of those who are *critically* acquainted with the Welsh language, William Owen stands *first* in the rank, and is at the head of the list without dispute.”†

Ystyrriid Gwallter Mechain yn feirniad teg a diduedd, a daeth yn ddiweddarach yn “Arglwydd Brif-farnwr” llenyddiaeth Gymreig. Dyma ei farn am Pughe,—

“William Owen is the completest critic of the age, in every department of Welsh literature, were he not to permit his strong-winged fancy to over-haul his judgment.”‡

At ei *fancy* gyda'r orgraff y cyfeirir.

Yr oedd yn ormod o feirniad i fod yn fardd da, oblegid, ys dywed Macaulay,—
“In truth it may be laid down as an almost universal rule that good poets are bad critics.” Mae crebwyll cryf yn peri fod y bardd yn gwneud peth wrth reddf pryd nas gall roddi un rheswm am dano.

Gofynnodd Johnson i Goldsmith un-

† Charles of Bala, Vol. ii., p. 542.

‡ Ibid, p. 606—7.

waith beth a feddyliai wrth y gair
 "slow" yn y llinell

"Remote, unfriended, melancholy, slow"

ond nis gallai'r bardd roddi un rheswm boddhaol, hyd nes i'r hen rychor egluro iddo a dangos neges y gair ym meddwl Goldsmith ei hun. Byddai cael beirniadaeth ar farddoniaeth ddiwisg yn beth annaturiol gan Virgil, Dante, Shakespeare, Milton, Dafydd ap Gwilym, Dewi Wyn, Ann Griffiths, Williams Pantycelyn, neu Islwyn. Yr oeddynt yn medru canu ond ni wyddent pa fodd na phaham. Os am feirniadaeth deilwng rhaid gwrando ar ddyinion a'u barn yn gryfach na'u hawen — Aristotle, Horace, Johnson, Pughe, Gwallter Mechain, Caledfryn, Dr. Lewis Edwards, &c.

Nid bardd mawr ond beirniad mawr oedd Pughe, a llwyddodd i gychwyn cyfnod newydd a phwysig yn hanes clorian barn yng Nghymru. Buasai ei glod yn llawer uwch heddyw onibai iddo friwio beirdd fel Dewi Wyn wrth farnu, a thynnu gwg y wlad arno'i hun; oblegid haws gan Gymro gydymdeimlo â bardd nag â beirniad.

Mae'n ddigon hysbys mai ei waith fel beirniad yn Eisteddfod Dinbych, yn 1819, a barodd fwyaf o anfoddlonrwydd, ac nid yw y cri a godwyd y pryd hwnnw wedi hollol ddistewi hyd heddyw.

Testun y Gwyneddigion yn yr Eisteddfod honno oedd *Elusengarwch*, ac anfonwyd pymtheg o awdlau ar y testun i gael eu cloriannu gan Dr. Pughe, Bardd Nantglyn, a Dewi Silin, sef y Parch. D. Richards, Ficer Llansilin. Ymhlith yr ymgeiswyr am y tlws arian yr oedd Dewi Wyn gyda'i awdl adnabyddus, a ystyrir yn brif orchest ei awen. Fodd bynnag, nid Dewi wobrwyyd, ond Y Dryw; a'r farn gyfredin o hyd yw fod y wobr yn Ninbych wedi ei rhoi am gyfansoddiad llawer iawn is-raddol i awdl Dewi. Bu'r digwyddiad yn gyfle i fardd y Gaerwen a'i gyfeillion godi ystorm ffyrnig. Dyrchafwyd yr awdl yn afresymol, a diraddiwyd y beirniaid mor afresymol a hynny.

Ymhen llawer o flynyddoedd ar ol yr ymgiprys ysgrifennodd Caledfryn ei farn mewn gwaed oer ar awdl Dewi Wyn, ac wele beth o honi,—

“Er fod yn yr awdl bethau sy'n rhagori'n anfeidrol ar yr hon a gafodd y tlws, ni ddeil yn wyneb beirniadaeth deg o ran ei chynllun,

ei chynwysiad, na'i hiaith. Y mae yr awdur wedi llusgo pethau hollol amherthynasol i'r testun, i'r awdl hon, ac y mae'r ystyr a rydd i eiriau yn hollol gyfeiliornus mewn amryw ranau. . . . Y mae yn rhedeg at drethi, at Sior y Trydydd, at ein seneddwyr, ac at y degwm; nid am fod y pethau hynny'n dal un berthynas neillduol âg elusen, ond am ei fod yr hoffi cael cyfleusdra i ro'i ergyd yn nhalcen yr Eglwys Wladol. . . . Yr oedd ar Dewi chwant dangos mai Bedyddiwr trwy drochiad oedd efe, o ran ei farn, yn y fan yma; ond y mae hynny'n beth pell iawn oddiwrth y testun. . . . Y mae yn yr awdl hon rai tarawiadau i'r byw o farddoniaeth bur, eithr y mae ynddi ormod o bethau amherthynasol. Yr oedd gan Dewi Wyn feddwl mawr o'r awdl hon; ac y mae'n ddiau i'r cam a wnaed â hi yn Ninbych ei dwyn i fwy o sylw ddengwaith nag y buasai heb hynny, er fod ynddi bethau gorchestol. Ond nid allwn edrych arni fel cyfanwaith ardderchog, eithr yn hytrach fel darnau o farddoniaeth yn perthyn i lawer iawn o destunau, wedi eu doddi wrth eu gilydd heb gynllun na threïn. Y mae yn cynnwys rhai o'r pethau mwyaf gorchestol a wnaeth ein bardd, ac hefyd, yn eu plith, rai o'r pethau gwaelaf a gyfansoddodd efe erioed.' ¶

Mae'n debyg fod pawb diragfarn yn cydfynd i raddau a'r dyfyniadau uchod o feirniadaeth Caledfryn; ac eto, yn ol hyd

yn oed ei farn ef, yr oedd awdl Dewi er ei holl wendidau yn anrhaethol well na'r awdl a wobrwyyd. Yn sicr ddigon gwyddai y tri beirniad hynny hefyd gystal a neb. Paham, ynte, na wobrwyyd yr awdl oreu? Ni raid mynd ymheli i chwilio am eglurhad, a cheir ef yn llechu yng ngeiriau Caledfryn er mai nid dyna bwrpas ei sylwadau. Rhaid cofio fod y Gwyneddigion wedi bod, ac yn parhau i fod ar y pryd, yn llawn ymdrech i adnewyddu'r Eisteddfod, ac i'w gwneud yn sefydliad cenedlaethol yng ngwir ystyr y gair. I wneud hynny yr oedd yn rhaid ei dyrchafu uwchlaw ysbryd plaid a sect yng Nghymru. Gwyddent yn burion mai'r ysbryd cas hwnnw, yn anad dim, oedd mewn perygl o osod ei fwyell ar wreiddyn bywyd pobeth cenedlaethol yn y Dywysogaeth. "Os am lwyddo," ebe'r Myfyr, oddeutu chwarter canrif cyn Eisteddfod Dinbych, "rhaid cadw'n gaeth bob teimlad gwleidyddol ac enwadol allan o'r Eisteddfod. Costied a gostio rhaid dysgu'r Eisteddfod i beidio adnabod plaid na sect." Dyna oedd nôd y Gwyneddigion o'r cychwyn; ac wrth ddewis testunau o fwyddyn i fwyddyn gofalwyd eu bod yn glir oddiwrth sawyr plaid wleidyddol

ac enwad crefyddol, fel na cha'i neb gyfle i ddefnyddio'r Eisteddfod i amcanion plaid na sect o fath yn y byd. Y mae hanes yr Eisteddfod heddyw'n profi iddynt lwyddo i greu cyfnod newydd ym mywyd y sefydliad cenedlaethol.

Ond yn Ninbych, trwy groesi'r gwrychoedd, ceisiodd Dewi Wyn wthio i mewn i'r Eisteddfod ysbryd daneddog plaid a sect —y casbeth a ofnai'r hen Wyneddigion yn fwy na dim. Beth oedd i'w wneud? Byddai gwobrwyo awdl Dewi Wyn, nid yn unig yn gam a'r testun, ond yn gam a'r rhai oedd yn gwobrwyo, ac yn gam a'r Eisteddfod; a byddai rhoi sel cymeradwyaeth cenedl i rai o syniadau brathog yr awdl yn anonest. Nid oedd dim ond un peth i'w wneud, a hynny a wnaed, sef bwrw awdl Dewi allan o'r gystadleuaeth am ei bod yn trosedd rhai o egwyddorion pwysicaf sefydliad cenedlaethol.

Cyn belled ag yr oedd pigo allan oreuon y gystadleuaeth yn mynd, cydolygai y tri beirniad. Ond pan yr aed i ystyried y priodoldeb o wobrwyo yr oreu o dan yr amgylchiadau, barnodd Dewi Silin mai'r peth mwyaf anrhydeddus ynddo ef oedd ymneilltuo, am ei fod yn offeiriad, ac felly'n un o'r rhai a fflangellid yn yr awdl.


Safodd Pughe a Bardd Nantglyn yn fyddlon i draddodiadau goreu'r Gwyneddigion, ac i egwyddorion sylfaenol yr Eisteddfod Genedlaethol. Am eu gonestrwydd cydwybodol wrth waredu'r Eisteddfod o afaelion ysbryd trahaus plaid a sect y dioddefodd y ddau mor erwin.


Yn ffodus y mae'r Eisteddfod wedi ei chadw'n lled glir oddiwrth yr ysbryd fu'n bygwth ei heinioes yn Ninbych, ac y mae llawer o'r clod am hyn yn ddyledus i'r beirniaid fu dan orfod rai troion i arfer yr un driniaeth at ambell gyfansoddiad ag a arferwyd yn Ninbych yn 1819. Yn araf y mae'r sefydliad wedi dysgu byw a siarad yn genedlaethol, a rhoddwyd prawf llym ambell flwyddyn ar yr Eisteddfod yn hyn o beth. Yn 1884 anturiwyd rhoi *Gwilym Hiraethog* yn destun y gadair yn Llynlleifiad, ac ofnid y canlyniad gan lawer, am fod y fath destun yn rhoi cyfle teg i Shibboleth enwad a phlaidd ddyfod i anurddo gwefus yr Eisteddfod. Ond yn awdl Dyfed dyrchefir yn ddigon uchel o olwg y rhigolau. Y mae yn canu, nid i ddyn plaid, ond i ddyn cenedl; nid i un o enwogion enwad ond i un o enwogion Cymru. Yr un peth ellir ddweyd am ganeuon ereill a wobrwyyd o dro i dro ar

destunau tebyg. Y mae sêl yr Eisteddfod arnynt yn sicrhau eu bod yn lân oddiwrth deimladau sarhaus iawn a syniadau cyfeiliornus iawn. Ni anwyd mohoni'n freiniol, ond a swm mawr y cafodd y ddinasfaint hon, ac ni ddylai ei gollwng i golli er dim. Talwyd cyfran helaeth o'r "swm mawr" gan Fardd Nantglyn a Dr. Pughe ar ol Eisteddfod Dinbych; oblegid dioddefodd y ddau, yn arbennig Dr. Pughe, bob sarhad ag y gallai teimladau bryntion ei fwrw arnynt. Pan y cyhoeddir holl lythyrâu Dr. Pughe ceir gwelod fel y gallodd trwy bopeth feddiannu ei enaid mewn amynedd.

Mae'n deilwng o sylw i'r Gwyneddigion sefyll yn ffyddlon wrth gefn y Doethor yng nghanol yr holl ymdrafod. Y flwyddyn ddilynol (1820) gwnaed ef yn llywydd y gymdeithas am y drydedd waith; ac er mwyn dangos eu cymeradwyaeth o'r hyn a ddigwyddodd yn Ninbych etholwyd "Y Dryw," sef y buddugwr (y Parch Edward Hughes, M.A.) (1773—1850) yn fardd y gymdeithas am 1820 ac 1821.

Yr oedd y blynyddoedd hynny (1819-21) yn nodedig mewn cynnydd yn aelodau y gymdeithas. Parodd yr erlid fu arni i lawer o wyr blaenaf y Dywysogaeth





Egryn yn Ardudwy.



deimlo yn serchus tuagati, a chymeradwyo ei thegwch a'i gonestrwydd.

Wrth fwrw bras-olwg fel hyn dros waith Dr. Pughe ceir syniad gweddol am ei fywyd llafurus; a pha mor lwyddiannus bynnag y bu yr oedd y diben yn glodwiw, ac yn haeddu parch a chymeradwyaeth pob Cymro gwladgar. Y mae ei holl fywyd cyhoeddus, a'i holl waith amrywiol a'u tuedd yn benodol i lesoli a dyrchafu Cymru, Cymro, a Chymraeg.

Faint bynnag o newid a gwella fydd ar yr hyn a wnaeth, bydd ei ddyllanwad yn aros o'r tu ol i'r cwbl, ac nis gellir ei anwybyddu.

Yn yr ystyr hwnnw ni ddywedwyd llawer gormod gan y beirdd,—

“E geidw ei waith yn gadarn
Golofn aur hyd forau'r farn.”

CAWRDAF.

“Tra Duw Ior yn Bor y byd
O'i safte byth ni syflyd.”

IEUAN GWYNEDD.

“Anfarwol fydd dy goffadwriaeth, Puw.”

GWALCHMAI.

III. EI ATHYRLITH.

CESGLIR o angenrheidrwydd oddiwrth hanes bywyd a llafur Dr. W. O. Pughe ei fod yn ddyn anghyffredin ar lawer cyfrif, yn greawdwr cyfnod newydd yn hanes iaith y Cymry yn ogystal ag yn hanes llenyddiaeth Gymreig, a'i fod yn sefyll wrtho'i hun yn enwog ymhlith enwogion.

Naturiol gofyn a oes iddo ddsbarth ymhlith enwogion, neu a ydyw yn ffurfio ddsbarth iddo ei hun. Os y cyntaf sydd wir gellir ei gymharu â dynion ereill, a mesur ei faint wrth faintioli pobl ereill. Ond os yr ail sydd wir, nid priodol na theg ei fesur na'i bwysu wrth neb ond wrtho ei hun, gan fod ei gylch yn etifeddiaeth lwyr iddo ef, ac yntau'n arglwydd ar ei dŷ ei hun. Credwn yn sicr mai'r ail sydd gywir am y gwr hwn. "None but himself can be his parallel." Byddai ei osod ochr yn ochr âg ereill er mwyn penderfynu ei faint yn gamosodiad. Gellir benthycu enwogion ereill i ddangos rhyw weddau neilltuol ar ei alluoedd, ond nid i lathennu cymeriad amlochrog fel efe. I fod

yn deg rhaid edrych arno yn llewych ei oleuni ei hun. Y mae yn greawdwr ei ddosbarth, "Na bu ei fath o'i flaen, ac na chyfyd ei fath ar ei ol." Dyna i raddau sydd wir am bob athrylith.

Gelwid ef yn gyffredin ar un adeg—"The Johnson of Wales," ac yr oedd llawer o debygrwydd yn y ddau rychor. Aeth rhywrai mor bell a galw Twm o'r Nant yn "Shakespeare of Wales," a hwyrach fod rhywfaint o reswm dros ei alw felly; ond yr oedd llawer o briodoldeb yng ngalw Pughe yn "Johnson," nid yn unig am y gwaith a wnaeth y ddau, ond hefyd am y dylanwad mawr oedd gan y ddau ar eu gwahanol gylchoedd. Rhyfedd y fath dalentau oedd o amgylch Johnson yn "Y Clwb!" Syr Josuah Reynolds, Burke, Goldsmith, Gibbon, Nugent, Garrick, Beauclerk, Langton, a Boswell—pob un yn feistr yn ei ddosbarth ei hun. Eto, yn y Clwb yr oeddynt oll yn falch o fod wrth draed Dr. Johnson. Efe oedd y canolbwynt, ac ynddo ef yn unig yr oedd y cylch i gyd yn gallu cydgyfarfod. Yr oedd yn ddigon o gymeriad i fod yn at-dyniad gwahanol dalentau. Ar raddfa lai yr oedd Dr. Pughe yn hyn o beth yn ddigon tebyg i

Dr. Johnson. Y fath dalentau amrywiol oedd o'i gwmpas yntau yn y Gwyneddigion! Bwriwn olwg dros rai o honynt.

OWEN JONES (*Owain Myfyr*) (1741—1814); boneddwr Cymreig yng ngwir ystyr y gair; yn ddisgynydd o Marchweithian, pennaeth un o bymtheg llwyth Gwynedd, a'i galon fawr yn llawn o dân gwladgarwch pur.

ROBERT HUGHES, o'r Ceint Bach, sef "Robin Ddu yr Ail o Fôn" (1744—1785); ysgolor gwych yn swyddfa un o fargyfreithwyr Llundain; bardd coeth a glân, ac yn uchel ei barch gan Saeson a Chymry.

JOHN EDWARDS (*Sion Ceiriog*) (1747—1792); bardd celfydd, "areithydd, seryddwr, hanesydd hynod ar fôr a thir, a gwneuthurwr offerynau cerdd."

"O wythen dysg iaith nid oedd
O'i wybodaeth mewn bydoedd,"

ebe Glan y Gors. Llawysgrif Sion Ceiriog yw y lanaf a'r decaf ar lyfrau'r Gwyneddigion.

HUMPHREY PARRY, o Glynog Fawr yn Arfon, 1772—1809; ysgolor da, ac ieithydd cyfarwydd; prif athro athrofa yn

Llundain, a gwr oedd yn caru iaith a llenyddiaeth ei wlad tuhwnt i bopeth.

HUGH HUGHES o'r Llain Wen, 1769—1809; gwr y gyfraith, o alluoedd eithriadol. Er ei "atal dweyd" yr oedd ei galon Gymreig yn curo'n rheolaidd a dibaid at wlad ei dadau.

RICHARD HUGHES, o Gemaes ar Ddyfi, 1778—1820, un o ffyddloniaid y Gwyneddigion, ac yn wr o feddwl cryf, a barn addfed.

ROWLAND GRIFFITH, Pwllheli,—1818, ysgolhaig clasurol, ac yn Gymro twymngalon. Diweddodd ei oes lafurus yn St. Pierre le Port, Guernsey, ac yno y claddwyd ef.

JOHN HUMPHREYS PARRY, o'r Wyddgrug, 1787—1825, bargyfreithiwr, a llenor medrus, golygydd y *Cambro-Briton*, *Transactions of the Cymrodorion*, a'r *Cambrian Plutarch*.

JOHN HUGHES (*Sion Goch*), 1762—1830, cyfreithiwr, mab arall y Llain Wen ger Dinbych. Ymaelododd yn 1787, a bu ei ddoniau yn gynysgaeth dda i'r Gymdeithas.

DR. JOHN LLEWELYN (*Y Doctor*), un o aelodau cyntaf y Gymdeithas, yn wr o foddion, ac yn Gymro pur.

DR. DAFYDD SAMWEL (*Y Meddyg Du*), 1729—1799, wyr i'r enwog Edward Samwel o Langar, meddyg medrus a theithydd mawr; llygad-dyst o lofruddiaeth Capten Cook, ac awdwr y *Narrative* a ddaeth mor adnabyddus.

HUW SAMWEL (*Huw Llangar*), cefnder y Meddyg Du, ac yn meddu llawer o'i ddawn a'i fedr.

EDWARD JONES (*Ned Mon*), 1771—1831, aelod o'r Inner Temple; cyfieithydd rhan o waith Cicero, ac awdwr "Index to Records," &c.

OWEN JONES (*Cor y Cyrtie*), brawd Ned Mon; cyfreithiwr ac areithydd; parod ei gymwynas i bob Cymro ac i bopeth Cymreig.

EDWARD JONES (*Bardd y Brenin*), 1752—1824, cerddor a bardd gweddus ei arddel gan Dywysog Cymru; awdwr llyfrau fel "Musical and Poetical Relics of the Welsh Bards," "The Bardic Museum of Primitive British Literature." &c.

THOMAS JONES (*Y Bardd Cloff*), 1768—1828, masnachwr llwyddiannus, yn wr o allu ac ymddiried. Yr oedd ei chwaeth lenyddol yn gryfach na'i awen, ac yr oedd yn noddwr pridd athrylith Gymreig.

THOMAS ROBERTS (*Llwynrhudol*), 1766—1840, arianydd cyfoethog a welodd lawer tro ar fyd; awdwr amryw lyfrau, ac yn eu plith eirlyfr Saesneg a Chymraeg.

EDWARD CHARLES (*Sierlyn Fardd*), 1760—1828, bardd a llenor amryddawn, gŵr doeth a chyweithas, ac yn hawlio lle anwyl ar aelwyd y Gwyneddigion.

JOHN JONES (*Glan y Gors*), 1767—1821, un o benaethiaid beirdd gogan y Cymry, a chreawdwr "Dic Sion Dafydd"; ymosodydd peryglus, a hunan-amddiffynydd medrus.

ROBERT DAVIES (*Bardd Nantglyn*), 1769—1835, bardd gwreiddiol, ond nid mor wreiddiol ei awen a'i gyfoed o Lan y Gors. Rhagorai arno mewn barn a chwaeth. Awdwr "Diliau Barddas" a Gramadeg Cymraeg.

Pallai gofod i ni son am Bedo Beuno, Ivan Bedw Arian (Dr. Evans), Y Proffeswr (Ed. Jones), Wil Môn (brawd Ned Môn, a Cor y Cyrtie), Richard Alwen, Huw Aber, Sion Penllyn, &c., &c.

Dyna rai o'r frawdoliaeth yn nyddiau goreu'r Gymdeithas, a phob un o honynt yn grefftwr hyfedr yn ei gylch arbennig ei hun. Ond Pughe oedd y mwyaf ei ber-

sonoliaeth yn eu plith i gyd. O'i gwmpas ef yr ymdyrrent yn bennaf, ac ato ef yr edrychent am gyfarwyddid ac arweiniad. Nid dyn cyffredin a wnai ganolbwynt i ddynion mor alluog, ac mor amrywiol eu doniau. A ellir galw y gallu atdyniadol hwn yn athrylith? Yr un gallu cyfrin ddaw i'r golwg ynddo ymhlith y South-cotiaid crefyddol, yn ogystal ag ymhlith ei gydwladwyr yn Ninbych. Elai dylanwad ei allu a'i gymeriad yn graidd pob cylch y troai ynddo, a chymerai yntau ei le yn naturiol fel brenin ymhob cymdeithas. Nid oedd yn ymgomiwr mawr nac yn arabus iawn mewn cwmni, ac eto troai llygad pawb ato, a siaradai pawb am dano —teimlai pawb ei ddylanwad er gwell neu er gwaeth, ac nid oedd neb yn medru dweyd i sicrwydd beth oedd y dylanwad hwnnw. Meiddiwn alw'r dylanwad yn athrylith.

Anodd, os nad amhosibl, dweyd beth yw athrylith. Un o'r pethau hynny sy'n aneffiniadwy ydyw. Hwyrach y tueddri i alw pob gallu yn athrylith, ac i ystyried pob dyn talentog yn ddyn athrylithgar. Er nas gellir egluro'r gwahaniaeth yn fanwl rhwng talent ac athrylith, eto teimlir y gwahaniaeth megis wrth reddf.

Gall talent wneud peth da gyda thrafferth go fawr, ond gall athrylith wneud peth da heb ddim trafferth. Casglu defnyddiau yr adeilad y mae talent, adeiladu'r deml gampus y mae athrylith. Gall talent lunio corff ei gwaith o bridd y ddaear, ond rhaid cael athrylith i anadlu yn ei ffroenau anadl einioes. O dan ddisgrifiad talent y mae Hermon yn uchel, a'r berth yn brydferth ddigon, ond o dan ddisgrifiad athrylith y mae Hermon dan y gwllith, a'r berth yn llosgi'n dân. Gall talent redeg mewn teulu am genedlaethau, ond y mae athrylith fel Melchisedec y cynfyd, "heb dad, heb fam, heb achau." Mewn gair, nid oes esbonio ar beth cyfrin fel athrylith; y mae pawb i ryw raddau yn teimlo'i bresenoldeb, ond neb yn gallu dweyd yn groew beth ydyw. Bendithir gwlad â llu o ddynion talentog ymhob oes, ond i wlad fechan, fel yr eiddom ni, buasai cael dyn o athrylith unwaith mewn oes yn gynysgaeth pur fawr. Ymhlith yr ychydig feib athrylith a godwyd yn ein gwlad rhaid chwilio am le i Dr. Pughe.

Os na ellir dweyd yn bendant beth yw athrylith, gellir dweyd llawer am nodweddion athrylith. Y mae i bob ath-

rylith ei nodweddion ei hun, felly ofer cymharu un athrylith âg athrylith arall. gan fod pob un yn greadigaeth neilltuol wrthi ei hun.

Dyma ddywed Pughe yn y Geiriadur am

“ Athrylith, s.m.—pl.t. au (trylith), a pervading disposition: intuition: genius: invention: fancy.

O ba athrylith byrnag—by what scheme so ever.

Yno yr oedd ystafell, ni orug dyniawl athrylith ei chyffelyb.—MABINOGION.

In there was a chamber, the like human invention had not formed.”

Gwelir ei fod ef yn rhoddi ystyr eang i'r gair yn ol arfer yr hen Gymry gyda geiriau o'r fath. Yr un modd y try eiriau ereill sy'n perthyn i'r un teulu a'r gair hwn, dyry iddynt ryddid ac eangder, gan adael i'r synwyr o'r ddeutu benderfynu'r ystyr. Er hynny, yr ystyr gyntaf a rydd yw y bwysicaf yn ei dyb ef, a honno sy'n lliwio'r ystyron ereill i gyd.

Yng nghymeriad amlochrog Pughe gwelir rhai pethau'n amlycach na'u gilydd, a'r oll gyda'u gilydd yn ffurfio personoliaeth gref a dylanwadol—“ a pervading disposition ”=athrylith.

i. BONEDDIGEIDDRWYDD. — Dyma un o'r pethau cyntaf a dynn sylw mawr yn ei gymeriad. Yr oedd wedi tyfu'n foneddwr trwyadl, a'i ysbryd llariaidd yn effeithio'n ddistaw ar bawb a phopeth o'i gyleh. Profodd i'r byd y gellid codi boneddwr o un o amaethdai Meirion, a allai ymddwyn yn foneddigaidd ymhob amgylchiad. Cafodd ei wawdio a'i erlid gan rai oedd wedi derbyn caredigrwydd mawr oddiar ei law, ond dioddefodd y cwbl yn dawel a disŵn; ac efallai fod ei addfwynder diddig o dan bob dyrnod yn peri i rai o'i absenwyr gythruddo'n fwy. Dyma eiriau Bardd Nantglyn,—

“ Ben addurn, mal boneddig—gostegodd
 Gostogion yn bwyllig;
 Safodd, ac ni ddaliodd ddig,
 Gabl i'w ddydd yn gwbl ddiddig.”

Ni chythruddid ei ysbryd llariaidd gan ymddygiadau brwnt dynion iselwael. Ni cheir y nodwedd hon mewn cymeriadau bychain. Y mae pob carreg a roir ar ffordd ffrwd fâs yn gwneud iddi grychu a brochi, ond y mae'r afon ddofn yn croesi'r cerrig yn esmwyth a didwrw. Taflwyd llawer carreg gan “gostogion” ar ffordd Dr. Pughe, ond ni welwyd mohono'n

ffromi erioed. Cerddai drostynt yn dawel gyda cherddediad cawr, heb wneud fawr sylw o fanion oedd yn blino rhai o'i gyfoedion bron i farwolaeth. Wrth ddarllen llythyrau Pughe at ei gyfeillion, a darllen llythyrau Dafydd Ddu a'i ddisgyblion at eu gilydd, y mae'n anodd credu eu bod yn gydoeswyr. Y mae'r fath fanion yn poeni beirdd a llenorion Cymru yn nechreu y ganrif o'r blaen, a'r fath ysbryd isel, cul, a rhagfarnllyd yn eu meddiannu—o'r mwyaf o'honynt hyd y lleiaf o'honynt, fel mai iechyd i ysbryd dyn yw troi at epistolau Dr. Pughe. Teimlir ei fod yn anadlu awyr hollol wahanol, a bydd y darlennydd ar ol darllen yn eangach ac yn foneddigeiddiach ei hun.

Mae'n wir fod athrylith, fel natur, yn torri allan yn aruthredd y mynydd yn ogystal ag yng nghyfaredd y dyffryn, ond o dan y cwbl ceir y lledneisrwydd boneddigaidd hwnnw sydd bob amser yn nodweddu gwir fawredd ac athrylith.

Oddeutu 1821 bu Pughe mewn dadl frwd yn *Seren Gomer* gyda'r Parch. Thomas Price (*Carnhuanawc*), 1788—1848; ac y mae'r ddadl yn nodedig o uchel o ran ysgolheigddod, chwaeth, a boneddigeddwydd. Amheuthyn iawn oedd dadl

o'r fath yng nghylchgronau Cymru yr oes honno. Y mater oedd,—“A oedd geiriau Gwyddelig yng nghaniadau Myrddin, ai nad oedd?” Hefyd, “A oedd ffordd Rufeinig yn croesi Gwaith Emrys (*Stonehenge*)?” Ymladdfa'r cewri oedd honno, a thynnodd sylw mawr ar y pryd; ond teimlai pawb fod dau foneddwr yn ymgodymu. Ar ol hynny addefodd Carnhuanawc mai Dr. Pughe oedd yn gywir, ac yntau ei hun yn cyfeiliorni. Yr oedd yr addefiad ar ol yr holl ysgrifennu yn gymaint o glod i degwch boneddigaidd Carnhuanawc ag oedd o warogaeth i wybodaeth ac i foesarwch Dr. Pughe. Yn ei holl ysgrifau, a llawer o honynt yn ddadleuol, ni cheir gair i friwio teimlad neb yn ddiachos. Yn hyn o beth yr oedd ei asgre'n lân, a'i pherchen yn ddiogel.

Dyma'n unpeth a'i gwnei yn arweinydd wrth natur ymhlith cymdogion gwledig, ymhlith cyfoedion llenyddol yn ogystal ag ymhlith Southcotaidd crefyddol. Heb ymwithio, na thebyg i hynny, cymerai ei le ar y blaen ymhob cylch a chyda phob symudiad. Mewn dirmyg y galwai Iolo Morgannwg ef yn “Hudlewyn mawr y Gwyneddigion.” Yr oedd yr enw er hynny yn uchel gydnabod cym-

eriad hudol ac atdyniadol Dr. Pughe. Ni wyddai Iolo, druan, fawr am ysbryd cymdeithasgar a hywedd o'r fath, ac am nad oedd brofiadol ohono ei hun nis gallai ei ddeall yn neb arall. Wrth geisio mell-dithio, aeth i fendithio heb yn wybod.

Cainc o'r boneddigeiddrwydd hwn oedd y caredigrwydd dibendraw oedd yn ei natur. Mae llawer o hanes ei gymwyn-asau ar goedd, ond y mae llawer mwy dan gudd. Pa sawl Cymro yn Llundain gafodd law a chalon Pughe yn barod i'w gynorthwyo mewn angen? Pa sawl awdwr digefn gafodd wybodaeth a phrofiad Pughe at ei wasanaeth? Yr oedd ef ei hun yn ormod o foneddwr i gadw cofnodion o'r pethau hyn. Ni wyddai'r naill law beth a wnai'r llall. Ond ceir tystiolaeth ereill yn britho'u gohebiaethau am y caredigrwydd a lifai'n wastad o'i natur hynaws. Tybiodd rhai mai gwendid ynddo oedd hyn; a hwyrach fod rhywrai eto'n coleddu'r un peth am eu bod yn methu gwahaniaethu rhwng tynerwch a meddalwch. Am ei fod yn *childlike* barnwyd ef yn *childish*. Ond i bob dyn ystyrbyll codai y nodwedd brydferth hon o gryfder ei gymeriad. Yr oedd ei natur foneddig mor lariaidd a naturiol nes ym-

ddangos fel diniweidrwydd plentyn, a hawdd i feddwl coeg a bâs ei gangymeryd am ddiniweidrwydd plentynaidd.

Cymerwyd mantais amlwg ar ei gar-edigrwydd gan lawer, a'r cyfryw rai oedd barotaf i'w wawdio wedyn. Dyna hanes gwyr taeog ymhob oes a gwlad; ond erys y cywilydd byth wrth eu drysau hwy eu hunain, a dylai'r parch aros yn amlycach wrth ddrws y boneddigaid Dr. Pughe.

ii. Nodwedd arall ar ei athrylith oedd PENDERFYNIAD. Fel y profa ei waith, ymgwymerodd o dro i dro â gorchwylion enfawr. Yr oedd yn rhaid wrth benderfyniad mawr i ymaflyd ynddynt i gychwyn, a phenderfyniad mwy di-ildio fyth i'w cyflawni'n weddol deilwng. Ond llwyddodd bron bob amser i ddwyn barn allan i fuddugoliaeth. Ar ol iddo un-waith roddi ei law ar yr aradr o ddifrif ni throai yn ol er dim, ond ymestynnai bob amser am y dalar bellaf ar y maes, gan ddwyn y gwys yn glir i'r pen. Gallodd ddal gwrthwynebiadau cyfeillion a gelynyon heb gloffi rhwng dau feddwl,

"Nor cast one longing, ling'ring look behind."

Pan yn paratoi'r Geiriadur, ceisiwyd ei ddigalonni gan ei gyfeillion trwy ei

rybuddio rhag yr anturiaeth, a thrwy ei feio am wastraffu amser a nerth i gasglu geiriau iaith oedd ym mron marw yn ol eu tyb hwy. Gresynent yn onest ei fod yn ymgymeryd â'r fath orchwyl difudd. Yr oedd clywed y gwŷn, a theimlo'r sen, yn friw i natur lednais fel yr eiddo ef. Galwodd sylw at y pethau hyn ymhen blynyddau, a rhaid iddynt gostio'n ddrud iddo. Ond er gwaethaf câr a chyfaill, ac heb anwybyddu cyngor neb, daliodd yn dynn at ei benderfyniad, ac yn nerth ei benderfyniad gallodd droi y rhwystrau yn symbylau i fwy o ymroddiad. Yn ei ymdrech aeth yn gymaint o broffwyd ag o hanesydd. O ran hynny, y mae'r proffwyd a'r hanesydd yn geraint agos iawn. Y proffwyd a'i wyneb ar y gorffennol yw yr hanesydd; a'r hanesydd a'i wyneb at y dyfodol yw y proffwyd. Yr oedd y ddau yn cydgyfarfod yn Pughe. Gyda phenderfyniad cawr y casglodd orffennol yr iaith yn gynysgaeth iddi am y dyfodol. Credai'n gryf fod yr hen iaith i adnewyddu ei hieuenctyd; a phan yr oedd ereill yn paratoi at ddydd ei harwyl, yr oedd ef yn paratoi'n egniol at ddydd ei hadgyfodiad i fywyd newydd. Efe a wynebodd siomedigaethau'n wrol; a dal-

iodd ei benderfyniad yn gryf, er gweled ambell gastell teg o'i eiddo ambell waith yn cael ei ddymchwelyd yn garnedd.

Er ei fod yn nodedig o benderfynol, nid oedd mewn un modd yn ystyfnig. Nid oedd un elfen o'r afiechyd hwnnw yn ei benderfyniad iach. Pan y codai croeswynt brwnt, nid gwrthsefyll nes torri a wnai, ond plygu'n dawel i'r anocheladwy.

Fel y mae'n hysbys, yr oedd yr orgraff yn ei gwisg newydd yn blentyn ei serch, a pharod oedd i aberthu llawer er ei mwyn. Pan y trefnodd y Feibl Gymdeithas i gyhoeddi'r Beibl Cymraeg, gwelodd Pughe ei gyfle, ac ymgymerodd â chywiro y profenni, gan dybio'n sicr fod awr tynged yr orgraff wedi dod. Pe gellid ei chael i'r Beibl diogelid ei hoedl ar unwaith. Pan y dealodd nad oedd derbyniad iddi o gwbl i'r Beibl, ac yr edrychid arni gan bwyllgor y Gymdeithas fel esgymunbeth dienwaededig, ni chytruddodd, ond ymostyngodd yn urddasol i ewyllys y brodyr, gan wneud ei oreu o'u trefniadau. Siom chwith oedd hon; a themtasiwn gref i ddyn penderfynol fychanu ei hun trwy fod yn ystyfnig. Ond ni welwyd arlliw o fychander felly

yn ei ysbryd ef. Boed ei waith a'i lyth-
yfrau'n dystion.

Yn niwedd ei oes galwyd am ail ar-
graffiad o'r Geiriadur, a thybiwyd yn bri-
odol gan y cyhoeddwr ddiarddel rhan o'r
orgraff o'r argraffiad newydd. Yr oedd
Dr. Pughe mor benderfynol ag erioed
dros ei orgraff, a honno erbyn hyn yn
blentyn ei henaint. Er hynny rhoddodd
ffordd i farn a theimlad y cyhoeddwr, ac
ymdrechodd hyd eithaf ei allu i gywiro
ac i helaethu'r llyfr, nes ei wneud yn
gyfoethocach ac yn gyflawnach nag
erioed. Yr oedd digon o fawredd yn ei
benderfyniad i newid yr orgraff heb newid
ei gred. Yn yr argraffiad cyntaf yr oedd
yn barod i golledu ei hun er mwyn ei
gredo. Yn yr ail argraffiad colled y
cyhoeddwr fyddai, ac nid oedd Pughe am
i neb arall orfod dioddef o'i achos ef.
Dyna'i hanes ar hyd ei oes, ac erys hyd
heddyw yn eithriad anrhydeddus ymhlith
enwogion Cymru mewn penderfyniad
ystwythgryf. Yr oedd yn gymeriad
cadarn, ac eto'n gymeriad nodedig o
hyblyg.

iii. Nodwedd arall yn ei athrylith
oedd TREFNUSRWYDD. Yr oedd yn llawer
mwy o drefnwr nag o greawdwr. Nid

rhoi bod i bethau newyddion oedd ei waith ond rhoi trefn ar hen bethau.

Cyn ei ddyddiau ef yr oedd yr iaith yn hynod anhrefnus ac anosbarthus, a thrysorau'r iaith ar hyd a lled y wlad mewn cyflwr afluniaidd iawn, ynghyd hanes enwogion Cymru yn ddigon direol. Casglodd y pethau hyn a'u cyffelyb yn ofalus, gan roi asbri newydd yn y gweithwyr oedd eisoes gyda'r gwaith. Gwnaeth drefn a dosbarth ar drysorau'r Cymry mewn modd sy'n aros yn golofn i'w fedr a'i athrylith hyd y dydd hwn. Mae'n wir iddo gael llawer o gydweithwyr, a chefnogwyr gwresog a haelionnus. Nid oedd neb parotach i gydnabod hynny'n ddiolchgar nag efe ei hun. Ond Pughe oedd y prif symbylydd. O'i gwmpas ef yr ymgasglent, a'i gynlluniau ef a ddy-mument.

Dywedir mai nodwedd benodol dyn mawr y ganrif o'r blaen oedd, nid rhoi bod i bethau newydd yn gymaint, ond cyfuno hen bethau â'u gilydd mewn cwlwm perthynas a bywyd. Os felly, cymer Dr. Pughe ei le fel un o ddy-nion mawr y ganrif yn ei phrif nodwedd. Faint bynnag o allu raid gael i alw pethau newydd i fod, rhaid cael gallu tebyg,

hefyd, i alw hen bethau i drefn. Yr oedd Pughe wedi ei eni'n drefnwr diall.

Gosododd ei ddelw'n drwm ar lenorion y wlad yn y peth hwn. Cyn ei ddyddiau ef yr oedd toreth ein llenyddiaeth yn ddigon disut o ran ei gweithiad allan, ac yn amddifad o drefn a graen lenyddol. Ond y mae holl ysgrifau Pughe yn neilltuol yn y medr i gyfleu ei feddyliau yn rheolaidd a chelfydd—dawn y geiriadurwr yn gref ynddo. Deallwyd y wers hon gan lawer o'n prif lenorion ar ddechreu y ganrif o'r blaen, a lledaenwyd y dylanwad yn ddistaw dros ein llenyddiaeth yn gyffredinol.

Pan y cofir hyn ceir rheswm arall dros iddo fethu mynd i gariad mawr âg awdl Dewi Wyn ar Elusengarwch. Y mae meddyliau yr awdl honno mor hynod anhrefnus ag ydynt o ragorol mewn ystyr arall. Syniadau ardderchog ydynt, wedi eu galw ynghyd o bobman a'u bwrw blithdrafflith i'r gân heb arnynt na threfn na dosbarth. I feddwl trefnus, fel meddwl Pughe, yr oedd hynny'n anesgusodol, a hawdd oedd iddo resynnu fod defnyddiau mor dda wedi eu rhoi mewn adeilad mor ddigynllun.

Mae'n wir mai nid dyna ei brif reswm dros gollfarnu'r awdl. Ymddengys nad oedd llawer gwell trefn ar yr awdlau ereill; ond yr oedd awdl Dewi o ran ei meddyliau'n gymaint gwell, nes gwneud ei chynlluniad yn gymaint gwaeth. Yn y ffrwgwd a ddilynodd ni ddywedodd Pughe ddim i dynnu anfri arno'i hun fel beirniad, ar yr eisteddfod fel sefydliad, nac ar yr un o'r ymgeiswyr fel bardd. Meddiannodd ei hun a chadwodd ei barch trwy roddi ei ddyfarniad yn ddoeth a chynnil, gan adael i raith gwlad mewn oesau dilynol benderfynu'r ffrwgwd. Nid ymddigiodd ychwaith, gan fynd i'w grogen yn chwerw, ond daliodd yn ffyddlon i'r Eisteddfod a'i defodau hyd ddiwedd ei oes. Carai drefn ymhob peth, a mynnodd roi hyd yn oed ei deimpladau ei hun o dan ddisgyblaeth ofalus.

iv. Nodwedd arall oedd **CYSONDEB**. Gwedd arall ar ei drefnusrwydd oedd hyn, ond yr oedd yn wedd amlwg yn ei gymeriad, a dylid ei phwysleisio fel nodwedd benodol yn ei athrylith. Yr oedd wrth natur, nid yn unig o feddwl trefnyddol (*methodical*), ond hefyd o feddwl gwyddonol (*mathematical*). Yr oedd pob ymdrech a wnaeth mewn iaith ac orgraff

yn codi o'i awydd i gael popeth yn gyson a rheolaidd. Yn hyn yr oedd ei gryfder a'i wendid mawr fel ieithydd. Yr oedd am i iaith fyw dyfu ar linellau rhif a mesur. Elai ar draws arfer a hanes, os byddai achos, er mwyn bod yn gyson. Cofio hyn a deifl lawer o oleuni ar rai o'i ddaliadau mwyaf cyffredin.

Pa fodd i ysgrifennu ymadroddion fel " yn Caer," sydd hen gwestiwn ag y mae llawer o daeru ac o ddyfalu yn ei gylch ers oesoedd. Dadleuai Pughe mai " yn Nghaer " a ddylid ysgrifennu, fod ysgrifennu " yng Nghaer " yn ddyblu cydseiniad dyblyg, ac yn peri fod y ddeuair yn ymddangos yn glogyrnog, ac amhosibl cynganu pedair cydsain ynghyd gan Gymro. Hefyd, fod troi " yn " yn " yng " yn drosedd ar reolau'r iaith, gan nad yw *n* yn un o'r cydseiniad cyfnewidiol. Gwyddai'n burion fod *n* yng nghesail *c*, &c., yn cael ei seinio'n *ng* o fewn dim, ond nid oedd achos ei newid, ac ni ddylid ei newid. Cadwodd yn fanwl at y rheol hon er mwyn bod yn gyson. Ysgrifennai *dianc*, *ieuanc*, *tranc*, *gwanc*, *llanc*, ac nid *diangc*, *ieuangc*, *trangc*, *gwangc*, *llangc*. Felly yn y geiriau " yn Nghaer " cadwodd " yn " heb ei gyffwrdd, am fod ei

newid yn drosedd ar ddeddf yr iaith. Newidiodd "C" yn Caer i *Ngh* am fod *C* yn newid yn rheolaidd felly. Nid mympwy o'i eiddo ef oedd hyn, oblegid ceir yr un peth mewn ieithoedd ereill, sef *n* yng nghesail *c* yn mynd yn *ng* mewn sain ond nid mewn ysgrifen (cymh. *uncus*, *unguis*, &c.). Wrth drefnu'r gynghanedd gofallodd yr hen feirdd am reol benodol ar gyfer y "Ceseiliaid," pryd y bydd un llythren yn llyncu'r llall o ran sain ond nid o ran ffurf.

Ceisiodd, er mwyn cysondeb, wneud rheol i wahaniaethu rhwng y blaenddod *di*—a'r blaenddod *dy*,—ond ni fynnai'r blaenddodiaid fynd "dan y ddeddf" mor hwylus ag y dymunai'r Doethor. Yr oedd natur ac arfer yn gryfach na rheol, serch iddi fod yn rheol gyson.

Naturiol oedd iddo wneud llawer o gamgymeriadau wrth geisio bod mor gyson. Engraifft o hynny yw ei waith yn lliosogi geiriau fel,—

gwraig yn gwreigedd,
rhian yn rhianedd,
dant yn dannedd.

Nid efe oedd yr unig un a wnaeth gamgymeriadau tebyg. Yn y *Welsh Ortho-*

graphy ceir “rhian” a “rhiain” yn “rhianedd” yn y lliosog. Os yw “rhian” a “rhiain” yn ffurfiau cywir ar yr unigol, mae’n iawn dweyd fod “rhiannod” a “rhianedd” yn ffurfiau cywir ar y lliosog, am fod y ddau air yn perthyn i ddau ddosbarth o eiriau sy’n lliosogi’n wahanol,—

Rhian—Rhiannod.	Rhiain—Rhianedd.
Lleian—Lleianod.	Gwraig—Gwragedd.
Baban—Babanod.	Celain—Celanedd.
Gwylan—Gwylanod.	Daint—Dannedd.

Ond mynn y beirniaid erbyn hyn nad yw “rhiannod” yn gywir, er ei fod yng Nghymru ers canrifoedd, ac wedi dod i’r Beibl Cymraeg yn 1588—“Eich merched chwi, a’ch rhiannod” (Hosea iv. 13). Dylai bellach fod wedi “ennill ei blwy” yn yr iaith, a cholled i’r iaith fydd ei goll, am ei fod trwy fesur a chynghanedd wedi nythu ym marddoniaeth oreu’r genedl. Onid gwell dwy ffurf nag un? Anwybyddodd Pughe y ffurf *rhiain*, ac anwybyddir heddyw y ffurf *rhiannod*, ac onid yw’n golled heb ei heisieu? Ceisio bod yn gyson sy’n cyfrif am y naill a’r llall, a’r un perygl sy’n bygwith ieithydd ymhob oes.

v. Nodwedd arall yn ei athrylith oedd **PARCHEDIGAETH**—y duedd naturiol oedd ynddo i dalu parch a gwarogaeth i hen bethau, ac i ddigwyddiadau dieithr. Aeth i gariad angerddol â hen goelion a hen arferion y Cymry er yn blentyn. Cafodd y nwyd hon ei choleddu ganddo ar hyd ei oes, nes yr oedd bron wedi mynd yn eilun-addoliaeth yn ei natur. Nid oedd dim yn ormod o aberth i'w wneud er mwyn dod o hyd i hen goel a hen grair yn rhywle, ac os clywai am ddigwyddiad rhyfeddach na'i gilydd aroglai ef o bell, a dilynai ef yn chwannog trwy bob rhwystr. Unwaith clywodd am ymweliad "ysbryd" â rhygwrr o Faldwyn, a bod Gwallter Mechain wedi bod yn ei wastata. Er fod Pughe ar y pryd yn brysur iawn gyda phethau tra phwysig, eto, pan glywodd si yr "ysbryd" anghofiodd bopeth arall, ac ysgrifennodd epistol "difrifol" at offeiriad Manafon yn holi'r hanes. Am nad oedd Gwallter yn taro ati i ateb yn fuan, cafodd lythyr arall oddiwrth Idrison yn ei adgofio o'i ddyledswydd. Y mae'r oheb-iaeth yn argraffedig yn "Hanes Bywyd Charles o'r Bala," ac yn esbonio llawer ar un o'r nodweddion amlycaf yng nghymeriad Dr. Pughe.

Dyma un peth a'i gwnaeth mor egniol fel casglwr a chyhoeddwr hen lenyddiaeth y Cymry. Yr oedd wedi tyfu i'r gwaith, a byddai peidio ei wneud yn llawer mwy o dreth arno na'i wneud. Dyma fwyd a diod ei anianawd ymchwilgar, a phorthwyd hi ganddo hyd at besgiant. Aeth pob llafur llenyddol felly yn un o nwydau cryfaf ei natur, ac aeth yntau o'i wirfodd yn gaethwas i'w nwyd. Yn ei lafur caled cai bleser digymysg. Gallai ddweyd trwy brofiad fel Thomas Warton,—

“ Nor rough, nor barren, are the winding ways,
Of hoar Antiquity, but strewn with flowers.”

Heb hyn, yn ol pob tebyg, buasai y gwaith mawr a wnaeth yn amhosibl. Nid oedd fawr o symbyliad i'w gael yn yr oes honno er calonogi neb i lafurio yn y cyfeiriad hwn, ac heb y nwyd oddifewn, oedd yn troi y llafurwaith yn bleserwaith, prin y gellid disgwyl i doreth y gwaith gael ei gyflawni. Ond yn ffodus yr oedd y sel danbaid a losgai yn ei natur yn goleuo ac yn prydfferthu yr hen ffyrdd anhygyrch. O dan ddylanwad y swyn cerddodd yntau i'r pellteroedd bron heb yn wybod, ac ofnai rhai ei fyned ar brydiau ar grwydr chwith. Hawdd maddeu i wr fel efe—un

o'r hen Geltiaid selog wedi ei lygad-dynnu gan gyfaredd y llwybrau.

Onid os dyma ei gryfder, mae'n rhaid dweyd mai dyma hefyd ei wendid. Yn y nodwedd hon ar ei gymeriad y ffynhonellodd ei gangymeriad mawr. Pan y lle-daenwyd syniadau crefyddol y Southcotaidd yr oeddynt yn apelio'n anwrthwnebol at natur dyner-danbaid fel yr eiddo ef; ac yr oedd rhamant bywyd y "broffwydes" yn wledd o'r fath a garai. Busasai bron yn anaturiol iddo beidio cofleidio y ddysg newydd hon, oblegid bu ar hyd ei oes yn disgyblu ei hun i dderbyn yn ffyddiog, heb ameu dim, ystoriau o'r natur yma. Onid yw ei lyfrau a'i ysgrifau yn brawf o hyn? Yr oedd hen chwedlau y Cymry iddo ef yn ffeithiau credadwy; ac nid fel hanesydd yn unig y croniclai hwynt, ond fel un a gredai'n angerddol ynddynt, ac un a'u parchai bron hyd addoliad. Yr un modd gyda'i gredo Southcotaidd. Gan faint ei sel prin y gallai edrych ar yr hanes a'r athrawiaeth fel hanesydd syml heb droi i dderbyn a chyhoeddi'r daliadau fel proffwyd brwd,—

"For virtue's self may too much zeal be had;
The worst of madmen is a saint run mad."

O'i gryfder y codai ei wendid. Dyna sy'n wir am ddyinion mawr yn gyffredin, y mae eu colliadau yn codi o'u rhagoriaethau. Syrthiodd Abraham fyddlaw'n o ddiffyg fydd fwy nag unwaith; a syrthiodd Moses lariaidd o ddiffyg amynedd fwy nag unwaith hefyd. Yn y peth yr oeddynt yn eithriadol gryf, yn y peth hwnnw yr oeddynt hefyd yn eithriadol wan. Fel rheol, y mae gwendid mawr dyn yn ymyl ei gryfder mawr. Dyna hanes crefyddol Dr. Pughe. Awyddai am hen goelion, ac aeth yn ofergoelus yn eu canol.

vi. Nodwedd arall yn ei athrylith oedd GWLADGARWCH. Ar ol canmol ei alluoedd a'i ymroddiad i wasanaethu ei oes a'i genedl, rhaid ychwanegu, "Am ben hyn oll gwisgodd gariad, yr hwn yw rhwymyn perffeithrwydd." Ei gariad mawr at ei wlad, ei iaith, a'i bobl, oedd yn llywio ei holl fywyd llenyddol a chymdeithasol.

Carai Gymru gyda chariad plentyn, a gwyliai bob symudiad o'i heiddo gyda gofal tad. Ni chafodd na gair na gweithred o'i eiddo beri'r briw lleiaf i'w wlad erioed; ac yr oedd popeth a gyhoeddodd yn lân oddiwrth ddefnydd anfri ar neb o'i gydgenedl. Ni ellir dweyd hynyna,

ysywaeth, am y rhan fwyaf o'i gyfoedion adnabyddus. Cyhoeddodd y Cymreigyddion rai pethau nad ydynt yn ychwanegu'r un cufydd at eu maintioli fel Cymry, nac yn ychwanegu dim at enw da eu cydgenedl. Cymerasant fantais ar lithriadau dynion cyhoeddus i wneud gwawd ohonynt, ac i bardduo Cymru a'i chrefydd. Buasai peth felly'n amhosibl i'r Gwyneddigion tra bu'r awdurdod yn llaw Dr. Pughe a'i gyfeillion. Yr oedd ei chwaeth ef yn rhy bur a llednais i oddef y cyfryw beth, yn neilltuol pan beryglid rhywfaint ar enw da ei gydwladwyr.

Cyhoeddodd Bardd Nantglyn ei lyfr yn 1803, ond er cystal y llyfr, anfoddlon oedd Pughe i bob cân a cherdd sydd ynddo am eu bod yn tueddu i ddarostwng bywyd goreu Cymru; ac yr oedd ef am gadw hwnnw, beth bynnag, yn ddilychwin hyd y gallai. Ystyrir Dafydd Ionawr fel "Bardd Cristionogol y Cymry," ond mae'n amheus iawn a fuasai Pughe yn caniatáu argraffu rhai darnau a argraffwyd o waith ei hen gymydog. Iddo ef buasent yn rhwym o fod yn ddichwaeth, ac yn annheilwng iawn o un o'n priffeirdd. Er fod Dafydd Ionawr a Dafydd Ddu yn grefyddwyr o'r sect fanylaf, eto,

buasai eu cerddi ymrafael yn wrthodedig ganddo ef; a diau y gadawsai iddynt farw o farwolaeth yr annheilwng rhag anurddo cymeriad ei iaith a'i wlad.

Yng ngwaith Dr. Pughe yn dethol ac yn cyhoeddi teimlir fod ei nôd a'i chwaeth yn uchel iawn. Y mae pob llyfr a ddaeth o'i law yn ychwanegiad at anrhydedd y wlad, a phob ysgrif o'i eiddo yn atodiad at fonedd y genedl. Rhaid cofio ei wladgarwch pybyr cyn y gellir deall yn iawn ei amcan yn netholiad ei lyfrau a'i ysgrifau, a chyn y gellir gweled ei ymdrech yn cyfeirio pob frwd i gefnfor gwladgarwch. Uwchlaw popeth, yr oedd yn Gymro twymngalon; ac yng nghanol pob clod yn Llundain, gwyddai'n brofiadol beth oedd iasau "Hiraeth Cymro am ei Wlad."

Petai'n ddim arall mae'n haeddu parch a chlod fel un o Gymry mwyaf gwladgar ei oes. Nid oedd ganddo yr un fwyell i'w hogi, ac yr oedd ymhell iawn o ddyfod dan gondemniad Dr. Johnson yn un o'i ddywediadau cyrhaeddgar,— "Patriotism is the last refuge of a scoundrel," gwirionedd a wireddir hyd yn oed heddyw yng Nghymru. Mantell dros hunanoldeb yw gwladgarwch llaweroedd, ac ni buasent yn ei gwisgo am ddiwrnod

oni bai am ryw elw personol. Ond am Pughe, byddai'n hawddach iddo gael mwy trwy fod yn llai gwladgar; a diameu y buasai rhywrai'n barotach i'w foli petai wedi anghofio ei Gymraeg ac wedi gwadu ei wlad a'i genedl. Ond taniai ei wladgarwch Cymreig nes deifio pob rhodres a mursendod, a chynheswyd calon oer llawer Cymro tlawd yn Llundain yn ymyl ei galon fawr, eiriasboeth ef. Gellir tybio wrth rywrai nad oes gwir wladgarwch yn bosibl ond mewn rhyfeloedd gwaedlyd; ac o blith milwyr a morwyr y codir gwroniaid gwlad yn ol ambell oracl. Clywir rhai yn cyhoeddi eu cariad at eu gwlad o bennau tai, ac oddiar lwyfan yr Eisteddfod yn unig y taera ambell un ei fod yn wladgar. Pe clywai Shakespeare eu lleisiau dywedai'n union,—

“ Speak low, if you speak love !”

Nid oedd raid i Pughe honni peth felly, oblegid y mae gwlad yn adnabod ei charwr wrth reddf. Nid peth i'w honni ond peth i'w ddangos yw cariad; ac nid peth i'w ddangos ychwaith, ond peth i'w guddio. Y mae ei ystyr yn newid os ceisir ei ddangos yn fwriadol. Chwenycha fod o'r golwg ond nis gall fod yn guddiedig.

Efelly Pughe. Ynddo gwelodd Cymru ei chariad, un oedd yn barod i aberthu popeth er ei mwyn, ac un a ymdaflodd i'r weilgi i achub bywyd y Gymraeg heb godi gwaedd uwch adwaedd cyn gwneud. Mor gynnul disgrifiad Gwalchmai,—

“ Ac nid oedd mawl prif urddasolion byd,
Na holl orwychder myg Caerludd a'i pharch
Yn ddigon nerthol i gadwyno'i serch
Rhag troi ei feddwl at ei henaidd wlad.
Mil hoffach ganddo droi i'r bwthyn llwyd
Nac uchel lys boneddwr ffol a balch.”

Gwelir cyfeiriad y gwynt yn osgo'r gwelltyn. Pan gollwyd cymeriad fel hwn, hawdd oedd i'r beirdd gwyno, ac ymollwng i dipyn o ormodiaith,—


“ Mor aethus Cymru weithion—oherwydd
Ei rhagoraf wron;
Ni fu sut y ferros hon
F'wrw ei ail at farwlon.”

GWILYM CAWRDAF.

“ Athraw ffladr, paladr Apolo,—haul yr aeg,
Yn wyl 'roed mewn amdo;
Llyw yr iaith dan dywyll rô,
Cadernid—caewyd arno.

R. TECWYN MEIRION.





Lle bu y Dr. W. O. Pughe farw,



Wrth ysgrifennu fel hyn ni cheisir deffinio ei athrylith, yn unig ceisir nodi rhai o brif linellau ei gymeriad, a'r oll gyda'u gilydd yn gwneud ardeb weddol o'r dyn mawr hwn.

Gwelir fod ganddo un nôd penodol i'w fywyd o'r dechreu i'r diwedd, a'r nôd hwnnw oedd dyrchafu ei wlad. Er mwyn hyn y dygnodd am gynifer o flynyddoedd gyda'r iaith, ac er mwyn hyn y llafuriodd gyhyd gyda'r hynafiant. Trodd bob ffrwd oedd yn ei gyrraedd i wasanaethu ei wlad mewn rhyw fodd, a throdd bob carreg a fedrai i adeiladu'n uwch anrhydedd ei genedl.

I wneud y gwaith teilwng hwn yr oedd natur wedi ei fendithio, nid yn unig âg athrylith neilltuol. ond hefyd â chorff lluniaidd a thywysogaidd. Yr oedd, yng neiriau Cawrdaf,—

“Yn uwch o'i ysgwydd na neb,
Gariai wên hawddgar wyneb.”

Yr oedd yr olwg arno'n taro'r edrychydd âg edmygedd, gan beri iddo ymddiried yn naturiol yng nghyngor ei

“Odiaeth enau doethineb.”

Trigfan gymwys oedd y ty oddiallan i'r preswyllydd urddasol, a chadwodd yntau y ty a'i amgylchoedd yn deilwng o blasdy teg un o dywysogion Cymru.

Gyda'i wisgoedd a'i arferion, syml a diodres iawn ydoedd; gyda bwydydd a diodydd yr oedd yn dra chymedrol. Dywedir mai ei arwyddair ydoedd,—“Nid oes arnaf syched, ac i ba beth yr yfaf.”

Wedi'r cwbl, y mae pob gwir fawredd yn llawer mwy na'i hanes, a theimlir mai dyna sy'n wir am Dr. Pughe. Mawr oedd ei waith, a mawreddog oedd nodweddion ei gymeriad. Ond perthynai rhywbeth aneffiniadwy iddo, a'i gwnai yn nodedig o anwyl a pharchus gan y rhai oedd yn ei adnabod oreu. Y mae yr anwyldeb a'r parch hwnnw yn aros i raddau hyd heddyw, a chenedl yn ei chalon yn ei brisio'n uchel.

O'i ystyried ni cheir cymar iddo yn hanes ein llenorion a'n gwladgarwyr, am fod ei fawredd yn wahanol i fawredd enwogion ereill—nid yn fwy a ddywedir, ond yn wahanol. Am rywbeth tebyg y sieryd Emerson,—

“Nature never rhymes her children, nor makes two men alike. When we see a great man we fancy a resemblance to some historical person,

and predict the sequel of his character and fortune; a result which he is sure to disappoint. None will ever solve the problem of his character according to our prejudice, but only in his own high unprecedented way."

Mor wir yw hyn am Dr. Pughe! Nid yw ei gymeriad yn cynghaneddu'n hollol a chymeriad neb arall. Ni welwyd, ac ni welir ond un Dr. Pughe. Nid oes angen ail argraffiad o hono byth ond hynny, am fod ei waith wedi ei gyflawni, ac amhosibl oedd i neb ond efe ei hun ei gyflawni'n hollol 'run fath.

IV. EI FEIRNIAID.

HANEROG iawn fyddai ymdrin-
iaeth ar Dr. Pughe, heb edrych
arno yng ngoleuni barn ei feirniaid,
yn arbennig ei feirniaid anffafriol.
Dyma'r dreth y rhaid i bob dyn enwog ei
thalu i'r cyhoedd—ei farnu a'i gon-
demnio; a bu raid i Pughe dalu treth drom
iawn am iddo ddod mor adnabyddus.
Cododd amryw o dro i dro i'w gon-
demnio; a bellach y mae wedi bod dan y
fflangell gan rywrai am dros gan mlynedd,
fel dyn, fel llenor, ac fel ieithydd. Gwir
iawn yw y gair hwnnw yn ei hanes ef,—
“ Y saethyddion fuant chwerw wrtho ef.
ac a saethasant, ac a'i casasant ef.” Tost
fu eu dig, a chreulawn eu llid tuag ato;
ac y mae surni ymadroddion llawer o hon-
ynt yn brawf nad oedd eu hysbryd yn
hollol iach, na'u barn yn hollol deg a di-
duedd. Mae'n ddigon gwir fod bywyd,
gwaith, ac athrylith Dr. Pughe yn des-
tynau oedd yn cymell beirniadaeth.
Trwy eu pwyso yng nghlorian barn, a'u
mesur wrth real beirniadaeth y gellid eu
prasio, eu gwella, a'u perffeithio. Ond i

wneud hynny'n deg yr oedd yn rhaid wrth gorsen uniawn, a chlorian cywir. Wrth farnu, anghofwyd yn rhy fynych lawer un o reolau euraidd y bardd Pope,—

“ In every work regard the writer's end,
 Since none can compass more than they intend ;
 And if the means be just, the conduct true,
 Applause, in spite of trivial faults, is due.”

Rhai o'r beirdd fu'n fwyaf llawdrwm arno; a phrin y gellid disgwyl tegwch o fath yn y byd gan rai oedd yn cenfigennu wrth ei lwyddiant, ac yn suro wrth ei feirniadaethau.

Er mwyn hwylustod, gellir rhannu condemnwyr Dr. Pughe i dri dosbarth, a chynrychiolydd amlwg i bob un o'r tri dosbarth yn hanes llenyddiaeth Gymreig.

I. Y DOSBARTH PERSONOL.

II. Y DOSBARTH LLENYDDOL.

III. Y DOSBARTH IEITHYDDOL.

Nid oddiar yr un tir yn hollol yr edrychir arno gan y tri dosbarth, ac nid am yr un rhesymau'n union y condemnir ef ganddynt; ond unant i geisio'i wawdio yn fwy na'i farnu, ac i'w erlid yn fwy na'i feirniadu.

Gellir cwyno'n deg fod y tri dosbarth yn tueddu i wneud cam â gwr yn ei fater, gan ddal ar bob cyfle i'w gernodio'n ddigon diachos. Ni honnir am foment y dylid derbyn ei ddaliadau, na dilyn ei arweiniad, nac ymostwng i'w ddeddfau a'i reolau; ond yn sicr dylid ei barchu fel un a aberthodd ei fywyd ar allor gwladgarwch, ac fel un a adawodd ddylanwad dyrchafol ar lenyddiaeth y genedl.

Ceisir dangos mor unochrog y trinig ei gymeriad a'i waith gan y dosbarthiadau hyn, ac mor angharedig y cyfeirir ato yn eu hysgrifau.

I. Y DOSBARTH PERSONOL.—Codir tri o bersonau neilltuol o'r dosbarth hwn gan feirniaid diweddar fel tystion yn erbyn Dr. Pughe; sef, Iolo Morgannwg (1746—1826), Dewi Wyn o Eifion (1784—1841), a Robert Southey (1774—1843)—y tri hyn, a'r mwyaf o'r tri hyn yw Iolo Morgannwg.

Gwr hunan-ddysgedig oedd Iolo, a ddaeth yn enwog fel bardd a hynafiaethydd. Dechreuodd ei yrfa fel saer maen cyffredin, ond trwy ddyfalwch cyrhaeddodd enwogrwydd nid bychan. Yn 1770, aeth i Lundain, yn wr ieuanc pedair

mlwydd ar hugain oed. Ymhen dwy flynedd ymaelododd yng Nghymdeithas y Gwyneddigion. Yn 1777, ymadawodd â'r brif-ddinas, ond cadwodd ei aelodaeth yn y Gymdeithas, ac ymwelai â hi'n fynych o Gymru. Cyflogwyd ef gan Owain Myfyr i gasglu hen lawysgrifau prin yn y wlad, ac i fod yn gyd-olygydd yn nygiad allan yr *Archæology*. Ymddengys mai Pughe oedd y prif olygydd, a'r ddau arall yn gynorthwywyr iddo. Gan fod Iolo yn wr o alluoedd diamheuol, cafodd bob cyfle a chefnogaeth gan y Gwyneddigion i wneud y goreu o'i dalentau, ac elent allan o'u ffordd i'w gydnabod a'i ganmol. Yn Rhagymadrodd y *Geiriadur*, dyma ddywed Pughe, er nad oedd achos iddo gydymaint ag enwi Iolo,—

“ I am indebted to another fellow-labourer in exploring the treasures of Cymric lore—my friend Edward Williams, the bard of Glamorgan, author of ‘Poems, Lyric and Pastoral’ in two volumes. He is one of the last of those very few remaining, who have been regularly initiated into the primitive order of the Bards of the Isle of Britain,—the only one now that is capable of unfolding its mysteries to the world, and if he be not fostered to accomplish his projected work of its history, the whole of that wonderful institution will be nearly forgotten.”

Anodd oeda parchu ac anrhydeddu neb mewn ffordd foneddigeiddiach, ac mewn geiriau caredicach.

Yr oedd Iolo'n dra gwahanol i Pughe yn y peth hwn. Nid oedd ganddo eirda braidd i neb o'i gyfoedion, ac yr oedd ei iechyd bregus wedi ei wneud yn sur a rhagfarnllyd. Yng nghanol ei hynodion ereill yr oedd yn hynod o ddiddiolch ac anfoddog, ac yn ymyl bai felly mae beiau ereill bron yn rhinweddau, ys dywed Young,—

“He that's ungrateful has no guilt but one;
And other crimes may pass for virtues in him.”

Ni phetrusai Iolo fwrw llysnafedd hyd yn oed ar ei gymwynaswyr goreu. Yn 1792, dywed am y Gwyneddigion, oedd wedi gwneud cymaint iddo ef, ac wrthi'n brysur yn gwneud cymaint i Gymru,—

“I was one of the first members in 1772. It was at first whimsical, became afterwards ridiculous, and is now detestable. Why, there are amongst them some very eminent coal-heavers, porters, scavengers, chimney-sweepers, knaves and fools of every class. The committee—the cleverest of these d—n clever fellows—meet every Monday night at the Crindy (Bull's Head)—a very creditable low house in Walbrook Street.”*

* *Geninen*, 1896 tud., 114.

Ni raid ond cofio pwy oedd y Gwyneddigion yn y blynyddau hynny i weled faint o bwys a ellir roddi ar wawdiaith Iolo. Yr un adeg ag yr ysgrifennai fel yna yr oedd yn medru cyfarch y Gwyneddigion, y rhai pennaf o honynt, mewn geiriau mwyn a melfedaidd dros ben.

I ddyn uchelgeisiol fel efe yr oedd pob siomedigaeth yn suro'i ysbryd. ac yn aml yr oedd ei uchelgais yn codi o ysbryd hunanol a chwyddedig. Dywedir ei fod yn credu'n onest mai efe a ddylai fod yn Fardd Brenhinol y deyrnas, ac er mai bach oedd ei adnabyddiaeth o Cowper, eto ceisiodd ganddo ef ac ereill arfer eu dylanwad o'i blaid. Yn 1790, enfyn Cowper lythyr chwareus at Lady Hesketh,—

“ You will wonder when I tell you that I, even I, am considered by people, who live at a great distance, as having interest and influence sufficient to procure a place at Court for those who may happen to want one. I have accordingly been applied to within these few days by a Welshman, with a wife and many children, to get him made Poet-laureate as fast as possible. If you wouldst wish to make the world merry twice a-year, thou canst not do better than procure the office for him. I will promise thee that he shall afford thee a hearty laugh in return, every birthday, and every new year. He is an honest man.

W. C.”

Anodd oedd i ddyn fel Iolo fynd trwy'r byd helbulus, a'r bywyd siomedig hwn, yn foddog iawn.

Nid oedd Iolo'n barod i gydnabod neb ond efe ei hun yn awdurdod o fath yn y byd ar y Gymraeg. Yn 1805, pan y bwrriedid dwyn y *Greal* allan, anfonodd lythyr maith a charuaidd at Owain Myfyr, gan ddweyd,—

“Goronwy Owain's prose writings are full of barbarisms. You will be startled at this, but if you wish it, I can easily point them out to you. The Welsh of Lewis Morris is little better than that of a Hottentot. Evan Evans [y Prydydd Hir] wanted the ease of Goronwy Owain, had he possessed it his language would have been very tolerable, but his stiffness disgusts everyone possessed of a good ear, and a good taste, &c.”

Dyry gyfarwyddiadau lawer ar y modd y dylid iawn drefnu cylchgrawn fel y *Greal* yn deilwng o Gymry Llundain, gyda sicrwydd nad oedd yr un Cymro yn eu plith hwy yn alluog i wneud hynny. Ond ryw-fodd, ni roddwyd yr olygyddiaeth i Iolo, ac ni ddiolchwyd iddo ychwaith am ei syniadau.

Ym marn Iolo, clytwaith afrwydd oedd “*Salmau Cân*” Edmund Prys. Mynnai wneud gwell cyfieithiad lawer ei

hun; ac yn 1812 cyhoeddodd ei "Salmau yr Eglwys yn yr Anialwch." Fodd bynnag, myn barn gwlad hvd heddyw mai camp-waith yw Salmau Prys, ac anwybyddir Salmau Iolo gan wreg a bonedd. Ar ol ymddanghosiad ei lyfr drwy'r wasg, cyhoeddwyd penhillion gwawdlym yn y *Gazette*, o waith un o feirdd Arfon— Dafydd Ddu Eryri, os gwir y chwedl. Y maent yn dechreu fel hyn,—

"Pwy ydyw'r dyn ynfyd, heb ddawn ac heb ysbryd,
A feiddiodd mor waglyd agoryd ei gerdd?
Y Salmau Duwiolion mewn sothach anghyson,
Lle rhoes y Diagon Flodeugerdd!

"Rhyw brydydd briwedig, greadur llygredig,
O feddwl chwyddedig, uwch llithrig fro'r llwch;
Och! ceisiodd nid cyson, mewn awydd yn eon,
Ddiddymu'r Diagon o'i degwch."

Nid oedd yr un enwad crefyddol yng Nghymru yn gwbl wrth ei fodd ychwaith, a hwyrach na raid rhyfeddu rhyw lawer am hyn. Ond y syndod yw fod Iolo yn meddwl y gallai ef ffurfio enwad crefyddol perffaith; a bwriadai ysgrifennu llyfr i ddangos fel yr oedd pawb yn cyfeiliorni, dan yr enw "Ymweliad y D——l ag

Eglwysi Cymru." Ond ni ddaeth y llyfr na'r enwad byth i'r golwg. Honnai Iolo ei fod ef yn Undodwr mewn rhai pethau, yn Grynwr mewn pethau ereill, yn Fethodist yn nhrefn y weinidogaeth, ac yn Fedyddiwr mewn bedydd.

Hawdd gweled mai dyn hynod oedd Iolo, yn meddu gallu mawr, ond dynoliaeth wael. Cythruddwyd y rhan waelaf o hono gan siomedigaethau bywyd, a throdd yntau i gnoi a thrafflyncu ei gyfeillion goreu. Gwnaeth hynny'n gudd am flynyddoedd, ac o'r diwedd gwnaeth hynny'n goedd, heb wrid ar ei wyneb.

Ymhlith ereill, bu Pughe a'r Myfyr dan gabledd ganddo, ac nid oedd ball ar ei ensyniadau bryntion. Yn 1810, ceisia'n gas wneud rhwyg rhyngddynt a'r cyhoeddwr. Mewn llythyr ato dywed,—

"I thought Mr. Owen, at one time, a bit of a philosopher. I also thought Owen Myfyr to be an honest man; how I have been mistaken in such opinions"

Ond Pughe oedd prif wrthrych ei gasineb, er ei fod yn proffesu peth arall. Man-teisiai ar bob cyfle i'w ddirmygu; ac nid yw'r llenorion hyd y dydd hwn yn fyrr o gyhoeddi'r dirmyg drachefn a thrachefn,

gan ofalu dweyd mai Iolo Morgannwg yw'r tyst. Dyma rannau o'i dystiolaeth am Pughe,—

(1) "The greatest fool in existence—" Hudlewyn mawr y Gwyneddigion."

Dyna syniad Iolo am ei gyfeillion, ond cydnebydd heb geisio mai Dr. Pughe oedd y dylanwad mwyaf ymhlith y Gwyneddigion, y rhai a gyflawnodd y gwaith pwysicaf yn hanes llenyddiaeth Gymreig erioed.

(2) Y mae ei orgraff yn "anferthwch cywilyddus" yn "ffieiddbeth," yn "fudreddi," &c.

Yn ei Ragymadrodd i "Salmau'r Eglwys" y ceir y geiriau clasurol hyn. Prif beth beirniadaeth ydyw chwaeth; dyna chwaeth Iolo wrth drefnu addoliad y cysegr, yr hyn a brawf nad yw ei farn yn werth dim.

(3) Nid yw Coll Gwynfa ond "Coll Miltwn," a "Rhigwm y Rhew Mawr."

Y condemniad mwyaf ar farn Iolo yw beirniadaeth alluog Dr. Lewis Edwards, a ddyfynwyd eisoes. Dywed yr athro dysgedig, petai Milton yn canu ei gân fawreddog yn y Gymraeg, mai yn lled

debyg i gyfieithiad gorchestol Dr. Pughe yr ymddanghosai, yn ol ei farn ef. Gellid meddwl y buasai sylwadau Dr. Edwards yn 1850 yn derfyn byth ar wawdiaith wâg Iolo Morgannwg; ond yn 1869 ailgyhoeddwyd sylwadau Iolo fel geiriau gwirionedd a sobrwydd, a dyfynnir hwynt heddyw fel geiriau oracl gan gaseion Pughe.

(4) "In the WELSH ARCHAEOLOGY he has altered the orthography into that of his dictionary and grammar, thus forging fictitious authorities for what he has done."

Fel yna yr ysgrifenna Iolo at y Parch. T. Rees yn 1813, gan gyhuddo Pughe o anonestrwydd anesgusodol. Y mae y sylw yn cydnabod mai yng ngofal Pughe yn bennaf yr oedd yr ARCHAEOLOGY; ond yn anffodus i Iolo nid yw orgraff y llyfr yn cyfateb i orgraff y Geirlyfr na'r Gramadeg. Pe dymunai dwyllo, gallai wneud hynny'n llawer mwy effeithiol. Onid y gwir yw mai'r "mwy'a'i fai parota'i feio" sydd yma? Onid rhywbeth tebyg oedd asgwrn y gynnen rhwng Myfyr a Iolo? Nid bob amser yr oedd Iolo uwchlaw amheuaeth, ac yn 1809 cydnebydd wrth y cyhoeddwr fod yn ei feddiant lawysgrif a

ddylai fod ym meddiant O. Myfyr, ac yn ganlynol yn yr ARCHAIOLOGY,—“had not his conduct towards me,” ebe Iolo, “excited suspicions that I found to be very just.” Yn yr un llythyr ceisia gan E. Williams chwilota rhywbeth am Owain Myfyr er mwyn iddo ei gael yn ei “History of my Life,” ac y mae rhediad y llythyr yn awgrymu'r fath chwedlau a garai. Y mae llythyrau Iolo, a'i awydd angerddol i ddifrio ei gymwynaswyr gynt, yn ddigon o brawf nad oedd popeth yn iawn. Beth am yr Iolo MSS.? Onid y syniad cyffredin yw nad ydynt amgen flug disail, o waith Iolo ei hun, neu rywun tebyg iddo? Y mae orgraff rhai o honynt yn ddiweddar, a'r iaith yn ddiweddarach fyth. Y mae y rhannau a elwir “Dosparthau Cerdd Dafod,” “Dosparthau Cadair Tir Iarll,” “Dosparthau Ceraint Fardd Glas,” yn ddigon tebyg i gynnyrch “Rhol Cof a Chyfrif” rhywun yn y ddeuawfed ganrif.

Mae'n wir i Ap Iolo amddiffyn yn ddewr ddilysrwydd y MSS., a gonest-rwydd ei dad. Ond nid oedd raid gwneud ymdrech gymaint oni bai fod rhywbeth o'i le ym marn ac argyhoeddiad y wlad; ac erys yr amheuaeth yn ddwfn hyd heddyw.

Dyma ddywed yr Athro J. Morris Jones,—

“Barn y Celtig Ddafis, a adwaenai Iolo a Phuw, oedd fod Iolo'n euog o ffigio, a dywedodd Silvan Evans wrthyf nad oedd Iolo mor onest ag y tybiwn i yn fy erthyglau . . . ond rywsut yr argraff a edy Iolo yw mai penboethyn oedd, na thwyllasai heb fod wedi ei dwyllo.”†

Dylid bellach adael i Iolo heb ei labedu'n ddiiddiwedd fel “Iolo onest,” “Iolo gywir,” “Iolo ddiniwed,” &c. Nid oes raid i ddyn gonest a chywir wrth unrhyw labed o'r fath.

Er gwaethaf popeth parhaodd Pughe a Iolo ar delerau heddychol â'u gilydd yn hir. Yr oedd Pughe yn ormod o foneddwr i ymliw â gŵr oedd mor chwannog i wneud hynny dan gudd. Gwyddai ei fod yn wr o alluoedd eithriadol, a thosturiai wrth ei ysbryd cul a rhagfarnllyd, gan faddeu iddo ei wendidau lawer. Yr oedd peth felly'n pentyrru marmor tanllyd ar ben Iolo, ac yn lle ei wella, yn ei waethygu. Fel yr esgynnai Pughe mewn parch ac anrhydedd, disgynnai Iolo i'w grogen mewn cenfigen anniddig, ac o'r diwedd aeth yn annioddefol o drahaus, fel y bu

† *Y Beirniad*, i. 71.

raid terfynu y cysylltiad oedd wedi bod rhyngddynt am dros ddeugain mlynedd.

Fel hyn yr ysgrifenna J. W. Prichard, Plas y Brain, mewn llythyr dyddiedig Mai 3, 1822,—

“Yr wyf yn deall fod Iolo Morgannwg a Gwilym Owain Pughe wedi syrthio allan a'u gilydd; ni soniodd Davies Wylt un gair pa beth ydoedd yr achos iddynt sorri. Buasai yn dda i Mr. G. O. Pughe pe nas gwelsai erioed wyneb Iolyn; dyn ar ddrygau bob amser, ac yn dyfeisio rhyw gelwyddau i geisio twyllo'r byd, ac wrth hynny, nid yn unig tyngu dirmyg a gwaradwydd arno ei hun, ond fe barodd lawer o ddirmyg ac anfri ar enw Mr. G. O. P. Och fi! Duw a'n gwaredo rhag syrthio i rwyd y cyfryw *anghen-fit*.” †

Ar ol hyn aeth ei genfigen yn ddialedd; ac y mae ei nodiadau di-alw-am-danynt yn y llyfr “Cyfrinach y Beirdd” yn dangos fod ei ddialedd yn farwol.

Ymha le bynnag yr oedd cuddiad cryfder Iolo, mae'n sicr mai nid yn ei allu i farnu ei gyfeillion yr ydoedd; ac y mae ei alw'n dyst ar fater felly yn gymaint o gam â Iolo ei hun ag ydyw o gam a chymeriad y cyfeillion.

† *Y Traethodydd*, 1884, tud. 29.

Yr oedd Southey yn gryn gyfaill ar un adeg i Iolo, a thybïai y bardd ei fod yn berl o uchel bris ym marchnad llenyddiaeth yr oes. Dyma ei eiriau,—

“ Iolo, old Iolo, he who knows
The virtues of all herbs of mount or vale,
Or greenwood shade or quiet brooklet's bed ;
Whatever love of science or of song
Sages and bards of old have handed down.”||

Yr oedd y ffaith ei fod yn gyfaill i Iolo yn ddigon o sicrwydd nad oedd ganddo fawr o feddwl o Gymry Llundain. Yr oedd yr hyn a wyddai y bardd am Pughe, a'r hyn a glywai am dano gan Iolo, yn anghyson iawn, ac yn tueddu i dywyllu cyngor, gan eu bod yn gwbl annhebyg i'w gilydd. Mewn gair, yr oedd yn *muddy-minded* yn ei gylch, a phriodolodd hynny i Pughe.

Cystadleuydd siomedig oedd Dewi Wyn o Eifion, a phan y cynhyrfid ei dymer yr oedd yn ffyrnig ac yn frwnt. Mae'n wir ei fod yn byw mewn oes nad oedd wedi dysgu dioddef siom mewn cystadleuaeth yn anrhydeddus. Eben Fardd oedd un o'r rhai cyntaf i ddangos i'r byd y gellid cadw anrhydedd er colli gwobr.

|| Madoc, by Southey.

Nid oes hanes iddo ef gwyno erioed yn erbyn na beirniad na phwyllgor, er iddo gael ei annog i hynny fwy nag unwaith. Gwahanol iawn oedd Dewi Wyn. Fffromai ef yn aruthr, a gwae y neb a ddeuai ar ei ffordd. Nid oedd dim yn rhy eithafol ganddo i'w ddweyd, a bwriodd ei lid yn afresymol ar Dr. Pughe a'i gyfeillion. Cyn iddo gael ei siomi am wobr yr oedd ganddo syniad uchel am y Gwyneddigion,—

“Gwyneddig awenyddion—heb wyrni
Y barnant orchestion;
Os heb y Gymdeithas hon
Nid arab Llundain dirion.”§

Ond ar ol y siom y mae'r gân yn newid,—

“Nodi'n g'oedd ynadon gau,
Nes crinais eu coronau;
Cymyredd yw camwri
Wnai blaidd fy meirniaid i mi.”

Ceisiai lindagu yr un a fernid yn drech nag ef mewn cystadleuaeth; felly y gwnaeth gyda Gutyn Peris, a'r Dryw, er nad oedd ganddynt hwy ddim i'w wneud ond ymostwng i ddyfarniad y beirniaid.

Digwyddodd i'r dysgedig Iwan gymeryd benthyg rhai o'i linellau i ddangos

§ *Molawd Ynys Prydein.*

caethder y mesurau; ond dechreuodd Dewi ffyrnigo'n wallgofus, a llarpio'r di-niwed hwnnw.

Yn ei berthynas â Pughe, dywed Caledfryn,—

“ Nid allai adael llongydd i'r boneddigaidd William Owen Pughe heb ei lurgunio oherwydd ei ddaliadau crefyddol, gan osod y gŵr a wnaeth fwyaf o neb dros yr iaith Gymraeg yn brif-ferthyrwr iddi. Y mae efe yn rhedeg i eithafon af-resymol yn ei ddirmyg. Pa ddyn yng Nghymru a gawsai ei oddef ond efe, i son ar ddu a gwyn am i'r athraw

‘ Dynnu ei gred, &c.’

Y mae y llinell hon, nid yn unig yn ffaidd, ond yn afresymol i'r eithaf. Y mae yn drueni i gyhoeddwyr gwaith Dewi Wyn, ddodi yr awdl yma, ynghyd ag amryw ddarnau yn ei berthynas a'r ddadl ag Iwan, yn y casgliad. Gallasai y byd barddonol wneud hebddynt; ac nid ydynt yn gwneud dim heblaw dynoethi gwendid a fflinib eu hawdur, gan ddangos y meddyliau anfeidrol oedd ganddo am dano ei hun, a'i allu-oedd.”¶

Ni buasai'n werth son am Iolo na Dewi ar fater fel hyn, oni bai fod y ddau yn cael eu dyfynnu'n ddibaid gan ddyinion sy'n hoffi erlid Pughe.

¶ *Y Traethodydd*, 1853, tud. 188.

Ceir rhai heddyw yn honni eu bod am godi safon beirniadaeth yng Nghymru, ac am lanhau pob llys barn mewn llên a chân; ac eto galwant yn awchus ar wyr fel Iolo a Dewi, nid yn unig i dystiolaethu yn erbyn Dr. Pughe, ond hefyd i eistedd yn farnwyr ar ei gymeriad a'i alluoedd.

Y mae coffadwriaeth y gwladgarwr hwnnw yn teilyngu rhywbeth annhraethol well na chael ei daflu i'w ddarnio gan fwystfilod fel cenfigen, malais, a siom.

Hwyrach y dylid tosturio wrth Iolo a Dewi am mai dynion siomedig oeddynt, ac am eu bod yn credu'n gam neu gymwys, mai Pughe oedd achos eu siomedigaethau. Dan deimladau briw yr oeddynt hwy yn llefaru. Ond am ereill, sydd yn hoffi gloddesta ar eu tystiolaeth yn erbyn Pughe, y mae'r achos yn dra gwahanol.

II. Y DOSBARTH LLENYDDOL.—Gellir cymeryd Cynddelw (1812—1875) fel cynrychiolydd y dosbarth hwn, ac ato ef y cyfeirir yn fynych fel awdurdod ar y pwnc. Prin y mae angen dweyd mai gweinidog enwog oedd y Parch. R. Ellis, yn fardd a hynafiaethydd gwych, ac yn awdwr amryw lyfrau gwerthfawr. Yn 1869, cyhoeddwyd ail-argraffiad o "Flod-

au Arfon " Dewi Wyn, gydag atodiad helaeth. Yn blaenori ac yn dilyn yr Atodiad ceir sylwadau miniog ar y Gwyneddigion ac ar ddigwyddiadau bywyd ac athrylith Dewi Wyn, gan Cynddelw. Amcan sylwadau Cynddelw yw amddiffyn Dewi am ei ymosodiadau ar Pughe, a cheisio ei esgusodi, os nad ei gyfiawnhau, am lunio a chyhoeddi un o'r llinellau mwyaf dichwaeth yn yr iaith. Yn y *Gwyddoniadur* ceir ysgrif alluog ar Dr. Pughe gan Cynddelw, ac yn niwedd yr ysgrif honno y mae rhan o'r "Atodiad" mewn ffurf o ddyfyniad. Gwneir esgusodion dros roi'r dyfyniad i mewn, ond nid digon i beri iddo beidio bod yn anaf hyll ar ysgrif ragorol.

Pan ddywedir mai Iolo, Dewi, a Southey—dau Gymro siomedig a Sais rhagfarnllyd—yw'r prif dystion gan Cynddelw yn erbyn Pughe, ceir rhyw syniad am waeledd yr achos, a salw iawn yw y ddadl er galluedd y dadleuydd. Cymerer y gosodiadau canlynol o'r Atodiad er mwyn gweled mor annheg ydynt. Am y Gwyneddigion,—

"Ymddengys mai eu prif amcan ar y cyntaf oedd cyfarfod â'u gilydd mewn tafarndy i ym-

lonni mewn difyrrwch Cymreig, canu penillion, mygu tybaco, &c." (tud. 187).

Eu prif amcan ar y cyntaf, fel y cofnodwyd yn barod, oedd noddi llenyddiaeth Gymreig, ac y mae'r gwaith mawr a gyflawnwyd ganddynt yn brawf dilys mai nid haid o oferwyr oeddynt. Mae'n ddigon hysbys mai'r dafarn oedd yr unig fan cyfarfod a ellid gael i amcanion o'r fath y pryd hwnnw. Hyd yn oed yng Nghymru, bu'r Eisteddfod yn crwydro o dafarn i dafarn am oesau; ac mewn lleoedd tebyg, o ddiffyg unlle arall, y cartrefai'r Cymdeithasau Cyfeillgar, y clybiau elusenol, &c., a bu Cynddelw ei hun yn mynychu rhai o honynt yn selog. Nid gweddus oedd i'r Gwyneddigion ymwisgo mewn sachlian a lludw wrth wyllo gwawr y deffroad yn torri.

"Ni welsom gofnodau am eu gwaith yn yfed ac yn cyfeddachu?" (tud. 187).

Gan mai Pughe yw nôd y saethau, y mae'r awgrymiad yn anegusodol. Yn y *Gwyddoniadur*, dyma eiriau Cynddelw,—
"Yr oedd Dr. Pughe yn dra chymedrol mewn bwydydd a diodydd yn wastadol,—ei arwyddair ydoedd, 'Nid oes arnaf

syched, ac i ba beth yr yfaf?' ac i hyn y rhaid priodoli iddo fwynhau iechyd mor dda am oes faith, tra yn llafurio mor ddyfal."

"Eisteddant o gylch y 'bwrdd crwn yn y Crindy, a phob un a'i bibell yn ei ben yn mygu" (tud. 187).

Y mae gan bob dyn ryw hobi, a chan lawer o ddynion mawr arferion rhyfedd. Yr oedd gan Cowper ei ysgyfarnog, gan Syr Joshua Reynolds ei aderyn bach, a chan Iolo Morgannwg ei gwpan dê. Ni raid synnu fod gan y Gwyneddigion "bob un ei bibell"; ac ni ddylid ceisio'u gwneud yn gyff gwawd o achos hyn, neu rhaid difreinio rhai o oreugwyr y genedl.

"Bu *match* ryfedd o fygu unwaith rhwng Dr. W. O. Pughe ac un o'r aelodau, yr hyn a barodd lawer o chwerthin a difyrwrch i'r Gymdeithas. Mygu i wynebau eu gilydd yr oeddynt, a'r cynta i gollu ei wynt, pesychu, a chorndagu, oedd i gollu'r frwydr. Dr. Pughe a gafodd y fuddugoliaeth" (tud. 187).

Gellid meddwl mai pechod mawr y Gymdeithas oedd chwerthin, a mwynhau ychydig ddifyrwrch diniwed. Ac mai pechod mawr Pughe oedd mygu, a bod yn well mygwr na neb o'r cwmni.

“The man that loves and laughs must sure do well,”

ebe Pope. Yr oedd y Gymdeithas yn rhy naturiol i fod yn Phariseaidd, a Pughe yn rhy fachgennaidd i wisgo galarwisg ond pan byddai raid. Plant ystafell briodas llenyddiaeth y canrifoedd oedd y bobl hyn, a phriodol iddynt oedd mwynhau ychydig lawenydd.

“Bu Bardd Nantglyn yn eu plith tua 1800, a chyfansoddodd y rhigwm a elwir ‘Ewyllys Adda’ i’w adrodd, meddir, fel *interlude* yn eu cyfarfodydd” (tud. 187).

Diben y mân hanesion hyn yw dangos fel yr oedd Dewi yn rhagori ar y Gwyneddigion. Beth bynnag am “Ewyllys Adda,” y mae’n llawer mwy chwaethus, a mwy diwenwyn nag “Awdl yr Adebau” gan Dewi Wyn.

“Nis gallwn ni yn ein byw weled dim yn y traethodl hwnnw [yr ‘Ewyllys’] ond ddirmyg ar bob ffurf o grefydd sydd yn ein plith, ac nid yw y mymryn blawdwyneb a ddyry i Eglwys Loegr ar y diwedd ond hug druenus o deneu ar halogedigrwydd y cyfansoddiad” (tud. 188).

Gweled gormod o ddirmyg ar ffurf o grefydd yn ein plith a barodd i feirniaid

Elusengarwch hefyd wrthod ei gwobrwyo hithau. Os oedd dirmygu crefydd yn bechod yn Mardd Nantglyn, onid yw'r un peth yn bechod yn Newi Wyn hefyd? Paham y mae Cynddelw am wobrwyo un a chosbi'r llall am yr un bai? Ond y mae hyn o wahaniaeth—cyfansoddodd Bardd Nantglyn ei gân ar ei gyfrifoldeb ei hun, heb ofyn cymeradwyaeth neb; gofynnodd Dewi am gymeradwyaeth yr Eisteddfod i'w gân ef, ac am iddi wrthod y codwyd terfysg.

“ Meddyliwch am nifer o ddynion yn cyfarfod mewn tafarndy i actio ‘Ewyllys Adda,’ a barnwch am yr effeithiau ” (tud. 188).”

Ar tuadlen 111 o “Flodau Arfon” ceir hanes nifer o feirdd yn actio “Cywydd Difyfyr” Dewi Wyn, yn y Betws Fawr, sef Dafydd Ddu, Gwyndaf Eryri, Robert ap Gwilym Ddu, a Dewi Wyn. Gwardio'r beirdd, yn arbennig un bardd, Gutyn Peris, a chanmol eu hunain i'r entrychion, yw sylwedd y cywydd gwyntog hwnnw. Faint mwy o ddrwg oedd actio “dirmyg ar y ffurfiau” yn ystafell y beirdd yn Llundain, ac actio dirmyg ar bersonau ar aelwyd y Betws Fawr yng

Nghymru? “Barnwch am yr effeithiau.”

“Yn y dosbarth hwn hefyd y perthyn cerdd ‘Gwenno Bach.’ Yr oedd rhyw lefarwr gyda Chymry Llundain wedi dangos rhyw anwadalwch carwriaethol, &c. . . . Argraffwyd y gerdd ar draul y gymdeithas er mwyn poeni y crefyddwyr” (tud. 188).

Cam-dystiolaeth yn erbyn y Gwyneddigion ydyw hyn. Nid oedd a wnelo'r Gwyneddigion ddim â helynt caru Edward Jones. Cymdeithas arall, y Cymreigyddion, fu'n ymhel â'r gwaith sydd yn un o'r pethau mwyaf anesboniadwy yn hanes y Gymdeithas honno. Ond rhag i neb gael ei gam-gyhuddo bu'n ddigon gonest i ddweyd wrth y darllenwyr,—“Nyni, Cymdeithas y Cymreigyddion yn Llundain,” oedd yn gyfrifol am y llyfr, ond nid yn atebol am y beiau oedd ynddo. Digon i bob Cymdeithas ei drwg ei hun.

“Ni byddai yr aelodau bob amser yn cydfod mewn tangnefedd gyda'u gilydd” (tud. 188).

Onid yw hynny'n wir am bob cymdeithas ar y ddaear? Rhaid mynd i fyd arall i ganu,

“Mae pawb o'r brodyr yma'n un
Heb neb yn tynnu'n groes.”

“ Bu ffræ fawreddog rhwng dau o'r aelodau, sef Dafydd Samwel (*y Meddyg Du*) a Neð Môn. Penderfynwyd ymladd *duel*. Aeth y meddyg gyda Iolo Morgannwg fel ei *second* i dŷ Dr. Pughe i chwilio am y gelyn ” (tud. 188).

Condemnir yr holl Gymdeithas am fod rhai cwerylgar yn perthyn iddi. Ar y tir yna gellid condemnio pob cymdeithas a welwyd erioed. Ond yn y nodiad ymddengys Iolo mewn lle rhyfedd, gan fod rhywrai am ei wneud yn arwr heddwch a thangnefedd, ac un oedd yn cashau pob ymladd â chas cyflawn.

“ Yr ydym yn nodi rhyw fân bethau fel hyn i ddangos nad oedd y Gwyneddigion, er eu holl genedlgarwch, uwchlaw colliadau ” (tud. 188).

Hyd y gwyddom, nid oedd neb erioed wedi honni eu bod uwchlaw colliadau, mwy na rhyw ddyinion da ereill. Ond os nad oedd eu colliadau yn annhraethol fwy na'r hyn a noda Cynddelw, mae'n rhaid eu bod wedi cyrraedd tir pur uchel uwchlaw colliadau. Cyflogwyd Cynddelw i'w mellidithio, ond i feddwl diduedd y mae popeth a ddywed bron a throi'n fendith ar eu pen. Y maent yn ddyinion naturiol, ac mor ddyinol a phlant.

Am Dr. Pughe,—

“ Ni chynygiwn ysbeilio y Dr. Pughe o'i fri fel llenor a gwladgarwr Cymroaidd ” (tud. 36).

Cynhygiad beiddgar at ei ysbeilio o bopeth yw y sylwadau. Gelwir Iolo ymlaen i geisio profi fod gwall-bwyll arno, a'i fod wedi “ colli ” rhywbeth heblaw Milton. Ac “ yr oedd Dewi yr un farn a Iolo ” !

“ Ond beiddiwn ddyweyd nad oedd efe yn gymhwys i farnu gwaith Dewi Wyn, mwy nag yw'r ddalluan yn addas i farnu cerddoriaeth yr eos ” (tud. 36-7).

Mae geiriau eithafol o'r fath yn brawf amlwg nad oedd Cynddelw mewn ysbryd addas i farnu Pughe. Iaith rhagfarn ddall yw y geiriau, oblegid

(1) Yr oedd Pughe wedi profi uwchlaw amheuaeth ei fod yn ddigon galluog i ddeall a dehongli prif waith Milton, un o brif feirdd y byd. Ai tybed fod gwaith Dewi uwchlaw ei ddeall a'i farn? Yr oedd wedi dangos ei allu beirniadol ar feirdd a barddoniaeth yr hen oesau mor ragorol nes ennill ei safle fel un o brif feirniaid ei oes. Ai tybed fod awdl Dewi, er mor ddidrefn ydyw, uwchlaw ei amgyffredion?

(2) Meddai Dewi berffaith ymddiried ynddo cyn y gystadleuaeth. Bu dan ei feirniadaeth cyn hynny, a gwyddai trwy brofiad am y driniaeth a gai pob cyfansoddiad a ddeuai dan ei sylw. Os yw y pethau a ddywed Dewi am Pughe yn wir, yr oedd Dewi wrth anfon ei awdl iddo yn un o'r rhai ynfytaf a mwyaf direswm a fu mewn cystadleuaeth erioed.

(3) Y mae syniad beirniaid dysgedicaf yr oes honno yn dra gwahanol i syniad Cynddelw am allu beirniadol Dr. Pughe. Y mae Cynddelw yn galw sylw at farn Gwallter Mechain am Dewi fel bardd, ac nid oes angen ameu ei farn, gan ei fod "y beirniad goreu a fagodd Cymru erioed," a dylai ei farn fod yn derfynol. Ond yr oedd gan Gwallter ei farn am Pughe hefyd, a dyma hi,—“He is the completest critic of the age in every department of Welsh literature.” Os yw yn iawn cymeryd Gwallter Mechan yn awdurdod ar Dewi Wyn fel bardd, y mae'n deg hefyd cymeryd Gwallter Mechain yn awdurdod ar Pughe fel beirniad.

“Y Geiriadur a'i gredo' sydd yn feius, yn ol barn Dewi Wyn” (tud. 37).

Awen gref a barn wan oedd gan Dewi Wyn. Yr oedd yn amddifad o chwaeth, ac mewn canlyniad yr oedd ei "eiriadur a'i gredo" yntau yn feius iawn yn fynych. Galwyd sylw at ei linell aflan eisys, ond y mae desgrifiad Cynddelw o gredo Pughe (tud. 37) lawn mor aflednais a dim o waith Dewi, yr hyn a brawf ei fod yntau yn amddifad o chwaeth uchel, ac felly nis gall Cynddelw fod yn feirniad teg. Nid yw'n gwneud chware teg â'r broffwydes na'r Southcotaidd, na Phughe. Cymer blaid "freuddwyd Mormonaidd" R. ap Gwilym Ddu, ond gwawdia'n amharchus "freuddwyd Mesiaidd" y Southcotaidd, ac eto y mae y ddau freuddwyd, fel dau freuddwyd Pharo, yn debyg iawn i'w gilydd, ac yn perthyn yn agos y naill i'r llall. Rhoddir tri rheswm dros amddiffyn Dewi mor selog, a'r tri yn anelu at galon Pughe a'i gyd-feirniaid,—

"(1) Mae yn amlwg i'r bardd gael cam dybryd, a hynny pan oedd y gwahaniaeth mor amlwg a'r gwahaniaeth sydd rhwng aur a phlwm" (tud. 36).

Nid yw hyn ond rhan o'r gwir. Cydnabyddir y gwahaniaeth gan bawb; ond rhesymau ereill roddwyd dros wrthod

gwobrwyo Dewi. Byddai ei wobrwyo yn "gam dybryd" â'r bardd, a'r Eisteddfod, ac a'r beirniaid.

"(2) Mae yn amlwg i'r athrod a'r enllib mwyat disaill gael ei ddyfeisio i esgusodi a chyfiawnhau y cam hwnnw" (tud. 36).

Nid y beirniaid, ond yr ymgeisydd siomedig, oedd yr athrodwr a'r enllibiwr. Dywedodd Bardd Nantglyn fod yn amhosibl ei wobrwyo am ei fod yn "curo ar y personiaid," ac yr oedd troi'r Eisteddfod i amcanion felly yn ddigon o reswm dros ei esgymuno. Y mae'n syn fod Cynddelw yn edrych ar Dewi fel arwr clodfawr wrth iddo ymosod ar y personiaid, ac ar Pughe a'r Gwyneddigion; ond wrth iddo ymosod ar Iwan (y Parch. David Williams, 1796—1823) dywed Cynddelw y dylid tosturio wrth Dewi yn hytrach na'i gollfarnu (1) am ei fod yn ddyn o ysbryd uchel a hunanol, (2) am ei fod yn hynod ddolurus a chroen-denau, ac (3) am ei fod yn dioddef oddiwrth anhwylderau gewynol (tud. 38). Ond dywed cyfiawnder cyffredin fod ymosod ar Pughe yn gymaint o bechod ag ymosod ar Iwan, a bod ymosod ar weinidogion Eglwys Loegr yn gymaint o bechod ag ymosod ar weinidogion Ymneilltuol.

“ (3) Mae yn amlwg fod Dewi yn ddyngonest ac union, a bod y fath ddichellion anghyfiawn yn cynhyrfu ei holl natur ” (tud. 36).

Ni ddywedir beth oedd y “ dichellion anghyfiawn.” Gwnaed pob ymdrech gan y Gwyneddigion i osod pob cystadleuaeth ar dir diamheuol. Yr oedd pob cyfansoddiad i gael ei arwyddo gan ffugenw yn unig, ac i gael ei ysgrifennu, os yn bosibl, gan rywun heblaw yr awdwr. Buasai cadw at reolau y Gwyneddigion yn peri fod athrodi ac enllibio ar ol colli yn anhawddach. Gan fod Dewi yn “ ddyngonest ac union ” dylasai gadw at y rheolau yn fanwl, ond am ryw resymau ni wnaeth hynny. Gan fod pwys mawr yn cael ei roddi ar onestrwydd ac uniondeb Dewi, mae'n deg ei ddal yngwyneb yr hyn a ddywedir am dano yn yr Atodiad. A ydyw yr awdl a gyhoeddwyd gan Dewi yn *hollol* yr un peth a'r un a fonwyd ganddo i'r gystadleuaeth? Cydnebydd Gwyn-daf Eryri, cynutydd Dewi Wyn, fod “ peth newid wedi ei wneud arni.” I fod yn “ onest ac union ” dylesid ei chyflwyno lythyren am lythyren i farn y wlad fel y cyflwynwyd hi i farn y beirniaid yn Ninbych.

Yn ol yr Atodiad (tud. 27), ceisiwyd cymeradwyaeth Dafydd Ddu Eryri i gyhoeddiad yr awdl, a darllenwyd hi iddo. Pan argraffwyd hi anfonodd Dafydd Ddu at y Gwyneddigion i egluro mai'r peth a ddarllenwyd, ac nid y peth a argraffwyd, a gymeradwyodd efe. "Craffwch," ebe'r Du, "nid oedd cynwysiad yr awdl ar y pryd hwnnw, yn hollol ac yn gyfangwbl, yn yr un modd a'r gwaith argraffedig."

Yng nghystadleuaeth "Molawd Ynys Prydain" yr oedd Dewi Wyn mewn cyngrair âg un o'r beirniaid (Humphrey Parry) (tud. 14), a thra yr oedd y cyfansoddiadau dan sylw'r barnwyr, yr oedd Parry, ac yntau yn un o'r barnwyr, yn llythyru'n gyfrinachol at Dewi Wyn, ac yntau'n chwannog yn newid ei gân yn ol cyfarwyddyd y beirniad. Dyma'r "dyn gonest ac union" oedd yn credu fod "dichellion anghyfiawn" yng nghalon pawb ond yn ei galon ef ei hun.

Pan y datguddir hanes cyfrin llenyddiaeth Gymreig y ganrif o'r blaen, datguddir hefyd gymeriadau gwiw y dynion fu'n llafurio'n ddyfal ynghanol dynion amheus, brwnt a diddiolch.

Ni cheisir gwyngalchu cymeriad Dr. Pughe mewn un modd, oblegid yr oedd yn

perthyn iddo golliadau amlwg a phwysig; ond y mae ei gondemnio mewn iaith fwy dichwaeth nag iaith oferwyr pen heol, am gyflwyno ei wasanaeth gwerthfawr, amhrisiadwy y pryd hwnnw, yn ddidâl i'w genedl, a hynny er mwyn amddiffyn llinell warthus mewn pennill o gywydd, y mae peth felly, meddwn, yn anghyfiawn i'r eithaf.

Mor wahanol y sieryd Cynddelw yn y *Gwyddoniadur!* Prin y gellir credu mai yr un Dr. W. Owain Pughe sydd dan sylw,—

“ Fel ymdrechwr dros lenoriaeth ac anrhydedd ei genedl, prin y gellir cystadlu neb ag ef; ac os teimla rhywun duedd i'w feio am ormod o sel yn hynny, byddai cystal iddo gofio fod llawer yn ddisêl; a gellir dwedyd am y doethawr, er cymaint oedd ei lafur a'i lwyddiant ef, nad oedd neb llai ei ymfrost, a mwy dirodres; ac er cymaint a sarheid ac a enllibid arno, nad oedd neb mwy tangnefeddus, amyneddgar, llariaidd, a charedig. Bydded i lenorion ieuainc Cymru efelychu y dyn mawr hwn mewn sel ac ymdrech dros eu hiaith, ac ymegniad diorffwys er dyrchafu eu cenedl mewn dysg, gwybodaeth, a phob rhinwedd.”

“ A ydyw ffynnon o'r un llygad yn rhoi dwfr melus a chwerw?” Darllener Atodiad i “Flodau Arfon,” a'r ysgrif yn y

Gwyddoniadur dan y gair “Pughe,” a cheir fod bendith a mellidith yn dyfod allan o'r un genau.

III. Y DOSBARTH LEITHYDDOL.—Yn gymharol ddiweddar cododd ysgol newydd yng Nghymru yn llawn aidd am drefn a dosbarth ar yr iaith a'r orgraff. Gwnaeth yr ysgol hon eisoes waith mawr a phwysig iawn, a chan fod nifer o Gymry dysgedig a galluog yn arweinwyr ynddi, disgwydir dyfodol disglair i'r Gymraeg. Cydnabyddir Syr John Rhys fel sylfaenydd a phennaeth yr ysgol hon, ac y mae ei enw ef yn ddigon o wystl am ddiogelwch yr iaith, ac am le cynnes iddi ar aelwyd ei theulu.

Bellach, nid amhriodol galw Dr. Pughe a'i ddisgybillion yn “Hen Ysgol,” a galw Syr John a'i ddisgybillion yntau yn “Ysgol Newydd.” Nid dwy ysgol wahanol yn ymgyndynnu mo honynt ychwaith, gan mai coleddu'r Gymraeg yw prif ddiben y ddwy. Gwnaeth canrif wahaniaeth mawr yn yr angen am y gwaith, ac yn y modd i wneud y gwaith. Yr oedd yn rhaid i'r hen geisio atal marwolaeth yr iaith; mae'n rhaid i'r newydd geisio ffurfio bywyd a thyfiant yr

iaith; ac nid yr un moddion yn hollol raid gael i wneud y naill waith, ac i wneud y gwaith arall. Halen daear yr iaith oedd yr hen ysgol; ond goleuni byd yr iaith yw yr ysgol newydd. Ni ddylid diflasu'r halen mwy na chuddio'r goleuni, oblegid arall yw swydd y naill ac arall yw swydd y llall.

Gofidus dweyd fod adran o'r ysgol newydd yn dal ar bob cyfle i erlid yr hen ysgol, ac i wawdio Dr. Pughe, a hynny'n aml heb rith o esgusawd. Prin y rhaid dweyd fod Syr John Rhys yn ormod o foneddwr, ac yn ormod o wladgarwr, i wneud peth o'r fath. Er ei fod yn gwahan-iaethu'n fawr ac yn fynych oddiwrth Dr. Pughe, eto y mae ei feirniadaeth bob amser yn deg a rhesymol. Y mae gan Syr John lawer o ddisgyblion teilwng yn hyn o beth. Ymawyddant am weld yr orgraff wedi ei hysgythru'n raenus; ond gofalent am geisio gwella'r hen iaith heb labyddio'r hen enwogion. Credant fod yr iaith wedi ei gwneud er mwyn dyn, ac nid dyn er mwyn yr iaith; am hynny parchant gymeriad yr ieithwyr wrth ymwneud â chymeriad yr iaith. Ond y mae'r adran hon o'r ysgol newydd yn foneddigeiddiach na'r adran y mae a wnelo coffadwriaeth Dr.

Pughe a hi, ymhlith y rhai y tybia pwy bynnag a laddo goffa Pughe ei fod yn gwneuthur gwasanaeth i'r iaith. Yng-hanol ei holl golliadau a'i gangymeriadau yn sicr haedda driniaeth weddol barchus, petai dim i roi cyfrif am hynny ond y ffaith iddo beri cynnwrf yn nyffryn esgyrn sychion y Gymraeg. Cydnabyddir ganddynt fod ei ddylanwad ar y Gymraeg yn neilltuol o fawr yn ystod y ganrif ddiweddaf; ac eto dywedir mai efe yw "ysbeiliwr a llofruddiwr yr iaith." Anodd gwybod pa fodd y dichon i'r ddau beth hyn fod yn wir. Os "ysbeiliwr a llofrudd" ydoedd, mae'n rhaid ei fod yn ddiddylanwad iawn neu buasai'r iaith yn gelain ers oesau. Os gwr o ddylanwad mawr ydoedd, mae'n rhaid nad oedd yn wr llawruddiog, oblegid y mae'r iaith yn fwy byw ar ddechreu'r ganrif hon nag oedd ar ddechreu y ganrif o'r blaen, a mwy yn ei pharablu heddyw nag erioed.

Cyfeirir at yr hen ysgol fel "Dr. Pughe a bagad o'i ganlynwyr crach ieith-egol." Ymhlith ei ganlynwyr yr oedd dynion fel Charles o'r Bala, Gwallter Mechain, a Silvan Evans. Mae'n wir iddynt dyfu trwy lawer o ddaliadau

Pughe, ond canlynwyr iddo ef oeddynt, ac yr oedd ei ddylanwad arnynt hyd y diwedd, i raddau mwy neu lai. Cerddodd Pughe a'i fagad gyda blaen y wawr, ac nid oes achos eu gwawdio am iddynt gollir ffordd a chrwydro weithiau o ddiffyg mwy o oleuni.

Mae'n bosibl mai'n amryfus y gwnaed sylwadau disail fel y rhai canlynol gan yr Ysgol Newydd,—

"Dr. Pughe oedd y cyntaf i arfer 'hÿny' yn yr iaith."

"Y cyntaf i arfer 'dysgybl' oedd Dr. W. O. Pughe."

"Dr. Pughe a'i ysgol sydd wedi beichio'r iaith a phriod-ddulliau'r Saesneg, ac ag orgraff a chystrawen ddieithr."

"Gair o ddyfeisiad Dr. Pughe yw 'Rhian.'"

"Penwendid Pughe ddaeth a 'Rhiannod' ac 'alarchod' i arferiad."

Digon yw dweyd fod y pethau hyn ar gael cyn geni Dr. Pughe, a'i fod yn gwrthod rhai o'r pethau a briodolir iddo, o leiaf nid oedd yn eu harferyd.

Digwyddodd gamgymeryd trwy rod-di "y" yn lle "u" yn y gair "crud," a throi "eurgrydd" yn "eurgryd." A gwarchod y gwirion! Am yr amryfusedd

hwn pentyrrir ar ei ben eiriau crasboeth fel,—“Anwiredd noeth,” a “gwyrdroad annuwiol.” Wrth ddarllen ymadroddion o’r fath, am i ddyn lithro ar air, hawdd gofyn mewn syndod, ai carictor gwr, ai carictor gair yw’r pwysicaf? Ac os gellir bod mor ddibris gyda chymeriad dyn, faint mwy dibris y gellir bod gyda chymeriad gair?

Disgwylir fod gan ddynion sy’n llefaru mor bendant ryw reolau sefydlog, yn aros, fel deddf y Mediaid a’r Persiaid, yn ddigyfnewid. Ond pan eu ceisir nid oes mo honynt. Nid ydynt eto wedi cyrraedd perffeithrwydd felly, a gweddus i ddynion sydd ar y ffordd yn cyrchu at y nod lefaru ychydig yn gynnil.

Nid oes achos cwyno rhyw lawer am ansefydlogrwydd parhaus fel hyn. Y mae popeth mawr yn dueddol i ysgwyd yn lled hir cyn sefyll yn sefydlog. Dynion mewn ymchwil am y gwir, ac heb ei feddiannu i sierwydd eto, sydd gyfrifol am un restr ar ol y llall, ac yn ddigon ystwyth i newid eu barn lawer gwaith drosodd pan y cant resymau digonol dros wneud hynny.

Ond y mae achos cyfiawn i gwyno oherwydd y gwawd a defir yn ddibaid ar ddynion fel Dr. Pughe, fu’n chwilio’n

ddyfal am y gwirionedd fel hwythau, a hynny o dan fwy o anfanteision ganwaith. Gwyddant hwy trwy brofiad beth yw methu er chwilio, neu pam y maent mor gyfnewidiol eu barn? Dylasant gydymdeimlo â gwr fu'n chwilio er iddo fetu, neu pa werth sydd mewn profiad?

Anodd gwybod i sicrwydd pam y poenydir Pughe yn fwy nag ieithwyr ereill fu'n ceisio dwnedu'r iaith fel yntau. Cywirir gramadegwyr ereill yn foneddigaid, a gwrthodir eu daliadau yn rasol; ond pan y sonnir am Pughe, nid digon fydd gwrthod ei syniad, ond mynnir curo'r gwr â llawer ffonod. Yn sicr, ni wneir hyn am ei fod yn fwy honiadol; oblegid ni bu ieithydd mwy diymhongar erioed, ac yn hyn o beth nid hawdd fydd taro ar ei gymar byth. Yn 1806, yng-hanol ei lwyddiant mwyaf, ar ol cyhoeddi ei Ramadeg a'i Eiriadur, ysgrifenna'n syml at Charles o'r Bala fel hyn,—

“Please to observe, when I am writing to you about the Welsh Language, I do not assume the *critic*; I submit to superior knowledge.”

Yr un modd y sieryd wrth ereill o flaen ac ar ol y dyddiad hwnnw. Beth bynnag a wnaeth ynglyn â'r iaith fe'i gwnaeth am

nad oedd neb arall i'w wneud; ac ar ol gwneud ei oreu cydnabyddai'n ddiroddres mai "gwas anfuiddiol" ydoedd. Er hyn i gyd, câr yr ysgol newydd ei gernodio'n afresymol.

Mae'n rhaid hefyd mai nid am ei fod yn cael ei orfoli y gwneir hyn ganddynt. Bu adeg yng Nghymru pan y codid ef fel ieithydd tu hwnt i bob mesur, a hynny ar draul anwybyddu pob ieithydd arall, hen a diweddar. Y pryd hwnnw yr oedd yn ddigon naturiol i un dosbarth fyned i'w ordduo am fod dosbarth arall yn ei ordduwio. Yr oedd un eithaf yn achosi eithaf arall. Ond y mae syniadau eithafol am ragoriaeth Pughe fel ieithydd ymhlith y pethau a fu, ac ni raid mwyach wrth syniadau eithafol am ei waeledd. Ac eto y mae iaith adran o'r ysgol newydd yn nodedig o eithafol.

O'r braidd y gellir meddwl mai natur frwd y Celt yn troi'n oer a haearnaidd sydd yma—y llinyn a glymai Dr. Pughe â'r Cymry wedi ei wneud yn rhy dynn ac yn torri. Digwydda hynny'n fynych; "gnawd rhygas wedi rhyserch." Ond y mae'r ysgol yn rhy ysgolheigaidd i gymeryd ei chylcharwain gan awel teimlad felly, ac y mae'n gwybod yn dda nad yw

serch y werin wedi oeri fawr i gyd at Dr. Pughe, gan fod ei erlid yn ennyn dig.

Awgrymir gan rai o'r ysgol newydd mai amcan mawr y difrio ydyw diddyfnu'r Cymry oddiwrth Gymraeg Dr. Pughe. Dywedant fod bron yn amhosibl perswadio llenorion Cymreig i ymwrthod a'i arferion, am eu bod yn synio mor uchel am y Doethor. Felly, trwy ei wneud yn gyff gwawd, hyderant y daw'r Cymry o dipyn i beth i gashau ei enw, ac i fwrw ei Gymraeg i'r wadd a'r ystlumod. Mynant fod yr amcan yn cyfiawnhau'r moddion.

Dyma ffordd newydd a dieithr o drin ein hen gymwynaswyr, a gobeithiwn er mwyn anrhydedd ein cenedl mai ychydig sydd "o'r ffordd hon." Y mae ymddygiad o'r fath yn anheilwng i'r eithaf, a gwell i ni golli'n hiaith na cholli'n cymeriad.

Un o ddisgyblion yr ysgol newydd a ofyna,—“Onid yw'n synn fod cynifer o honom yn dal i lynu, er gwaethaf popeth, wrth Gymraeg Dr. Pughe?” Nac ydyw, mewn un modd. Cryn lawer o glod i gydwybod cenedl yw'r ffaith nad yw'n barod i amharchu ei hen arweinwyr heb resymau digonol; ac y mae geiriau yr

ysgol hon am Dr. Pughe yn codi gwrthwynebiad greddfoll yn y Cymro tuag ati, a pheri iddo lynu mwy nag a ddylai, hwyrach, wrth ei gariad cyntaf. Y mae pob cam a roddir tuag at berffeithiad yr iaith yn peri i galon gwlad lawenhau; ond y mae pob carreg a deflir at un o'i goreugwyr yn peri i gydwybod gwlad wrthdystio. Felly y mae'r ysgol ag un llaw yn adeiladu, ac â'r llaw arall yn bwrw i lawr, o ganlyniad araf iawn y cwyd yr adeilad, ac arafach fyth y ceir y bobl i ymddiried yn yr adeiladwyr.

Beth bynnag fydd hanes yr iaith yn y dyfodol bydd yn amhosibl anwybyddu Dr. Pughe fel un o'i charedigion pennaf yn y gorffennol. Bydd o angenrheidrwydd yn aros fel maen cof ar lwybr ei hymdeithiad, ac yn nodi y drofa bwysig a gymerodd yr iaith tua thir y bywyd, ac nid tua bro marwolaeth. Er gwell neu er gwaeth, bu Dr. Pughe yn foddion i ddefro'r Cymry i weled trysorau'r iaith, i weled posibilrwydd yr iaith, ac i weled y mawr angen am well trefn ar yr iaith. Un o frwythau'r deffroad hwnnw yw yr ysgol newydd, ac hyd yn oed yr adran o'r ysgol sydd eto'n chwythu bygythion a chelanedd yn erbyn Dr. Pughe. Hebdo ef a'i

gyfoedion, mae'n ddigon posibl mai gwaith yr ysgol hon heddyw fyddai trin corff iaith farw, ac nid trin enaid iaith fyw. Oherwydd paham dylai y gwr mawr hwn gael ei barchu gan bob Cymro gwladgar. Gwrthoder ei ddaliadau os mynner, ond na warthnoder ei gymeriad yn ddiachos. Y mae goleuni canrif yn ddigon o reswm dros newid llawer iawn ar ei drefniant, ond y mae'r un goleuni yn ddigon o reswm dros fod yn foneddigaidd wrth un o ddynion boneddigeiddiaf ei oes.

“Gwilym Owain gywrain, gall,
Pwy burach? uwch pawb arall;
Mawr ethawl Omerieithydd,
Ni bu fwy—ni wn be' fydd.”

CAERNARFON:

*Cwmni y Cyhoeddwyr Cymreig (Cyf.).
Swyddfa "Cymru."*

Llyfrau ab Owen.

Cyhoelidedig yn Swyddfa "Cymru," Caernarfon.

Nid yw y llyfrau hyn yn gyfres, er eu bod oll o'r
un plyg a maint.

PRIS, SWLLT YR UN.

CLYCH ADGOF.

Penodau yn hanes fy addysg.

GAN OWEN EDWARDS.

Ysgol y Llan. Hen Fethodist. Llyfr y Seiat. Fy
Nhad. Y Bala. Aberyswyth. Rhydychen. Dyrnaid o
Beis

GWREICHION Y DIWYGIADAU.

WEDI EU CASGLU GAN GARNEDDOG.

Penhillion y Diwygiadau, tân oddiar yr allor,
yn llawn ysbryd ac athrylith.

TRO TRWY'R WIG.

GAN RICHARD MORGAN,

Y Gyfrol Gyntaf.

Coch y Berllan. Priodas y Blodau. Nyth Aderyn
Du. Bore Teg. Carwriaeth y Coed. Crafanc yr Arth.
Telor yr Helyg.

DAFYDD JONES O DREFRIW.

GAN Y PARCH. O. GAIIANYDD WILLIAMS.

Y Llenor a'i oes. Amcan a lle Dafydd Jones. Pwy ydoedd. Bywyd a Buchedd. Ei Farddoniaeth. Ei Grefydd. Ei Llyfrau. Bwriadau Llenyddol. Fel casglwr hen ysgriflyfrau.

TRO I'R DE.

GAN OWEN EDWARDS.

Caer Leon Fawr. Llanidloes. Llanfair Muallt. Abertawe. Yr Hen Dy Gwyn. Llangeitho.

GWAITH HUGH JONES, MAESGLASAU.

DAU O'I LYFRAU,—SY'N BRINION IAWN ERBYN HYN.

- I.—"Cydymaith i'r Hwsmon." 1774.
II.—"Hymnau Newyddion." 1797.

TRWY INDIA'R GORLLEWIN.

GAN Y PARCH. D. CUNLLO DAVIES.

Nodiadau o hanes taith trwy yr ynysoedd yng ngauaf 1903-04.

CERIS Y PWLL.

GAN O. WILLIAMSON.

Rhamant hanesyddol yn egluro cyfnod yr ymdrech rhwng Goidel a Brython a ffurfiad y genedl Gymreig.

CANIADAU BUDDUG.

Ceir yma mewn cyfrol dlos ganeuon llednais, tawel hyfryd y cartref dedwydd, a'r bywyd dwys.

CERRIG Y RHYD.

Llyfr o hanes rhai'n camu cerrig rhyd bywyd.

GAN WINNIE PARRY.

Cerrig y Rhyd Y Cawr Hwnw. Y Plas Gwydr. Cwyr. y Rhosyn. Anwylaf. Uchelgais y Plant. Y Goedwig Ddu. Blodau Arian. Fy Ffrog Newydd. Y Marchog Glas. Hen Ferch. Breuddwyd Nadolig. Huw. Esgidiau Nadolig. Y Castell ger y Lli. Dros Foel y Don.

CAPELULO.

GAN ELFYN.

Bore Oes; Crwydro'r Byd; Troi Adre; Troi Dalen Sêl Tomos; Dysgu Darllen; "Dydd Iau"; Balchder a phwddin; Gwerthu Almanaciau a Cherddi; Traethu ar Briodas; Anerchiadau a Chynghorion; Araeth Danllyd; Pregeth i Berson; Cwestiynau'r Cyfrwys; Dafydd Evans y Pandy; Cyfarfod Gwytherin; Yn y Cyfarfod Gweddi; Tagu Prvydd; Dywediadau ac Ymgomiau; Tomos ac I. D. Ffraid; Y Gweinidog o'r De; O Flaen yr "Ustus"; Rhyfel a Satan; Yn y Seiat; Galwad Adref.

TRO TRWY'R GOGLEDD.

GAN OWEN EDWARDS.

Blaenau Ffestiniog. Y Perthi Llwydion. O gylch Carn Fadryn. Harlech. Ty'n y Groes. Llan ym Maw-ddwy. Pen y Bryn. Y Bryn Meln.

ROBERT OWEN, APOSTOL LLAFUR.

GAN Y PARCH. RICHARD ROBERTS, B.A.

Cyfrol I.

Y cartref yn y Drefnewydd. Y Siop yn Llundain Manceinion. Lanark Newydd. Amseroedd Rhyfedd. Trueni'r gweithiwr. Adam Smith a Malthus. Ym Mharis a'r Ynys Werdd Ymroddi i wella cymdeithas. Ei syniadau.

Cyfrol II.

Harmony Newydd Lanark Newydd. Mexico a'r Unol Dalaethau. Y Synudiad Cydweithredol. Y Gyfnewidfa Llafur. Yr Undebau Llafur. Y dyn. Ei neges. Ei le. Ei gymunrodd.

BRUT Y TYWYSOGION.

PRIF GRONICL CENEDL Y CYMRY.

Rhodri Mawr—Hywel Dda—Llywelyn ab Seisyll—Gruffydd ab Llywelyn—Bleddyn ab Cynfyn—Rhys ab Tewdwr—Gruffydd ab Cynan—Gruffydd ab Rhys—Owen Gwynedd—Owen Cyfeiliog—Yr Arglwydd Rhys.

